YSTEN SIONED:

NEU

Y GRONFA GYMMYSG.

"*Pob sorod i'r god ag ef.*" — DIAREB.

AIL ARGRAFFIAD.

Gwrecsam:
CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, HOPE STREET.

1894.

RHAGYMADRODD
I'R ARGRAFFIAD CYNTAF.

YR oedd gynt, meddant hwy, hen wraig o'r enw Sioned yn arfer myned oddi amgylch y wlad i gardota; a'r llestr oedd ganddi i dderbyn cardodau yr haelionus ydoedd ystên, cynnog, neu biser. Pa elusen bynnag a roddid iddi, ai gwlyb ai sych, ai gwerthfawr ai gwael, teflid y cwbl yn ddiwahaniaeth ac yn bendramwnwgl i'r ystên fawr a gludai wrth ei hystlys: o ba herwydd daeth *Ystên Sioned* i fod yn gyfystyr â chymmysgfa neu gybolfa o bethau anghydryw; a gelwir y cyffelyb dryblith mewn rhai parthau dan enw *Piser Alis.*

Crybwyllir cymmaint a hyna er mwyn dangos ystyr ac urddas a phriodoldeb enw ein llyfr, yn gystal ag ansawdd ei gynnwysiad.

Nid ydoedd Sioned yn gwrthod dim, nac yn beio ar ddim a roddid yn ei hystên; ond derbyniai'r cwbl gyda gwên foddhaol,gan fod yn ddiolchgar am dano. Cofnodir hyn o ffaith er mwyn cynnorthwyo tipyn ar yr "hynaws ddarllenydd" i ymlwybro at ei ddyledswydd yn ei berthynas â'r Ystenaid a gynnygir yn awr i'w ystyriaeth.

Dydd Gwyl Gewydd, 1882.

RHAGYMADRODD I'R AIL ARGRAFFIAD.

Y MAE Sioned, fel na chyhudder hi o annïolchgarwch, yn dymuno cydnabod ei rhwymedigaethau am lenwi ei Hystên i'r PROFFESWR (yn awr y CANON) D. SILVAN EVANS, a MR. JOHN JONES *(Ivon)*; a dangosir yn y Cynnwysiad pa faint a pha beth a gyfranodd y naill a'r llall o honynt.

Gwyl Ddewi, 1894.

CYNNWYSIAD.

CYFRANIADAU
Y CANON SILVAN EVANS.

CYFRANIADAU

Mr. JOHN JONES (Ivon).

YSTEN SIONED.

Y Ferch Anffodus.

GEFAIS yr hanesyn canlynol mewn papyryn a ysgrifenwyd er ys mwy na chan mlynedd yn ol; a geilw yr ysgrifenydd ef yn "Ystori Wirioneddol." Yr wyf yn ei adrodd yn lled agos yng ngeiriau yr ysgrifen gyntefig.

Yr oedd yn trigiannu yng Ngwern Hywel, yn agos i Yspytty Ifan, wr yn byw ar ei dir ei hun, ag iddo ddau fab; ond nid oedd yr hynaf o honynt, sef yr etifedd, mor ffetus a dynion ereill; eithr gwirion a phlentynaidd ydoedd; ac nid oedd rhianedd mewn un modd yn wrthddrychau deniadol yn ei gyfrif ef. Y tad, wrth weled ei gynfab felly, a feddyliodd wneuthur y mab arall yn etifedd yn ei le. Yn yr un gymmydogaeth yr oedd yn byw wr arall â dwy ferch ganddo; ac yr oedd ef yn ddyn o gryn feddiannau a gwerth. Beth a wnaeth y gwr yma ond ceisio gwthio un o'i ferched, o chwant y tir, ar yr etifedd gwirion, a rhoddi

cryn dwysgen o eiddo gyda hi yn gynnysgaeth. Ac felly gwnaed cyttundeb, a hwy a briodwyd, ac aethant i fyw yng nghyd ar y tyddyn a berthynai i'r gwr egwanbwyll. Dros flwyddyn neu ragor ymddygodd y ferch yn wraig go wastad; ond ar dro daeth rhyw hen gydymaith iddi heibio, a hudodd hi i'w ganlyn ef. Aeth hithau i ffordd gydag ef dros ryw hyd, ac nis gwyddid pa le yr oeddynt; ond gadawodd yr adyn hi, a hi a fu yn cerdded i lawr ac i fyny o fan i fan, heb neb yn gwybod dim o'i hanes; ond hi a ddeuai weithiau i ryw un o'r caeau nid neppell o'r tŷ, ac a roddai rywbeth yno i annerch ei gwr, a hyny mor fynych ag y gallai hi gael y peth a garai ac a hoffai ef; eithr nid ai i'r tŷ er dim a geisient ganddi, ond i ffordd drachefn fel chwibleian nas gwyddid i ba le. Hi a fu ddwy neu dair blynedd yn y cyflwr crwydrus hwn, megys wedi cywilyddiaw o herwydd ei hymddygiad, a'i thad (yr hwn a wnelsai y briodas) yn ddig iawn wrthi, ac yn barod i'w tharaw yn ei phen ond cael ei gweled. Ond ym mhen hir a hwyr hi a ddaeth i dŷ ei thad; eithr nid oedd yr hen wr ei thad yn dygwydd bod yn y tŷ y pryd hyny, ond ei chwaer yn pobi wrth y bwrdd. "O! fy chwaer," ebai hi,

"i ba beth y doit ti yma? Cymmer fwyd, a dos i ffordd cyn dyfod fy nhad i'r tŷ, rhag ofn iddo dy daraw a'th friwo, o herwydd ei fod yn ddig iawn;" ond hi a arosodd nes dyfod ei thad i mewn. Aeth yntau heibio tuag at y tân heb ei gweled, ac eisteddodd mewn cadair: ond hi a syrthiodd ar ei gliniau o'i flaen ef, gan ofyn ei fendith. Ebai'r hen wr, "Beth wyt ti, a phwy sydd yma?" Ebai'r chwaer arall wrtho, "Fy chwaer yw hi." Yntau a gododd ei ddwylaw ac a'u rhoes ar ei phen, gan ddywedyd, "Duw a'th fendithio, ac a ddiwygio dy fuchedd!" Ar hyny hi a ollyngodd ei phen ar ei liniau ef, ac yntau yn ceisio ganddi godi: ond yn ofer. Erbyn edrych yr oedd hi wedi marw! A'r hen wr, pan wybu ei marw, a gododd ei ddwylaw, gan ddiolch i Dduw na roisai ef na chlais na dyrnod iddi, er diced ydoedd.

Twmpathau Arthur.

PAN oedd Sioned ym Morganwg ar ei thro rhoddwyd a ganlyn, ym mhlith pethau derbyniol ereill, yn ei Hystên.

Y mae rhes o fynyddau yn rhedeg drwy Dde-

heubarth o'r dwyrain i'r gorllewin, ag arnynt dwmpathau neu wyddfaoedd, a elwir Twmpathau Arthur, neu Neidiau Arthur; yr hwn, meddir, a'u cododd, gan osod dewisedigion o'i filwyr mewn lleoedd cyfaddas arnynt i wylied ymgyrch gelynion o fôr ac o dir; a phan welid y cyfryw yn agosâu, neidiai yr un a'u gwelai gyntaf o dwmpath i dwmpath, oni ddelai ef â'r newydd i Gaerlleon ar Wysg, lle yr oedd y milwyr dan arfau yn barod i fyned yn erbyn y gelynion. Y nesaf i Gaerlleon o'r Twmpathau hyn sydd ar ben Twyn Barlwm, yng Ngwynllwg; yr ail, ar Arth Llanilltud Faerdref; y trydydd, ar Arth Maelwg; y pedwerydd, ar Fynydd y Gaer, Llangrallo; y pummed, ar Fynydd Morgeila, yn Nhir Iarll; y chweched, ar Fynydd y Gaer, Glyn Nedd; y seithfed, ar y druman rhwng Nedd a Thawy; yr wythfed yw'r wyddfa ar y mynydd uwch ben Trewyddfa, yn Llangyfelach; a'r nawfed, yr hon yw y naid fwyaf oll, ac yn drigain milltir o leiaf, ar y Frenni Fawr yn Nyfed. Nid aml y gwelir Cymro y dydd heddyw a ddichon neidio cyn belled; a phrin y gallasai Sioned gyflawni yr orchest pan oedd yn ei hamser goreu.

Traddodiad am y Bardd Cwsg.

Y MAE (neu o leiaf yr oedd) y bobl gyffredin, yng nghymmydogaethau'r Las Ynys, yn o agos i Harlech, lle yr oedd Elis Wynn yn byw, yn credu mai damweiniau a ddygwyddasent mewn gwirionedd oedd i Elis Wynn gael ei gymmeryd i fynydd gan y Tylwyth Teg oddi ar ben y mynydd a elwir Moelfre, ac iddynt ei ddwyn ef gyda nhwy drwy yr holl fyd; ac iddo feddwl ei fod ef wedi bod gyda nhwy lawer iawn o flynyddau, neu gylch einioes hir; ond pan ddaeth ef yn ol, nid oedd ei foreufwyd hanner parod, er bod ei dylwyth wedi bod yn ddiwyd iawn i'w barotoi iddo erbyn yr amser yr arferai gymmeryd ei bryd bore.

Ac am Weledigaeth Uffern, y maent yn credu ei fod ef mewn gwirionedd wedi cael ei ddwyn i Uffern gan Angel o'r nef; a phan ddaeth ef yn ei ol, yr oedd, meddant, ei ddillad a'i benguwch wedi eu greidio a'u golosgi, a chymmaint o sawr ffiaidd uffern ganddynt, fel na thalent mwyach eu gwisgo; eithr eu llosgi ar lan y môr a wnaed mewn lle y byddai sicr i'r llanw eu cyrhaedd, a chymmeryd ymaith yn lân eu

lludw. Yn ei daith drwy uffern, ni fu ef mewn gwirionedd ond meityn bychan o amser, er iddo ef feddwl ei fod wedi bod oesoedd meithion yno.

Yr oedd amryw goelion ereill o'r cyfryw am Elis Wynn ym mhenau hen wragedd eisin-grug y wlad o amgylch y Las Ynys.

Sonir yn gyffredin fod Elis Wynn wedi bwr-iadu cyhoeddi gweledigaeth arall, dan enw Gweledigaeth y Nef; ac yr oedd ef, meddir, wedi ysgrifenu llawer o'r weledigaeth honno; a pheth, fel y dywedir, o Weledigaeth Angeu yn ei Freninllys Uchaf, a hefyd o Weledigaeth y Farn Ddiweddaf; ond bu farw (gwae ni!) cyn gorphen un o'r tair Gweledigaeth hyn. Dywedir i Ffowc Prys, offeiriad Llanllyfni, yn Arfon, ofyn iddo unwaith pa bryd y gorphenai ef Weledigaeth y Nef. "Dim," eb yntau, "cyn myned yno, os Duw yn ei drugaredd a'm dwg yno; am fod yn angenrheidiol myned yno, cyn y gellir gwybod a son yn gyfiawn am yr hyn ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth erioed ar feddwl a deall dyn ei amgyff-red yn y byd hwn. Ond am Weledigaeth Uffern, hawdd oedd i mi ei hysgrifenu, am fy mod yn gweled Uffern o'm blaen yn amlwg yn y byd hwn, i ba le bynnag yr elwyf."

Can y Ffermwr.

O'R holl alwadau sy'n y byd,
  A'u rhifo i gyd yn gysson,
Pen arnynt oll yw'r ffermwr call
  Sy'n attal gwall ar ddynion;
Heb hwn fe fyddai'r byd bob awr
  Dan lwythi mawr anghenion;
Iawn iddaw barch a chlod ar gân
  Am ffrwythau'i lân orchwylion.

Llafurio'n ddiwall tir ein gwlad
  Yw pen pob mad amcanion;
Cawn amledd gwenith, ceirch, a haidd,
  Cawn bawr i'r praidd eu digon:
Rhydd âr ei chnwd o'r erfin gwych,
  Dwg lwyth o'r bresych breision;
Ymborth o'n holl gorlanau cawn
  A'n dyddiau'n llawn cysuron.

Rhoer diog mewn anialwch gwyllt,
  Ac yno hyllt ei galon;
Bydd farw o newyn cyn bo hir,
  Er meddu tir o gylchon:
Ond ffermwr gwych, sy'n caru gwaith,
  Gwna'r gwylltoedd maith yn ddofion;
A'i offer llym, a'i eidion gwâr,
  Fe dyn o'r âr ei ddigon.

Tra bo'r uchelwyr yn eu rhwysg
  Yn dirwyn twysg ynfydion,
Ymarfer o bob drwg yn syth
  Heb weled byth eu digon;
Mae'r ffermwr doeth sy'n trin ei dir,
  Yn meddu gwir fendithion;
O'i gylch mae llwyddiant ym mhob rhith,
  A'i barch ym mhlith y doethion.

Fe god o'i wely ar glais dydd
  I rodio'r meusydd tirion,
I drefnu'r gwair, i drin yr yd,
  Gan alw yng nghyd ei weision;
Gwr llawn ei dŷ, nid oes un gell
  Yn meddu gwell danteithion;
Heb arno ddiffyg mewn un modd,
  Pob peth wrth fodd ei galon.

Mae'n canfod llwyddiant ar bob llaw,
  Ni theimla fraw'n ei ddwyfron;
Mae tâl diwydrwydd yn ddifeth,
  Mae ym mhob peth yn gyfion:
Caiff flith o'r ddôl, o gesail bryn
  Caiff wenith gwyn ei ddigon;
Ffy'r newyn gwelw hyd eithaf coll
  O blith ei holl blwyfogion.

Teg olud o gyfiawnder yw
A ddaw o'i syw orchwylion;
Gan fyw'n ddi-gribddail a di-dwyll,
Fe ddilyn bwyll yn gysson:
Doeth a diniwed yw ei swydd,
Mae'n gyfaill rhwydd ei galon;
Y dyn a fo fal hyn yn byw,
Fe gaiff gan Dduw ei ddigon.

Ar bob diwydrwydd rhown ein bryd,
A'n campau i gyd yn rhadlon,
Cawn gan Ior nef ei rad i'n plith,
Rif defni gwlith y meillion;
Gwelir digonedd ym mhob cell—
A pheth sydd well gan ddoethion,
Cydwybod lân, pob awr yn hedd,
Dim gwell ni fedd nefolion.

1801.

Tylwythog Wr Tregaian.

AR yr unfed dydd ar ddeg o Fawrth, yn y bedwaredd flwyddyn ar hugain o deyrnasiad y Frenines Elisabeth, ym mhlwyf Tregaian, ym Môn, bu farw Wiliam Dafydd Powel Ierwerth, yn gan mlwydd a phump

oed. Bu iddo dair gwraig briod: cyntaf, Elin ach Wiliam; o ba un y bu iddo ddau ar hugain o blant; ail, Catrin ach Rhisiart; o honno cafodd ddeg o blant; trydedd, Elin ach Wiliam; o'r hon y cafodd bedwar o blant. Bu iddo hefyd, yn ei amser, ddwy gariadwraig: un, Sioned ach Wiliam; y llall, Lleucu Llwyd; ac o hon bu iddo bump o blant; ac o Sioned ach Wiliam bu iddo ddau o blant.

Rhif plant y gwragedd oedd un ar bymtheg ar hugain, a'i blant o'i gariadwragedd oedd saith; y cwbl yn dri a deugain. Yr oedd ei fab hynaf, Sion ab Wiliam, yn bedwar ugain a phedair oed, â chanddo blant, a phlant i blant, lawer o rifedi; a'i fab isaf, a elwid Gruffydd ab Wiliam, a oedd yn yr amser hwnw yn ddwyflwydd oed; ac yr oedd y ddau yng nghynhebrwng eu tad. Ei ferch hynaf oedd Alis ach Wiliam, yr hon oedd yn ddeuddeg a thrigain oed, ac a fu yn briod ddwywaith, â chanddi blant, a phlant i blant, lawer o rifedi.

Yr oedd yn fyw ym mhlwyf Tregaian yn amser y gwr hwnw fwy na phedwar ugain o bobl, y rhai a hanent o hono ef yn unig; ac yr oedd o'i hiliogaeth ef yn Sir Fon fwy na thrichant a naw. Nid oedd ef ond gwr bychan o

faintioli, ond o natur gref. Blinid ef yn aml gan y goluddwst a'r garreg; cymmerai luniaeth cymmedrol; yr oedd yn byw wrth hwsmonaeth, ac yn difyru ei hun wrth bysgota ac adara. Yr oedd ei olwg a'i gof, a'i synwyrau ereill, yn gwbl berffaith hyd at ei ddydd diweddaf.

Y Toeli.

GAN fod toelïod yn myned yn anamlach bob blwyddyn, a bod perygl iddynt lwyr ddiflannu, a bod llawer heb gymmaint a chlywed son am danynt, chweithach eu gweled â'u llygaid eu hun, anghenrheidiol wrth gychwyn yw rhoddi rhyw faint o eglurhâd ar y gair, ac ar y peth y mae'r gair yn ei ddynodi.

Toeli, yng Ngheredigion, sydd yr un peth â *tholaeth* neu *dolath* mewn rhai parthau ereill o Ddeheubarth; a thybir fod y naill yn llygriad gwerinaidd o'r gair *teulu*, a'r llall o'r gair *tylwyth;* ac felly mae'r ddau yn bur debyg o ran eu hystyr. Yr hyn a olygir wrth y naill a'r llall ydyw yspryd neu ddrychiolaeth angladd, claddedigaeth, neu gynhebrwng. Gelwir yr un ddrychiolaeth hefyd yn *gyheuraeth* mewn rhai manau o'r Dywysogaeth. Y mae y toeli bob

amser, pan y dygwyddo, yn myned o flaen marwolaeth mewn rhyw deulu neu gilydd. Cychwyn y ddrychiolaeth allan o'r tŷ yr ä'r corff marw o hono, ar hyd y ffordd angladd tua'r eglwys, aiff i mewn i'r adail gyssegredig honno, ac wedi aros amser cymmesur yno, daw allan drachefn at y bedd; ac wedi darfod y claddu, ymwasgara y dyrfa ledrithiol, a derfydd am y toeli hwnw. Mewn gair, y mae'r toeli yn gyffelyb ym mhob dim i'r angladd gwirioneddol, ond yn unig nad oes gan y gwyddfodolion toelïawl gnawd ac esgyrn, nac, hyd y gwyddys, un sylwedd arall. Nid oes, fel yr ymddengys, un amser pennodol i doeli gychwyn o'r tŷ y bydd marwolaeth i ddygwydd ynddo, ac wrth bob tebygolrwydd y mae cryn ryddid wedi ei roddi iddo o ran yr amser. Gall y farwolaeth a ragarwyddir ganddo ddygwydd yn ebrwydd iawn; ond nid oes rhaid iddi ddamweinio am rai wythnosau; eto bernir nad oes un toeli uniongred i'w ganfod am fwy na rhyw fis o amser cyn y gwelir angladd yn teithio ar hyd yr un ffordd. O herwydd yr ansicrwydd a dardd o'r rhyddid hwn, nis gellir gwybod, gyda dilysrwydd, pa bryd y dygwydd y farwolaeth ddisgwyliedig yn y tŷ a'r tŷ, er gweled o honoch

y toeli yn dyfod allan yn ei grynswth o hono. Gwyddoch beth sydd i ganlyn, cystal a phe buasai yno gelain eisoes yn gorwedd dan ei chrwys, ond y toeli yn unig sydd yn gwybod yr amser, os gŵyr hwnw hefyd.

Nid oes toeli, yn ol barn y dysgedigion, yn rhagflaenu pob claddedigaeth; ond y mae *rhyw-beth* yn gyffredin i'w weled o flaen pawb. Ef allai mai canwyll gorff sydd i fod yn ragredeg-ydd i ambell un, neu gwn wybr, neu gwn annwn, neu wrach y rhibin, neu rhyw ysprêd ereill. Y mae y ganwyll gorff, fel y gwyddys, yn gyfyngedig i Esgobaeth Tŷ Ddewi; ac nid wyf yn deall fod toeli o'r iawn ryw i'w weled byth yng Ngwynedd a Phowys; er bod yno ddigon o ryw fân ysprydion a drychiolaethau.

Ond â'r toeli, ac â dim ond un enghraifft neillduol o'r toeli, y mae a wnelwyf ar hyn o bryd.

Yr oedd cynhauaf y flwyddyn 1816 yn un o'r rhai gwlypaf, os nid y gwlypaf oll, y mae gen-ym gof am dano yng nghorff y can mlynedd diweddaf. Dydd ar ol dydd, ac wythnos ar ol wythnos, nid oedd dim ond

"Gwlaw, gwlaw, ar bob llaw yn llwyd."

Eginai yr yd ar ei draed, a phydrai yr hyn

a fedasid. Nid oedd modd cael cymmaint a diwrnod sych i achub sopyn o hono. Yng ngeiriau Gwallter Mechain, gellid dywedyd am y flwyddyn honno:

" 'Leni ni bu hardd-gu hin,
Mai hafaidd na Mehefin;
Ni ffynnodd ein Gorphenaf,
Pob dyffryn a glyn yn glaf;
Yn Awst gwlyb wair mewn ystod,
Medi heb fedi i fod . .
Pydra, egina'n gwenith,
Ceirch a haidd mewn cywair chwith;
Daiar ni bu'n deori
Hanner ffrwyth, o'i hadwyth hi;
Ffrwythau ac eginau gant,
Anhawdd fyd, ni addfedant."

Yn ystod yr amser hwn yr oedd gwr a gwraig o amaethyddion yn byw mewn un o'r plwyfau helaethaf o fewn cantref Moeddyn, yng Ngheredigion. Dalient dyddyn canolig o ran maint, a chyfrifid hwynt yn ddynion synwyrol, gonest, geirwir, ac yr oeddynt yn barchus yn y gymmydogaeth y preswylient ynddi. Yr ydwyf yn eu cofio yn dda ddigon, a byddwn dra hoff o ymgomio â hwynt yng nghylch y pethau a welsent ac a glywsent. Benyw dal lathraidd oedd y wraig, ac o ran cynneddfau meddwl, helaethrwydd gwybodaeth, a pharodrwydd ateb, yr oedd hi ym mhell iawn o flaen ei chymmydogesau a droent mewn cylch cyffelyb. Yr oedd

y ddau yn llygad eu hamser, ac yng ngrym eu dyddiau.

Un prydnawn tua diwedd mis Medi peidiasai y gwlaw, cododd y gwynt yn lled uchel, a dechreuodd yr yd, a doresid gryn bythefnos o'r blaen, ysgafnu a sychu. Aeth y gwr allan ym min yr hwyr i un o'r caeau llafur cyfagos; gwelodd fod yr yd yno bron â bod yn barod i'w rwymo; dychwelodd i'r tŷ, gan ddywedyd wrth ei wraig fod yr yd ar y Banc Uchaf (canys dyna oedd enw y cae) yn lled sych, a bod chwant arno ef fyned a'i rwymo; gan chwanegu y byddai achub cymmaint a sopyn o hono yn gryn beth, gan na wyddid ar glawr daiar pa bryd y ceid ef mor sych a hyny drachefn. "Aroswch i mi weled rhoi'r plant yn y gwely, a mi a ddeuaf allan gyda chwi," ebai'r wraig. Dodi y plant yn y gwely, a'u gadael hwy a'r tŷ dan ofal llances o forwyn. Cychwyn a wnaethant allan i'r cae, yr hwn nid oedd ond rhyw hyttir o ffordd oddi wrth y tŷ. Yr oedd y lleuad Fedi yn llawn, neu yn agos i'w llawn faint, ac yn goleuo yn danbaid, ond bod ambell gwmwl tywyll yn myned yn awr ac eilwaith dros ei hwyneb gwyl, a hithau drachefn pan ddeuai i'r golwg, a ymddangosai "fal yn brysiaw

ar ei hwyl." Yr oedd maes yr yd â ffordd fawr y plwyf yn myned gydag un ochr iddo, heb na chlawdd na gwrych rhyngddi a'r cae, ond yr oedd clawdd gweddol uchel yn rhedeg finfin â'r ffordd yr ochr arall iddi; neu, mewn geiriau ereill, nid oedd clawdd ond ar un ochr i'r ffordd, a'r ochr honno y bellaf oddi wrth y cae. Yr oedd y ffordd fawr felly yn myned drwy'r cae, ond ei bod yn cadw gydag un ochr iddo. Pan gyrhaeddasant y cae, cawsant yr yd wedi sychu yn bur wych; dechreuasant ar unwaith ar eu gwaith o rwymo; ac ymddiddanent yn siriol ddigon yng nghylch yr yd, yr hin, a phethau cyffelyb. Aent rhagddynt yn hwylus gyda'u gwaith. Eithr pan yr oeddent wedi bod ryw ysbaid hanner awr, neu ychydig yn chwaneg, yn diwyd gylymu yr ysgubau, dygwyddasant glywed, ar eu llaw chwith, tua phen uchaf y ffordd oedd yn arwain i'r cae, ryw swn a sisial megys o bell, megys fel pe buasai bagad o ddynion yn dyfod y ffordd honno. Safasant ennyd a'u tuswyau yd yn eu dwylaw; ac erbyn edrych tua'r lle y clywent y swn yn dyfod o hono, gwelent, wrth lewyrch y lloer, haid o bobl yn dyfod i'r golwg, ac yn symmud yn y blaen tuag atynt. Plygasant drachefn at eu gwaith heb

feddwl nemawr yn chwaneg am a welsent ac a glywsant. Tybiasant fod rhywrai yr oedd y nos wedi eu dal yn tynu rhagddynt tua'r pentref, yr hwn ydoedd tua milltir oddi yno. Ond cynnyddu a wnaeth y si, a chwanegu a wnaeth y godwrdd; ac wedi ymunioni a chraffu, gwelent fod yno dyrfa fawr; ac erbyn hyn yr oedd wedi dyfod yn agos ar eu cyfer ar y ffordd, ac o fewn ychydig bellder oddi wrthynt. Tra yr oeddynt fel hyn yn syllu ar yr orymdaith, ac yn ceisio meddwl beth a allai hi fod, gwelent yn eithaf amlwg arch ac elor yn cael eu dwyn ar ysgwyddau rhai o'r bobl, ac ereill yn cyfnewid â hwynt, yn ol fel y mae arfer angladd. "Dyma angladd," ebai'r naill wrth y llall, gan anghofio ar y mynydyn nad yw claddedigaethau i'w gweled yn y nos. Parhasant i syllu ar y dorf, yr hon oedd bellach yn gyflawn gyferbyn â hwynt; a chan nad oedd na chlawdd na gorclawdd rhwng y ffordd a'r cae, daeth amryw o bobl yr orymdaith allan o'r ffordd, a cherddasant y cae gydag ochr y ffordd, fel y gwelir lluaws o ddynion yn gwneuthur yn fynych pan na bo na chlawdd na chledrau, na dim o'r cyfryw, i'w cadw o fewn terfynau priodol. Mewn gair, cerddent ar hyd rhan o'r yd oedd yn gor-

wedd wedi ei dori ger llaw y ffordd. Clywai y ddau rwymydd y siarad a'r sibrwd, y trwst a'r berw, fel pe buasai yno gynnifer o bobl yn myned heibio mewn gwirionedd, ond ni ddeallent gymmaint a gair a leferid gan neb. Clywent drwst a hustyng y dyrfa yn myned heibio, ond ni ddeallent yr un sill, ac nid adwaenent un wyneb. Daliasant i edrych ar y nosawl orymdaith angladdol hon hyd oni chyrhaeddodd gwr arall y cae, a myned allan o'u golwg, ar hyd y ffordd a arweiniai tuag eglwys y plwyf.

Wedi myned o'r olygfa drosodd, clywai y gwr a'r wraig ryw gymmaint o chwithdod a diflasder yn dyfod drostynt; edrychasant ar eu gilydd; gadawsant y rhwymo, ac aethant tua'r tŷ, gan obeithio cael hin a hwyl i gynnull yr yd ar ryw adeg arall.

Daeth angladd i waered y ffordd honno o barthau uchaf y plwyf ym mhen rhyw dair wythnos.

Ni welsant ac ni chlywsant hwy chwaneg o'r ddrychiolaeth; ond yr un noson ychydig yn ddiweddarach, ac yn nes ym mlaen ar y ffordd, yr oedd dilledydd o'r gymmydogaeth yn dyfod adref oddi wrth ei waith o'r pentref y cyfeiriwyd ato. Cyfarfu â thyrfa fawr o bobl yn

llenwi y ffordd yn dyn o glawdd bwygilydd. Ni ddeallai ddim o'u siarad. Methodd mewn un modd wthio ei ffordd trwyddynt; a chymmaint oedd gwasg y dorf fel y bu gorfod iddo fyned dros y clawdd allan o'r ffordd, cyn gallu o honc fyned rhagddo tua'i gartref; canys yn y cyfryw fan yr oedd y ffordd yn lled gul, a chlawdd ar bob ystlys iddi.

Y mae ar hyd a lled y wlad ddigon o chwedlau am doelïod, a digon dros ben: ond y mae rhywbeth yn y chwedl hon yn wahanol i bob un arall a glywais i erioed yn eu cylch; a dyna y rheswm neillduol sy genyf am ei chyhoeddi yn *Ystên Sioned.* Gallaf egluro, o leiaf i'm boddlonrwydd fy hun, y rhan fwyaf o'r ffreglau a adroddir yng nghylch ysprydion, canwyllau cyrff, a bwcïod; ond y mae hon yn gwahaniaethu mewn amryw bethau pwysig oddi wrth bob un o'i cheraint a ddygwyddodd ddyfod dan fy sylw i; a byddaf ddiolchgar dros ben i esponwyr llên gwerin gwlad a gorwlad am eglurhâd ar y ddrychiolaeth.

Dyna ddau ddyn yn eu hamser goreu gyda'u gilydd yn ddyfal ddiwyd wrth eu gwaith mewn cae llafur o'r eiddynt ger llaw'r tŷ, a'r awr o'r nos heb fod yn anamserol; canys nid oedd y

noson mewn un modd yn noson fwcïaidd. Nid oeddynt ddynion ofergoelus, o'u cymharu â'u cyfoedion; yn hytrach dynion oeddynt ryw gymmaint o flaen eu hoes. Nid oeddynt ofnog, ac felly yn creu bwganod o bob llwyn a thwmpath; canys yr oeddynt, fel y gwelsom, ill dau gyda'u gilydd; ac ni feddylient ar y pryd am nac angladd na drychiolaeth angladd, am doeli, am fendith eu mamau, nac am un peth annaiarol arall, ond am rwymo yr yd ag oedd eisoes wedi goddef yn drwm oddi wrth wlybaniaeth y tywydd, a'i osod, os oedd modd, yn ei sopyn erbyn y bore. Gwelodd a chlywodd y *ddau* y cyfan oll yr un wedd â'u gilydd; a siaradent â'u gilydd am yr hyn oedd yn myned heibio ger bron eu llygaid; ni redasant i ffwrdd, yn ol braint ac arfer gweledyddion drychioliaethau; ac nid oeddynt yn breuddwydio am ddim cyffelyb pan glywsant y siffrwd, ac y gwelsant yr angladdwyr yn dynesu tuag atynt ar hyd y ffordd eglwys.

Gofynir i'r chwedlofyddion pa beth a welodd y ddau ddyn hyn, neu pa beth y tybiasant iddynt ei weled. Ai dyfeisio chwedl anwir a wnaethant er mwyn fy nhwyllo i ac ereill? Nid oedd yn un fantais iddynt dwyllo neb pwy

bynnag, heb law eu bod yn ddynion llawer rhy onest i wneuthur hyny. Yr wyf yn credu eu tystiolaeth, fel dynion geirwir, syml, dihoced, mor gadarn a phe buaswn wedi gweled yr olygfa fy hun. Adroddent y peth a welsent, neu a gredent eu bod wedi ei weled Yr oedd ffugio chwedl ddychymmygol o'r fath yn hollol allan o'u cyrhaedd. Nid llenorion na chrach-lenorion mo honynt, ond amaethyddion gwledig syml. Ni allent lunio chwedl o'r cyffelyb, ac ni wnaethent pe gallasent. Nid oedd dim i'w cymhell a'u hannog i ddyfalu anwiredd noeth, a cheisio gan ddynion ei gredu yn lle gwirionedd. Nid wyf yn gwybod iddynt adrodd y weledigaeth wrth neb ond wrthyf fi, a dau neu dri arall o'u cydnabod. Rhaid cael rhyw gynhyrfydd neu ysgogydd i bob gweithred. Adroddent i mi yr hanes fel gwirionedd syml, gwirionedd nas medrent ei egluro; ac ni cheisient nac amddiffyn cred na chadarnhau ofergoel. Pan glywais hwynt y tro diweddaf yn adrodd y dygwyddiad, yr oeddent ar war eu bedd; i'r hwn y disgynodd y ddau ym mhen ychydig wythnosau ar ol eu gilydd yn gynnar yn y flwyddyn 1852. Hunant eu tawel hun yn y fynwent y gwelsent y toeli yn ymdynu tuag ati.

Y mae chwedl marchog y nodwydd ddur yn sefyll ar ei phen ei hun, ac yn annibynol ar adroddiad yr amaethwr a'i wraig. Ni wyddai y naill ddim am y llall pan yr adroddasant eu hap a'u hanhap gyntaf. Gwelodd y gwr a'r wraig rywbeth, a bu'r gwnïedydd mewn cryn drybestod o herwydd rhywbeth a'i cyfarfu yntau ar y ffordd.

Dyna'r modd y clywais i hanes y toeli nodedig hwn o ben y rhai a'i gwelsent. Gadawaf i'r athronydd mewn pethau o'r fath egluro a deongli y weledigaeth: ond dymunaf adgofio iddo mai nid dattod cwlwm yw ei dorri.

Profiad Ceispwl.

ADDEFA pawb bron yn ddieithriad fod swydd ceispwl neu feili yn un lled waradwyddus; ac eto ar yr un pryd, yr ydys yn barnu ei bod yn hollol anghenrheidiol. Darfu i mi ymgymmeryd â hi yn unig ar yr ystyriaeth y byddai yn foddion i mi ennill bara i'm gwraig a'm plant; a gwirionedd profedig yw, os bydd dyn yn methu mewn un peth, fod yn bosibl iddo ragori mewn peth arall.

Cefais ddechreu ar fy swydd drwy fy ngalw i gynnorthwyo hen swyddog oedd wedi bod yn y gwaith am lawer o flynyddoedd, a thrwy i mi brofi fod genyf gryn lawer o athrylith yn cyflawni y swydd, dyrchafwyd fi bob yn ychydig i fod yn ben-ceispwl. Bûm yn llwyddiannus dros ben am lawer o flynyddoedd, ac mewn parch ac ymddiried gan fy meistriaid, P. ac A. Gwell yn ddiau gan y cyffredin fydd clywed am rai o'r troion trwstan a ddygwyddasant i mi, gan mai gwrthddrych i'w gasäu ac i'w erlid, y rhan amlaf, yw y swyddog a adwaenir wrth yr enw *Bwm-beili.*

Cefais fy ngalw ryw brydnawn ym mis Tachwedd yn y flwyddyn a'r flwyddyn, i'r swyddfa, pryd y rhoddid ar ddeall fod yn rhaid i mi fyned yn fore iawn drannoeth i Ffos y Cranc, i wasanaethu gwr y tyddyn hwnw â *gwrit* am arian oedd yn ddyledus arno i fasnachwr yn nhref A——. Gan fod genyf gryn bymtheg milltir o ffordd, cychwynais yn fuan ar ol hanner nos, a chyrhaeddais y lle o gylch saith o'r gloch y bore; aethym i mewn, pryd y canfum y teulu, sef y gwr a'r wraig, a dau neu dri o blant, yn cymmeryd eu boreufwyd yn y gegin fawr, o gwmpas y bwrdd crwn

o flaen y tân; a dau was, dwy forwyn, a thri o ddynion mewn oed, y rhai, fel y gallaswn feddwl, oeddynt weithwyr wrth y dydd, yn cymmeryd eu boreufwyd hwythau wrth y bwrdd mawr o flaen y ffenestr. Amneidiais ar y gwr i ddyfod allan am fynyd; fe ddaeth yn ddioedi. "Mae yn ddrwg iawn genyf," ebai fi, "fod yn rhaid i mi roi y papyr hwn i chwi am ddyled i ——." "Peidiwch ag yngan gair yn awr," ebai yntau, "rhoddwch ef yn ol yn eich llogell, nes yr ä pawb allan ar ol eu boreufwyd." Gwnaethym innau felly. "Dewch i mewn," ebai yntau, "rhaid eich bod yn flinedig, ac eisieu rhywbeth i'w fwyta erbyn hyn." I mewn yr aethym. "Dewch ym mlaen a neswch at y bwrdd; gwnewch eich hun yn gartrefol;" ac yna, ebai fe wrth y wraig, "fe gymmer y gwr dieithr yma ei foreufwyd gyda ni, ac y mae iddo bob croesaw, fel y mae yma." "Na chaiff yn wir," ebai y wraig serchog; "mi wnaf gwpanaid o de nais iddo mewn mynyd, ac ychydig o *foncagau* (crempogau); mae ein bara ni yn hen ac yn gryf iawn." Erfyniais innau arni beidio â myned i ddim trafferth er fy mwyn i; a dywedais y byddwn yn ddiolchgar am rywbeth oedd ar gerdded. "Dim trafferth o

gwbl," ebai'r wraig, "pleser i gyd." "Mari," gwaeddai ar y forwyn, "dos â'r badell ffrio yma, a dyro hi ar y tân." Gwnaed hyny; ac ar y tân y bu am ychydig nes oedd yn wynias. Erbyn hyn yr oedd pawb wedi gorphen eu boreufwyd; yna dygodd y wraig ystôl fechan dair troed, a dododd hi ar lawr yn fy ymyl, a chymmerodd y badell oddi ar y tân ac a'i rhoddes ar yr ystôl; a chyn i mi ystyried dim, ymaflwyd ynof gan y tri dyn oedd wrth y bwrdd mawr, a rhoddwyd fi i eistedd ar y badell ffrio; a chadwasant fi yno! Ysgrechais, bygythiais, rhegais, ac o'r diwedd ymbiliais am ymwared; ond ofer fu y cwbl; yr oeddynt yn rhy drech i mi. Nis gall y darllenydd ddychymmygu yr arteithiau yr oeddwn yn eu dioddef, a phawb oedd yn bresennol yn chwerthin fel ellyllon! Ym mhen ychydig—yr hyn a ymddangosai i mi yn oriau —"dyna," ebai gwr y tŷ, "gadewch iddo; fe allai na fydd mor barod i ddyfod yma i frecwest yn fuan ar ol hyn." Ceisiais ymlusgo rywfodd oddi yno wedi fy anafu; a da oedd i mi gyfarfod â rhyw Samariad ag oedd yn casglu carpiau gyda mul a throl ar hyd y wlad, i'm dwyn adref. Bûm am wythnosau yn

gorwedd cyn i mi wella; o blegid yr oedd *eistedd* allan o'r pwnc.

Nid wyf yn gallu dirnad pa ham y galwyd y lle yn Ffos y Cranc, oddi eithr iddo gael ei enwi yn brophwydoliaethol am fy null i yn ceisio symmud oddi yno y boreu bythgofiadwy hwnw.

Rhisiart Iorwerth Brydydd.

(Traddodiad a gaed mewn ysgrifen.)

RHISIART IORWERTH (mab Iorwerth Fynglwyd, fal y tybir), o Langynwyd, y Prydydd, yn myned i fan, ac yntau yn fachgen, lle ydd oedd Cwrdd Prydyddion; gofynwyd iddo pwy oedd ef. "Prydydd," ebe fe. "Prydydd," ebe'r gofynwr; "a fedri di brydyddu?" "Mi fedraf ei gynnyg weithiau," ebe Rhisiart. "A fedri di ddodi ar englyn y pethau a ofynaf ac a ddangosaf iti?" "Mi a amcanaf eu dodi y naill ai ar englyn neu englynion," ebe Rhisiart; "dechreuwch ofyn a dangos." Yna dechreuwyd:—

"Beth yw hwn?"—"*Padell.*"
"Beth yw yr un oco?"—"*Cawell.*"

"Beth a weli yn gorwedd oco?"—"*Ci.*"
"Beth arall?"—"*Costog* (Ceneu)."
"Beth yw yr un yna?"—"*Cawnen.*"
"Beth a weli ar y graig oco?"—"*Tarth.*"
"Beth yw'r pren glas oco?"—"*Ywen.*"
"Beth yw'r pren nesaf eti?"—"*Gewïen.*"
"Beth sy'n llaw'r wraig yna?"—"*Torth gri.*"
"Dod y cwbl archa englyn." "Gwnaf."

"Padell, a Chawell, a Chi,—a Chawnen,
A Cheneu costawcci,
A phren Yw, a phren Ewi,
A Tharth y graig, a Thorth gri."

Y Ffynnon Fyw.

YM mhlwyf Llangïan, yn Lleyn, Swydd Gaernarfon, yn agos i bentref bychan distadl, noethlwm, dadfeiliog Welington, neu, ar lafar yr ardal, "*Y Wilings,*" yr oedd gynt Ffynnon ragorol yn bwrw allan helaethrwydd o ddwfr gloew odiaeth, ag ynddo, meddai yr hen bobl, lawer iawn o rinweddau i wellâu gwahanol glefydau a doluriau. Gelwid hi y Ffynnon Fyw, ac yr oedd y dwfr bywiog a darddai i fyny ynddi, ac a redai yn ffrwd gref

allan o honi, yn rhoddi iddi gryn hawl i'r cyfryw enw. Hi oedd y ffynnon glodforusaf yn yr holl ardaloedd hyny ond Ffynnon Leudad, ym mhlwyf Bryncroes, nid neppell o Aberdaron, os nad oedd hi yn rhychor i honno; a chyrchid ati gan lawer o gleifion o bell ac o agos, yn enwedig y sawl a flinid gan y cryd cymmalau, yr hwn anhwylder sy bur gyffredin yn Lleyn; ond y mae ei gogoniant drosodd, a'i defnyddioldeb wedi darfod. Amryw flynyddoedd yn ol, darfu i ryw ddynionach bawaidd fod mor anystyriol ac anwar a thaflu iddi gelain ci. Peidiodd ei dyfroedd ar unwaith, a sych ydyw, haf a gauaf, o'r pryd hwnw hyd y pryd hwn. Y tro diweddaf yr ymwelais â hi, ryw ugain mlynedd yn ol, nid oedd ynddi ddim dwfr; ond yr oedd peth o'r maenwaith a'i hamgylchasai gynt fyth yn aros; ac ond odid nad oes rhyw faint o hono yn aros hyd heddyw. Bernir mai ffynnon gyssegredig i Cir Ferthyr ydoedd y Ffynnon Fyw; canys y mae traddodiad yn y gymmydogaeth fod eglwys gyflwynedig i'r sant hwnw yn sefyll ger llaw y fan yn yr oesoedd gynt; a chaed rhywbeth tebyg i weddillion hen fynwent yn agos yno o fewn cof rhai sydd yn awr yn fyw.

Aeronwydd Margam.

PAN ymwelodd Tywysog Cymru ag Abertawy yn Hydref, 1881, efe a blannodd bren ffrwyth ym Margam, pan yr ydoedd ar ei daith tuag yno. Nid y waith hon yw y waith gyntaf fod a fyno breninoldeb ag aeronwydd Margam. Y mae ar gof a gafael hanesyn i'r perwyl canlynol.

Aeronwydd Margam a gyrchwyd o'r Eidal, gan Syr Harri Wotton, dros y Brenin Siarlas y Cyntaf. Ond pan oedd y llong a'u dygai ar ei mordaith, cyfododd tymmestl-wynt aethus, yr hwn a'i gyrrodd hi i Fôr Hafren, lle y tarawodd ar y traeth yn agos i Fargam. Erbyn hyn yr oedd y Brenin a'r Senedd ben yng nghad â'u gilydd, ac yn y benbleth a'r terfysg anghofiwyd yr aeronwydd y gyrasid mor bell i'w cyrchu: planwyd hwynt, gan hyny, rhag eu myned yn ofer, yng ngerddi harddwych Margam. Pan adferwyd teyrnogaeth, a dyfod Siarlas yr Ail i'r orsedd, nid oedd hwnw, mwy na'i frawd Iago, yr hwn a'i holiannodd, yn gofalu dim am y fath bethau; ac nis gellid disgwyl fod gan Wilym yr Isallman ddim archwaeth at arddoriaeth na phlenyddiaeth; ond

pan ddaeth y Frenines Ann i arwedd coron y deyrnas, hi a gyflwynodd yr aeronwydd hyn i'r Arglwydd Mansel, o Fargam; ac, medd un a ysgrifai er ys llai na chan mlynedd yn ol, y maent yno yn awr mewn llysieudy hardd dros ben o gerryg nadd addurnedig, a'r mwyaf yn y deyrnas; a'r ffrwythau yn addfedu yn dda iawn arnynt. Hyd y gŵyr yr ysgrifenydd presennol, y maent yn yr un cyflwr llewyrchus hyd y dydd heddyw.

Yspryd Corelwest.

AMRYW flynyddoedd yn ol daethai un o Weinidogion enwog o Sir Gaernarfon, a chydag ef flaenor parchus ac adnabyddus iawn i lawer drwy Gymru yr amser hwnw, i Gymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd, a gynnelid yn Aberystwyth; a rhoddent i fyny gyda'r diweddar Robert Davies, Masnachydd, yn yr Heol Fawr, tŷ yr hwn oedd yn llawn o ddieithriaid, fel llawer o dai ereill yn y dref, yn amser y Gymmanfa; a chan fod mwy o helaethrwydd yng nghalon y gwr da hwnw nag oedd yn ei dŷ, talai am welyau i amryw mewn tai oedd yn derbyn dieithriaid.

Y tro hwn cymmerodd wely i'r ddau wr y sonir am danynt uchod gyda Mrs. Lewis, yn y *Coburg House*, ar y *Terrace;* mae y tŷ hwnw yn bresennol yn rhan o'r *Belle Vue Hotel.* Ar ol swpera yn nhŷ Mr. Davies, hebryngwyd hwynt i lawr i'w lletty; aethant i'r gwely; ond cyn hir clywent lawer o symmudiadau yn yr ystafell nesaf, a dawnsio, yng nghyd ag offerynau cerdd yn lleisio, fel nad oedd yn ddichonadwy iddynt gysgu; ac yn ddisymmwth clywent ryw beth trwm yn cwympo ar y llawr; a dyna y dawnsio a'r beroriaeth ar ben; a rhai yn rhedeg i fyny ac i lawr y grisiau, a phob peth yn profi fod rhyw beth pwysig wedi cymmeryd lle; a chyn hir wele ddrws eu hystafell hwythau yn agor, fel pe buasai llawer o ddynion yn dyfod i mewn yn dwyn rhywbeth a'i ddodi ar y bwrdd. Ac yn y man aeth y cwbl yn hollol ddistaw. Yr oedd y ddau wr dieithr wedi dychrynu yn anarferol, ac ni chysgasant drwy y nos. Drannoeth adroddasant yr holl helynt wrth Mr. Davies; nis gallent ddyfalu beth oedd yn bod.

Yr wythnos ganlynol, ar ol iddynt ddychwelyd adref, derbyniasant lythyr oddi wrth Mr. Davies yn eu hyspysu am y peth a ddygwydd-

asai "neithwyr" yn y *Coburg House;* sef bod teulu o Saeson wedi cymmeryd yr ystafelloedd hyny gan Mrs. Lewis, a'u bod wedi cadw dawnsfa neu gorelwest yno y nos o'r blaen, ac ar ganol y dawnsio, syrthiodd boneddiges ieuanc i lawr yn farw ar ganol yr ystafell. Defnyddiwyd pob moddion er ei hadferyd, ond yr oedd y "wreichionen fywiol" wedi dianc; a rhoddwyd hi "heibio" ar fwrdd yn yr ystafell lle y gorphwysai y ddau wr o Sir Gaernarfon yr wythnos o'r blaen!

Tro ar Fyd.

WRTH fyned ar hyd y ffordd fawr o Aberystwyth i Ystrad Meurig, ac yng nghylch dwy filltir a chwarter o'r lle blaenaf, deuir i waelod y dyffryn bychan prydferth a elwir Dyffryn Paith; ac wrth y bont sydd yn croesi yr afonig fechan honno mae y Pandy. Nid oes yno yn bresennol un pandy; ond bu felly am lawer iawn o flynyddoedd, a dygid y gorchwylion hyny ym mlaen gan wr o'r enw Dafydd Morris, gwr da, ac yn feddiannol ar amryw ddoniau, ond yn benaf, cerddoriaeth oedd ei brif ddifyrwch. Bu fyw yn hen lanc dibriod nes y gorfu arno, ar ol marwolaeth ei

fam, geisio rhyw un i'w amgeleddu; a phan aeth yr hen lanc i hwylio am wraig, aeth, bid sicr, fel llawer o'i gyffelyb, i chwilio am un i blith y merched *ieuanc*, a chafodd un dda iawn, yr hon a fu yn amgeledd cymhwys iddo tra y bu ef byw.

Tuag ugain mlynedd yn ol, ar fore oer llwydrewog yn yr Hydref, dyma eneth ieuanc a golwg dlodaidd iawn arni, ond eto yn brydweddol dros ben, a phlentyn bychan pythefnos neu dair wythnos oed yn ei chofl, yn galw yn y tŷ gyda Mrs. Morris, ac yn gofyn a welai hi fod yn dda roddi rhyw damaid iddi i'w fwyta. Synodd Mrs. Morris wrth y dirfawr dlodi mewn cyssylltiad a chymmaint o brydferthwch a lledneisrwydd; a thrwy fod y plentyn, yn gystal a'r fam, heb feddu ond ychydig am dano, cafodd yr eneth amryw gymmwynasau ganddi mewn dillad yn gystal a bwyd. Ar ol cael ei diwallu, aeth y fam a'i phlentyn i ffwrdd gyda chalon ddiolchgar i wynebu eto ar y byd mawr llydan. Ni chafodd Mrs. Morris, er maint ei chwilfrydedd, wybod nemawr na dim o'i hanes; ac aeth yr helynt yma heibio fel llawer helynt arall.

Ym mhen rhai blynyddoedd ar ol hyn, dyma gerbyd, yn cael ei dynu gan ddau geffyl, a

gwas yn ei yrru, a gwas arall tu ol, yn aros wrth ddrws y Pandy. Yr oeddynt yno yn ddigon cyfarwydd â gweled cerbydau yn *pasio*, ond dyma'r cerbyd cyntaf a welwyd yn *sefyll* wrth y tŷ hwn, a boneddiges landeg iawn, wedi ei gwisgo a'i haddurno â'r pethau gwerthfawrocaf oedd yn bosibl i gyfoeth ei wneyd, yn disgyn o'r cerbyd, ac yn dyfod i mewn i'r hen fwthyn, ac yn gofyn yn serchog i Mrs. Morris, "A odych ch'i yn 'nabod i?" Synai y wraig ei chlywed yn siarad Cymraeg, ac atebodd, "Nac wyf, yn siwr, m'am." "A odych ch'i ddim yn cofio hogen ifanc, a phlentyn ganddi, yn gofyn cardod gyda ch'i ar fore oer er ys hyn a hyn o flynyddau yn ol?" "Ydwyf yn cofio yn eithaf da, m'am." "Wel, y *fi* oedd honno; bûm yn eich bendithio fil o weithiau, herwydd ch'i naethoch drugaredd â fi y pryd hyny, gan fy mod i bron a ll'wgu eisieu bwyd, ond ni fu arna' i fyth eisieu ar ol hyny." Nid oedd derfyn ar ei diolchgarwch; ni ddywedodd ddim o'i helynt, ol na blaen; ac wrth ymadael, rhoddodd bapyr *deg punt* yn llaw Mrs. Morris; gwrthodai hithau ei gymmeryd; ond nid oedd wiw iddi ddywedyd gair; ac yna y foneddiges a ymadawodd, ac ni welwyd mo honi mwyach. Achos-

odd yr amgylchiad lawer o benbleth i bobl y dyffryn; carent wybod o ba le daethai yr eneth, a'i hanes cyn ac ar ol yr helynt cyntaf; a phawb yn ceisio dychymmygu yn ol ei ffordd ei hun. Nid oes genym ond gadael y darllenydd i wneyd yr un peth.

Hir yw aros Arawn.

YN rhywle yng ngodre'r wlad,* yn yr amser gynt, yr oedd amaethdy cyfrifol, a phobl gyfrifol ddigon yn byw ynddo; ond yr oedd un o ystafelloedd y tŷ, yr hon a arferasai fod yn ystafell wely, yn ddiwerth, ac yn waeth na diwerth, i'r preswylwyr, o herwydd bod aflonyddwch ynddi, a rhyw swn rhyfedd ar brydiau yn dyfod o honi. Os cynnygiai neb fyned iddi i gysgu, ni fuasai waeth iddo geisio gwneuthur hyny ar ben llwyn drain, gan na chai ddim tawelwch na gorphwysdra; ac o blegid hyny, bu gorfod gadael yr ystafell heb wneuthur un

* Wrth "odre'r wlad" y golygir, yng nghanolbarth Ceredigion, ranau isaf y Sir honno, yng nghyd â'r parthau cyfagos o Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, yn enwedig yr olaf. Nid hawdd nodi y terfynau, gan nad arferir yr enw gyd ag un math o fanyldeb; ond ymddengys nad yw yn cynnwys "gwaelod Sir Benfro," y parth, yn ol llên y werin, y mae y dynion hyny sydd â'u meddyliau ar grwydr mor hoff o hono. ac mor gymhwys i'w breswylio.

defnydd o honi. Clywid ynddi bob math o dwrw a dwndwr annymunol; a gallesid meddwl lawer tro na buasai cymmaint a dodrefnyn o'i mewn heb gael ei wneuthur yn gandryll. Yn nhrymder y nos clywid yn fynych yn y gell honno, ac weithiau o amgylch y tŷ, ryw lais irad yn dolefain yn hirllaes:—"Hir yw'r dydd, a hir yw'r nos, a hir yw aros Arawn." Yr un oedd y geiriau bob amser, a'r un oedd tôn y llais anhyfryd a'u llefarai. Yn y wedd hon elai pethau ym mlaen am lawer o amser, nes yr oedd y teulu, i ryw raddau, wedi cynnefino â'r aflonyddwch a'r oernad; ond prin yr oedd neb o honynt byth yn beiddio agoryd drws yr ystafell honno.

Un noswaith dduoer yn y gauaf, a phobl y tŷ yn eistedd o amgylch tân y gegin cyn swper, dyna rywun yn galw yn y drws. Ateb y drws ac erchi i'r neb oedd yno ddyfod i mewn at y tân ac ymdwymo. Gyda'i fod wedi eistedd a chyfarch y teulu, gofynodd y gwr dieithr am damaid i'w fwyta, ac am letty o dan y gronglwyd dros nos. Dywedwyd wrtho fod iddo groesaw calon i fwyd, a diod, a chynhesrwydd; ond am y gwely, yr oedd yn ddrwg iawn ganddynt nas gallent gynnyg un iddo; gan fod yr

holl welyau yn ddigon bach i wahanol aelodau'r teulu; ac am yr unig ystafell segur oedd yn y tŷ, nis gallent feddwl am gynnyg honno iddo ef, am fod ynddi ryw gythrwfl a dwmbwr parhäus, ac na chai neb lonyddwch na thawelwch i gysgu ynddi gan rywbeth nas gwyddent hwy yn iawn pa beth. "Nid gwaeth am hyny," ebai'r teithiwr blin; "nid oes yno ddim a wna niwed i *mi;* mi a'i cymmeraf yn ddiolchgar, ac na fyddwch anesmwyth o'm plegid." Edrychai y gwr dieithr yn flin iawn; ni siaradai braidd ddim ond a ofynid iddo; ac ni welid cymmaint a gwên ar ei wynebpryd. Cytunwyd ar unwaith â'i gais, er bod yn ddrwg ganddynt feddwl y buasai raid iddo fwrw'r nos yn yr ystafell anniddan honno; a thra yr ydoedd yn cymmeryd lluniaeth, gofynodd gwr a gwraig y tŷ iddo beth oedd ei enw, ac os ydoedd wedi dyfod o bell. "Fy enw," ebai yntau, "yw Arawn; yr wyf wedi dyfod o bell ffordd, ac wedi cerdded yn galed." Pan glywyd ei *enw,* edrychodd y teulu yn syn ddifrifol ar eu gilydd, a buwyd am beth amser heb yngan un gair.

Wedi bwyta hyd ddigon, ac ymdwymo hyd gynhesrwydd, gofynodd y dyn dieithr am gael myned i orphwys, gan ei fod yn ddiffygiol gan

y daith a'r tywydd. Dangoswyd iddo yr ystafell fwcïaidd; dymunwyd iddo noswaith dda, a chwsg tawel; er mai prin yr oedd neb o honynt yn disgwyl y cai gysgu amrentyn.

I'w wely yn yr ystafell brudd yr aeth; ac yn yr amser arferol aeth y tylwyth oll i'w gorphwysfaoedd hwythau. Y noson honno ni chlywyd dim trybestod yn yr ystafell gythryblus, nac mewn un man arall. Pan ddaeth y bore, cododd y teulu fel arferol; edrychwyd yn gyntaf dim am y gwr dieithr; ond nid oedd efe yno; ni welwyd mo hono mwy, ac ni chlywyd dim am dano; eithr deallwyd yn rhyw fodd ei fod wedi gadael y lle, a chychwyn i'w daith gyda rhaciad y wawr; ac o'r pryd hwnw allan darfu yr aflonyddwch a'r dwndwr a'r terfysg; ac ni chlybuwyd byth, nac yn y tŷ nac o'i amgylch, neb yn oeraidd gwynfan am feithder dydd, na meithder nos, na meithder aros Arawn

---

Can Serch.

MWYN-DDYN deg, clyw fab a'th gais
Yn d'alw i glais y glasdon,
Lle mae pebyll dan do dail
Ym mhlith y gwiail meinion;

Llannerch deg rhwng tefyll coed,
  Lle caed erioed gerddorion,
Ceiliog mwyalch euraidd big
  Ym mylchau brig irleision.
Prydydd wyf yn moli'th ffriw,
  A'th liw fal ewyn gwendon;
Cur a'm dothyw, gwae fi, ferch,
  O arwain serch i'm dwyfron.

Gweais iti, dan frig brwys,
  Dy gerdd yn fwys bennillion;
Bach y tâl a roddaist, fun,
  Er maint fu'm anhun digllon;
Fi ni'm ceri, ni chaf air
  O'th ben a bair gysuron;
Mae'm holl anadl arna'i'n bwys,
  I gyd yn ddwys och'neidion.
Gorfod goddef hyn i'm llwyn,
  Ac er dy fwyn ddolurion;
Meudwy erod dan gudd byllt,—
  Pa fodd na hyllt fy nghalon!

Llawen oedd im' weled Mai,
  A chylchoedd tai mor leision;
Credu'th gawn i ddal oed dydd
  Dan fentyll gwŷdd y goedfron;

Gobaith oedd cael yno'n glau
  Newid cusanau mwynion,
Dadwrdd cariad heb un iaith,
  Ond cyfnyw gwaith golygon;
Adrodd iti'm serch a'm cwyn,
  A chael dy swyn yn dirion:
Gwae fi'r gobaith, mawr fy ngwall,
  O rhoddi ball yr awron.

Adar mân a'th gerydd di;
  Maent oll i mi'n llateion,
Yn dwyn atad fy nghân serch
  I'th annerch di, nith hinon;
Ac os ti ni wrendi'm cwyn,
  Gan ddodi mwyn atebion,
Rhaid darparu bedd ar ffysg,
  A'm rhoddi'm mysg y meirwon.
Oll a'th gerydd ar eu cân
  O'r adar mân o gylchon,
Am ladd mab, y wlad a'i gŵyr,
  A'th garai'n llwyr o'i galon.

Cylch 1660.

Pennill mewn Breuddwyd.

OWAIN GRUFFYDD, o Lanystumdwy, yn Eifionydd, yn ei gwsg, a welai, ym mynwent Dolbenmaen, ddyn yn egori bedd, yr hwn

a ddywedai wrtho mai iddo ef ei torid; yntau a ganodd, eto yn ei gwsg, fal hyn:

Dyma'r fan lle'r af fy hun;
  Ffarwel bob dyn a'm caro:
Pan roddir fi'n fy lletty llesg,
  Rhoir pridd a morhesg arno.

Bu farw Owain Gruffydd yn y flwyddyn 1730, yn bedwar ugain a saith mlwydd oed.

Y Ferch o'r Beili Einon.

TUA chant a hanner o flynyddoedd yn ol, yr oedd yn trigiannu yn Aberystwyth wr o'r enw John Williams, neu, fel y gelwid ef yn gyffredin, Sion William; ei alwad oedd morwriaeth; ac yr oedd yn llywydd ar long fechan o'i eiddo ei hun, a elwid y *Twenty Tons*. Dywedir mai dyna oedd hi yn abl i'w gario, ond hwyrach mai dyna oedd ei mesuriad; os felly, yr oedd yn ol yr hen fesur, yn gyfaddas i gario deg neu bymtheg tunnell ar hugain. Pa un bynnag, yr oedd yn un o'r llongau mwyaf oedd yn perthyn i'r porthladd hwnw y pryd hyny. Y dwylaw oeddynt gynnwysedig o ddau neu

dri, sef ei wraig a'i fab, a hwyrach hogyn gyda hyny.

Nid oedd ganddynt ond un plentyn, sef y mab hwn, yn fachgen glandeg, heini, a siriol dros ben; a phan aeth y llanc yn wr ieuanc, yn rhywle rhwng ugain a phump ar hugain oed, penderfynodd gael llong iddo ei hun; a'r amser hwnw, fel am ugeiniau o flynyddoedd gwedi hyny, cyrchid agos yr holl goed i adeiladu llongau yn Aberystwyth o Sir Faesyfed. Aeth y gwr ieuanc yma, enw yr hwn, fel ei dad, oedd John Williams, i Sir Faesyfed i brynu coed at ei long newydd; ac yng nghymmydogaeth y Rhaiadr canfu wrthddrych na welodd erioed o'r blaen mo'i chyffelyb—geneth ieuanc brydweddol, hawddgar, a serchog, sef merch y Beili Einon—fferm helaeth, a'r tŷ yn hanner plas, ger llaw y ffordd fawr sydd yn arwain o'r Rhaiadr Gwy i Ben y Bont. Ei rhieni oeddynt bobl gyfrifol a chyfoethog. Ymserchodd John Williams yn y ferch, a'r ferch ynddo yntau. Pan y deallwyd hyn, caed allan nad oedd y gwynt yn deg, a bod morio yn y ffordd yna weithian yn beryglus; tymmestloedd geirwon a godent, nid o gyfeiriad y môr, ond o'r tir; a bu'r ddau mewn enbydrwydd am eu heinioes (briodasol). Dywedir nad

oedd *Chubb* a'i "gloiaü breintebol" i'w cael yn y dyddiau hyny; a phe buasent, y mae cariad yn chwerthin am ben pob dyfeisiau o'r fath, er pawb a phob peth. Er anfoddlonrwydd y fam, a digllonedd y tad, priodi a fynnent, a phriodi a wnaethant; gan na chaffai John Williams ei gariad drwy deg, aeth â hi heb wybod iddynt; ac y mae y gair ar led fod peth o'r elfen yma wedi treiglo i lawr drwy y teulu hyd yn ddiweddar iawn.

Daethant i fyw i Aberystwyth; gorphenwyd y llong newydd; ganwyd iddo fab, a bedyddiwyd ef yn William; a phan oedd y bychan yn dair neu bedair blwydd oed, cymmerodd y Cadben Williams ei wraig a'i fab gydag ef yn y llong, a buant felly am ryw gymmaint o amser yn morio.

Ar fore teg tawel yn yr haf, yn rhyw le yn *Cardigan Bay*, cyfarfuant â'r *Twenty Tons*, sef llong eu tad, yn myned adref i Aberystwyth; deisyfodd y tad cu a'r fam gu am gael William bach, sef eu hŵyr, i fyned adref gyda hwy. O'r diwedd gildiodd y tad a'r fam iddynt ei gael; a chyrhaeddodd Sion William a'i wraig a'r ŵyr yr hafn dymunol yn y prydnawn; ond y noson honno cododd yn ystorm o wynt dychrynllyd,

a'r môr yn ymgodi fel mynyddau mawrion; a galarus adrodd, aeth llong John Williams i'r gwaelod; collodd ef a'i wraig, a phawb oedd ynddi, eu bywydau, heb neb i fynegu pa fodd y bu. Ym mhen rhai dyddiau ar ol hyn, daeth cyrff y ddau i'r lan yn agos i Fochras, yn Ardudwy, y naill yn cofleidio y llall, ac nid hawdd oedd eu tynnu oddi wrth eu gilydd, o herwydd eu bod wedi sythu yn yr agwedd honno, a thrueni fuasai eu hysgaru. Claddwyd hwynt felly yn yr un bedd, ac yn yr un arch, yn mynwent Llandanwg. "Cariadus ac anwyl oeddynt yn eu bywyd, ac yn eu marwolaeth ni wahanwyd hwynt."

Adnabyddid eu mab ar ol hyny wrth yr enw William Sion William, gan mai ei dad cu a'i magodd; a bu fyw oes faith, ac am lawer o flynyddoedd yn gadben llong; ac ar ol rhoddi y môr i fyny bu yn *Harbour Master* yn Aberystwyth.

Bu *Sion William* a'i wraig fyw i gyrhaedd oedran mawr, uwch law nawdeg o flynyddoedd, a buant feirw o gwmpas wythdeg a dwy o flynyddau yn ol. Y mae eu hiliogaeth y dydd hwn yn lluosog, ac yn gwneyd i fyny ran helaeth o drigolion Aberystwyth; heb law ereill "sydd ar

led y byd." Y maent ar y cyfan yn bobl gywir, onest, a chrefyddol; o natur braidd yn finiog, a'u teimlad i raddau yn *clannish;* edrychant yn ammhëus ar estroniaid a fyddant yn dyfod i gyssylltiad â hwynt; ond wedi iddynt ddyfod, cyfrifir hwynt bron fel rhai o'r teulu. Mae genym barch iddynt oll, a mwy na hyny i *un* ag y sydd yn orwyres i'r hawddgaraf ferch o'r Beili Einon.

Nansi'r Fagaboniad.

DYNA enw oedd yn ddigon adnabyddus yng nghanolbarth Sir Aberteifi y rhan flaenaf o'r ganrif bresennol. Hen ferch hanner-call, gyfrwysddrwg, a thafodrydd tu hwnt i ddysgrifiad oedd Nansi; ac yn derbyn ei chynnaliaeth gan y plwyf. Gwyddai hanes pawb a phob peth drwy y cymmydogaethau; ac os byddai rhyw anhap wedi dygwydd i neb, yr oedd y cyfan ganddi hi, a byddai yn ei adrodd gyd a "nodiadau a chwanegiadau" ym mhob man yr elai. Nid oedd neb yn dewis ei gweled yn dyfod yn agos i'w tai; ond o herwydd prinder arian yr amseroedd hyny, byddai ffermwyr y plwyf yn ei chadw yn eu tai am fis ar gylch,

drwy gael tâl da gan arolygwr y tlodion am hyny. Ond yr oedd pawb yn hiraethu am weled y mis yn tynu at ei derfyn i gael gwared o honi.

Adwaenid un o'r plwyfolion dan yr enw Nat Pen Cefn, dyn yn cadw fferm o faintioli cyffredin; a chyda hyny arferai gludo coed o Sir Faesyfed i adeiladu llongau yn y Graig Las ac Aberaeron. Un tro dygwyddodd yn anffodus, pan oedd ef â Thwm Ysgubor Hen, yng nghyd ag un arall o'r gymmydogaeth, yn llwytho coed mewn dyffryn cul ag y sydd yn troi allan o'r ffordd fawr sydd yn arwain o Raiadr Gwy i Lanfair Muallt. Hen greadur tirion, cymmwynasgar, a charedig oedd Nat yn gyffredin; ond pan y byddai rhyw beth yn ei gyffroi, gwylltiai mewn eiliad, a chollai bob llywodraeth arno ei hun, a tharawai y nesaf ato â'r peth a ddygwyddai fod yn ei law; ac felly bu y tro hwn; aeth rhyw gamddealltwriaeth rhyngddo a'i gyfaill Twm o'r Ysgubor Hen, a dygwyddodd fod y fwyell yn ei law ar y pryd; a tharawodd Twm yn ei ben, a lladdodd ef yn y fan. Nid amcanai Nat wneyd y cyfryw beth, a theimlai yn dost o herwydd yr anffawd dorcalonus; ond nid oedd dim i'w wneyd ond

gwneuthur y goreu o'r gwaethaf. Ar y cychwil neu'r trengholiad, cafwyd allan fod Twm wedi cael ei ddiwedd drwy i bren mawr syrthio arno wrth lwytho y bedrolfen! Aeth hyny drosodd; ond ni allai y trydydd person, mae yn debyg, fod yn berffaith ddistaw. Sibrydid o bryd i bryd yn y gymmydogaeth nad oedd y dygwyddiad yn hollol fel y tystiwyd ar y cychwil; ond ni feiddiai neb ddywedyd dim yn eglur.

Ym mhen blynyddoedd lawer ar ol y dygwyddiad uchod, aeth Nat Pen Cefn yn sal, ac yr oedd pob arwyddion ei fod yn nesäu i farw; a theimlai Nat ei hunan fod y babell bridd yn ymollwng; a deisyfai gael ychydig nifer o gymmydogion yng nghyd i gadw cyfarfod gweddi gydag ef. Daethai cryn nifer ar ei ddeisyfiad, a chynnaliwyd y cwrdd. Wrth y tân eisteddai yr hen Nansi y soniasom am dani; gan mai Nat Pen Cefn oedd yn "cadw ei mis" hi ar y pryd. Cadwai Nansi y lle goreu, a'r nesaf at y tân, pa le bynnag y byddai yn cartrefu, er pawb ar bob amgylchiad. Ar ol diwedd y cwrdd aeth y cyfeillion at y gwely, i'r "pen isaf," i ysgwyd llaw, a chanu yn iach i'r claf. "Wel, gyfeillion bach," ebai Nat, "nos da'wch i gyd, a ffarwel hefyd; mae yn

debyg mai yn y nefoedd y cwrddwn nesaf."

"Beth," ysgrechai yr hen Nansi o ymyl y tân, "yn y nefoedd 'wedaist ti, aie? Mae gen' ti lawer o waith *settlo* â Thwm Ysgubor Hen cyn byth y cyrhaeddi di yno!" Aeth yn ddistawrwydd mawr, ac aeth pawb i'w ffordd heb ddywedyd gair. Yr oedd Nat wedi marw cyn y bore.

Dylasid hyspysu y darllenydd yn gynt y byddai y cymmydogion yn gweled yspryd Twm Ysgubor Hen yn rhodio yn hamddenol o gwmpas Pen Cefn, ac yn ysgwyd bwyell danllyd gyferbyn â'r tŷ, ac yn ymadael fel olwyn o dân dros y mynyddoedd tua Rhaiadr Gwy!

Y Ddwy Goes Bren.

YMAE yn hen draddodiad yng Ngogledd Cymru er ys oesau, y caiff pwy bynnag a elo wrtho ei hun at ddrws yr eglwys blwyfol am ddeuddeg o'r gloch y noson olaf o'r flwyddyn, ac aros yno i glustfeinio am ychydig fynydau, glywed yr holl helyntion pwysig a ddygwyddant yn ystod y flwyddyn ddilynol yn y plwyf.

Mewn treflan yn Sir Ddinbych, er ys amryw flynyddoedd yn ol, mewn tafarndy ger llaw y fynwent, yr oedd amryw gymmydogion wedi crynoi at eu gilydd i gyd-yfed y flwyddyn allan, ac i siarad am helyntion y gymmydogaeth; ac wedi iddynt ymloni nes ei myned yn lled hwyr, coffaodd un o'r gyfeillach yr hen draddodiad, a chymmerwyd y peth i fyny gydag ynni a gwresogrwydd. Annogwyd un, ac ail, a thrydydd i ymgymmeryd â'r anturiaeth, ond gwrthodai y naill ar ol y llall; ond yr oedd yno un yn fwy gwrol, neu, fe allai, yn ffolach, na'r lleill, a dywedai yr ymgymmerai ef â'r gorchwyl gyda hyfrydwch; mawr oedd y llawenydd yn eu plith, a churent ei gefn yn annogaethol iawn, a rhoddwyd iddo amryw o hanner peintiau yn chwanegol i'w gryfhau a'i wroli yn yr anturiaeth bwysig. Ac fel yr oedd yr amser yn nesäu, cychwynodd yng nghanol bloeddiadau y cyfeillion cynnulledig drwy borth y fynwent, ac ym mlaen rhwng y beddau at ddrws yr eglwys, yn y tywyllwch a'r distawrwydd mwyaf. Yna, rhoddes ei glust wrth y drws, gan feddwl y buasai y bod uwchnaturiol yn sibrwd yr holl ddirgelion yn ddistaw bach wrtho drwy y rhigolau oedd yn yr hen ddôr; clustfeinio yr oedd

nes tarawodd cloc yr eglwys ddeuddeg o'r gloch; ond nid oedd dim argoel am ddim; yna, penderfynodd fod awrlais y byd hwn yn rhyw gymmaint ar y blaen ar amser y byd arall, a chafodd amynedd i ddisgwyl wrth amser hwnw; ac yn y man, clywai ryw beth yn araf gerdded i lawr oddi wrth y ganghell, gyda rhyw si fel pe buasai gwisgoedd sidanaidd am dano, ac yn cryfhau fel yr ydoedd yn dynesu at y drws; gwrandawai yntau yn astud; ac yn lle sisial ei newyddion yn ei glust yn arafaidd, wele hen ddrws yr eglwys yn agor yn ei hanner, a'r ddau ddarn yn cael eu tynnu yn ol fel cortynau gwely, gydag ysgrêch a thwrf ofnadwy. Methodd a dal yr olygfa ddychrynllyd, ac ymaith ag ef nerth ei draed yn ei unionsyth dros y beddfeini; a chan fod y ffordd oedd yn myned gyda gwal y fynwent gymmaint a deuddeg neu bymtheg troedfedd is law gwyneb y fynwent, aeth (druan o hono!) i lawr bendramwnwgl; daeth ato ei hun mewn amser, a chafodd allan ei fod wedi tori ei ddwy goes yn ysgyrion, a bu raid i'r meddygon dori y ddwy i ffwrdd uwch law y benlîn; gwelwyd ef am flynyddau lawer ar ol hyn yn symmud yma a thraw drwy gymhorth *dwy goes bren.*

Y Cydwely Anghynhes.

ER ys amryw flynyddau yn ol, aeth dau ddyn ieuanc, dau saer coed, o Sir Gaerfyrddin (o herwydd bod y gwaith yn brin yn eu hardal enedigol) i lawr i Loegr i chwilio am waith yn rhai o drefydd mawrion y wlad honno. Teithient yr amser hwnw, wrth gwrs, ar eu traed; a phan oeddynt wedi cyrhaedd rhyw dref yn Swydd Gaerwrangon, gwnaethant eu meddwl i fyny i lettya mewn hen dŷ tafarn mawr ar eu mynediad i'r dref. Yr oedd hyn yng nghanol y gauaf, a chawsant fyned i'r gegin o flaen y tân cysurus oedd yno. Ar ol iddynt fwyta eu tamaid, a chael ychydig beintiau o ddiod, a chan ei bod yn lled hwyr, meddyliasant mai gwell oedd iddynt fyned i orphwys, gan eu bod wedi blino yn enbyd. Arweiniwyd hwynt i fyny i'r llofft, ac ym mlaen drwy fynedfa hir, o ba un yr oedd amryw ddrysau yn agor i ystafelloedd i gysgu. Enw y naill oedd Dafydd, a'r llall oedd Thomas. Aeth Dai (fel y galwai ei gyfaill ef) rhag ei flaen i'r gwely; a chyn i Twm fyned, diffoddodd y ganwyll. Erbyn hyn, cofiodd Twm fod ganddo ryw beth heb ei gyflawni cyn dyfod i fyny; ac, ebai fe

wrth Dai, "Rhaid i mi fyned i lawr eto." "A wyt ti yn gwybod y ffordd," ebai Dai. "Mi treiaf hi, beth bynnag," ebai Twm; ac i lawr ag ef. Ym mhen tipyn, trodd yn ei ol ac i fyny y grisiau, ac ym mlaen, a throdd i mewn i ystafell, ac wedi ymddihatru, i'r gwely ag ef rhag blaen. "Mae hi yn oer ofnadwy, Dai," ebai Twm; ond nid oedd neb yn ateb; "nesa draw, Dai," ebai fe; "yr wyt ti yn cadw y gwely ym mron i gyd; a wyt ti'n cysgu, Dai? Wyt, mi warantaf," meddai Twm; "yr wyt ti, fel finnau, wedi blino." "Lle tost yw hwn i lettya, Dai," ebai Twm; "nid oes dim byd ganddynt hwy ar y gwely—dim ond un pilyn; pwy synwyr talu am le fel hyn?" Ac ar yr un pryd ymwasgai at Dai i geisio cynhesu. "Yr wyt ti yn oer arswydus, Dai; fachgen yr wyt ti fel y rhew." A dyna lle y bu Twm bron a sythu am rai oriau, ac yn methu cysgu yn lân. Erbyn hyn, yn nistawrwydd y nos, clywai swn traed amryw yn dyfod i fyny y grisiau, ac ym mlaen ar hyd y dramwyfa, ac wele ddrws yr ystafell yn agor gan ddyn â chanwyll yn ei law, ac yn ei ganlyn yr oedd dau neu dri o ddynion yn dwyn arch! Cododd Twm ar ei eistedd, a phan welodd yr arch, ysgrechodd allan nerth esgyrn ei ben, "Mwrdwr! mwrdwr!

mwrdwr!!! o 'mywyd i! help! mwrdwr!" Ar hyn syrthiodd y ganwyll o law y dyn a'i dygai, a diffoddodd. Dychrynodd pawb, fel y taflasant yr arch i lawr, a ffwrdd â hwynt i lawr y grisiau bendramwnwgl ar draws eu gilydd mewn dychryn, a Twm yn gwaeddi "Mwrdwr! mwrdwr!!" fel gwallgofddyn, gan dybied yn sicr eu bod wedi rhoi i fyny mewn tŷ drwg, a bod y dynion yn bwriadu eu lladd er mwyn eu harian, ac mai dyna oedd y diben o ddwyn yr arch i'w roddi ef ynddi. Ym mhen amser daeth yr un dynion i fyny eilwaith, yn ymafael y naill yn llaw y llall, a phob o ganwyll oleuedig ganddynt y tro hwn, gan nesu yn araf ym mlaen, a chyn pen hir iawn, daethant i ddeall eu gilydd.

Fe wel y darllenydd fod Twm, druan, wedi camsynied yr ystafell, ac wedi myned i un lle yr oedd corff marw wedi ei ddodi ar y gwely a chynfas drosto.

Meddyliodd y dynion, o'r ochr arall, fod y marw wedi codi yn fyw, neu ynte fod ei yspryd yn tystio ei fod yn cael cam yn rhywle; ac o herwydd fod y goleu wedi myned allan, dychrynasant tu hwynt i fesur, a gwnaethant y goreu o'u ffordd.

Bu canlyniad y noson honno yn chwerw i Twm, druan; cafodd annwyd trwm, fel y daeth y cryd cymmalau arno, yr hyn a'i gwnaeth yn analluog i ddilyn ei orchwyl am ei oes; a bu orfod arno symmud o'r naill fan i'r llall ar bwys dwy ffon o'r pryd hwn hyd ei fedd.

Y Ffrancwr Ieuanc.

TUA phump a deugain o flynyddoedd yn ol, yr oedd morwr ieuanc o Ffrancwr yn un o'r dwylaw ar lestr perthynol i Aberystwyth, a chan ei fod felly am gryn amser, daeth yn lled adnabyddus yn y dref. Y pryd hwn hefyd yr oedd geneth ieuanc o'r gymmydogaeth yn gweini gyda theulu parchus ar lan y môr.

Daeth y Ffrancwr ieuanc yn gydnabyddus â hi; a mwy na hyny, yr oedd y ddau wedi syrthio dros eu penau mewn cariad â'u gilydd. Un noson pan yr oedd y morwr ieuanc ar fordaith bell, yr oedd geneth arall yno yn cydweini, yr hon, y noson grybwylledig, a aeth i'r gwely ag oedd uwch ben y gegin allan, a hithau yn parotoi i fyned ar ei hol. Clywent y Ffrancwr ieuanc yn galw droion ar ei gariad wrth ei henw; adnabu hithau ei lais ar unwaith, ac

felly y gwnaeth ei chyfeilles; synent yn fawr, gan eu bod yn disgwyl ei fod ym mhell oddi yno ar y pryd; ac, ebai yr eneth wrth ei chyfeilles oedd ar y llofft, "Mae hwn a hwn (gan enwi y Ffrancwr) yna, gollwng ef i mewn." "Na wnaf i, yn siwr, gollwng di ef; arnat ti mae ef yn galw." Felly, hi a agorodd y drws, a phwy oedd yno ond efe yn estyn ei law iddi, ond heb ddywedyd dim; hithau yn gofyn iddo amryw gwestiynau, ond ni ddywedai air, ac felly yr ymadawodd, a cherddodd allan drwy yr ardd oedd yn y cefn i'r lle a elwir yn awr *Newfoundland Street.*

Synodd hi yn anghyffredin at ei ymddygiad y tro hwn,—mor wahanol i'w arferiad bob amser; aeth i mewn, ac adroddodd y cwbl wrth yr eneth arall; ceisient ddychymmygu beth a allasai fod ei fwriad, ond methent â dirnad beth oedd y rheswm am y cyfnewidiad. Nid oedd dadl nad efe oedd yno, o blegid yr oedd goleu y lloer yn llewyrchu ar ei wyneb, a'r dillad arferol am dano.

Ym mhen ychydig ddyddiau ar ol hyn cyrhaeddodd y newydd Aberystwyth fod y llong wedi colli ar ororau yr Yspaen, a rhai o'r dwylaw, ac yn eu plith y Ffrancwr ieuanc, wedi

boddi; a phan ddaeth y rhai achubedig adref, cafwyd ar ddeall i'r dygwyddiad anffodus gymmeryd lle ar yr awr yr ymddangosai y llanc i'w gariad tu cefn i rif ——, *Marine Terrace.*

Y mae yr eneth honno heddyw yn fyw ac yn iach; ond ei bod bump neu chwech a deugain o flynyddoedd yn henach nag oedd hi y pryd hwnw, ac wedi "gweled llawer tro ar fyd" wedi hyny, fel pawb o'r "dynol deulu." Ei hoedran eleni yw 68, ac y mae yn wraig gyfrifol, a gellir ymddibynu ar ei geirwiredd. Pe dymunai y darllenydd gael yr hanes o'i geneu hi ei hun, gallai gael hyny o fewn hanner awr wedi myned allan o dref Aberystwyth.

Gwraig y Bragwr.

BU cymmydogaethau Llanrhystyd a Llannon, Ceredigion, yn hynod am wneyd brag anghyfreithlawn, tua thri ugain a phedwar ugain mlynedd yn ol. Nid oedd odid i weithiwr cyffredin na byddai ganddo ryw ran yn y gorchwyl. Fe allai nad oes un rhan o Ynys Brydain yn cynnyrchu gwell haidd na'r ardaloedd hyn at wneuthur brag. Yr oedd y dreth ar y nwydd hwnw yn uchel iawn yr amser hyny

heb law bod yn ofynol cael trwydded i fragu. Byddai trigolion Cwm Mabws, ac oddi yno i fyny i Ros Haminiog, yn enwog yn y gwaith. Byddai pobl glan y môr mewn llawn prysurdeb gyda changen arall mewn anghyfreithlondeb; sef derbyn gwirodydd, y rhai a gludid mewn llongau bychain buain, y rhai a ddadlwythid yn y nos; ac yna ystorid hwynt mewn tai annedd ac ysguboriau ar hyd y gymmydogaeth, hyd nes y byddai y mân fasnachwyr yn eu cludo i'w gwerthu ar hyd y wlad. Adwaenem un o'r cyfryw, ac adnabyddid ef gan bawb drwy y gwledydd dan yr enw "Enoc y Brandi." Byddai y gwr hwn drwy ei fywyd yn ymhyfrydu mewn rhyw alwedigaeth ag a dueddai i dwyllo a cholledu y llywodraeth. Nis gwyddom pa ham na pha beth oedd y rheswm am hyny. Gwelsom ef laweroedd o weithiau yn cyflawni y swydd o arwerthwr cyhoeddus mewn lleoedd anghyspell heb dalu yr un ffyrling am drwydded.

Ei ddull gyda'r brandi a gwirodydd ereill fyddai eu rhoddi mewn cewyll ar gefn ei geffyl, a'u gorchuddio â phenweig heilltion, ac felly y byddai yn myned drwy y wlad dan yr esgus o werthu y rhai hyny. Ond gyda golwg ar y mân fragwyr, nid oedd amgylchiadau na lle ganddynt

i wneyd mwy na phwn neu bedwar mesur ar y tro. Byddai y cyllidwyr yn awr ac eilwaith yn dyfod o hyd i rai o honynt, a byddent yn cael eu dwyn o flaen yr ustusiaid; ond o herwydd eu dirfawr dlodi, a thynerwch y boneddigion hyny, deuent drwyddi yn lled esmwyth, ac ym mlaen yr ai y fasnach fel cynt; ac fel un herwheliwr a adwaenom, yr hwn a gafodd ei ddirwyo gan yr hedd-ynadon yn Llanilar, a ddaliodd ysgyfarnog a choediar ar ei ffordd adref o'r llys y diwrnod hwnw.

Ryw dro darfu i gyllidydd oedd yn byw yn Aberystwyth, yr hwn oedd yn ddyn hynod o fedrus, beiddgar, a glew tu hwnt i'r cyffredin, fel yr oedd yn ammhosibl bron ei dwyllo, fyned i'r gymmydogaeth a enwyd uchod, a chafodd ryw awgrym fod y rhai oedd yn byw mewn tŷ bychan ar Ros Haminiog, yn gwneyd brag. Yr oedd y tŷ neu y bwthyn hwn ar ei ben ei hun, ryw hanner milltir oddi wrth bob tŷ arall. Marchogodd y gwr tuag yno, ac erbyn ei fod wrth y drws, wele y wraig yn dyfod allan i'w gyfarfod, ac yn llefain a chrio yn y modd mwyaf torcalonnus. Gofynodd yntau yn gyffröus iddi beth oedd y mater. "O, syr," atebai hithau, "fy ngwr, druan, oedd yn eithaf iach bore heddyw, a

dacw fe ar yr ystyllen yn awr: O, Tomos bach," llefai, "fy ngwr anwyl, a thad fy mhlant amddifaid! beth a wna' i?" Plygodd y cyllidydd ei ben i lawr, a chanfu, gyferbyn â'r drws, ar fwrdd hir, y corff wedi ei orchuddio â chynfas gwyn. Aeth cyfyngder y wraig at ei galon, a cheisiai ddywedyd rhyw beth i'w chysuro, a rhoddodd iddi hanner coron tuag at y gladdedigaeth; ac yna trodd yn ei ol yn araf, gan fyfyrio ar ansicrwydd bywyd, ac yn wir, bob peth dan yr haul. Ac ar ei ffordd, galwodd mewn amaethdy heb fod yn neppell; ac wedi myned i mewn, a chyfarch, "wel," meddai, "fe ddaeth yn drwm iawn ar y teulu tlawd sydd yn byw yn y bwthyn cyfagos." "Beth sy'n bod," gofynent hwythau; nid oeddynt wedi clywed yr un gair. Adroddodd y cyfan; gwelai y naill yn edrych ar y llall. Canfu ammheuaeth yn eu golwg, ac mewn eiliad, i ffwrdd ag ef nerth traed ei geffyl at y bwthyn, a dyna y wraig yn dyfod i'w gyfarfod i'r drws fel o'r blaen; ond yn awr yn siriol ac yn chwerthin yn iachus. "B'le mae dy wr di, y cythraul?" gofynai y swyddog yn ddigllawn. "O" ebai hithau, "*mae e wedi ei gladdu; a leicech chwi wel'd ei fedd e, syr?*" Yr oedd y brag yn ddigon diogel, ac yntau wedi ei "wneyd" yn ddigynnyg.

Byddai y cyllidydd yn hoffi adrodd yr ystori yma yn fynych; a chyfaddefai na welsai ac na chyfarfuasai â gwell chwareues na'r wraig hon yn un man yn holl ystod ei fywyd.

Pennillion.

Y MAE bagad mawr o Bennillion Cymraeg hen a henaidd ar lafar gwlad a gwerin, nas gwyddys, yn gyffredin, gan bwy na pha bryd yr ysgrifenwyd hwynt. Y mae rhai o honynt ym mhlith y pethau tlysaf yn yr iaith, ac y maent oll yn haeddu eu cadw rhag difancoll.

Hyd y gwyddys, y casgliad rheolaidd cyntaf a wnaed o'r pennillion dienw hyn ydoedd yn y *Cambro-Briton* (1819—1823), gyda chyfieithiad Seisoneg o bob un o honynt, y rhai sy gant a thri o nifer. Adgyhoeddwyd y cyfan o'r rhai hyn, heb y cyfieithiad, yn y *Brython* am y flwyddyn 1859, gyda chwanegiad o wyth bennill a thrigain; yr hyn a wna, yn y cyfan, gant, seithdeg, ac un (171). Bernir mai hwn yw y cynnulliad helaethaf o'r cyfansoddiadau poblogaidd hyn; eithr gwelwyd hwynt wedi hyny yn argraffedig yn eu crynswth mewn un neu ddau o

lyfrau ereill, ond heb chwanegu cymmaint ag un llinell atynt, na chydnabod yn y mesur lleiaf, y ffynnonell y cafwyd hwynt o honi.

Amcenir y rhai a ganlynant yn chwanegiad at y rhai argraffedig eisoes; ni chyfarfyddir â hwynt yn y cynnulliad helaethaf a ymddangosodd hyd yn hyn; a bernir na bu nemawr o honynt ar gyhoedd gwlad cyn y waith hon. Go afraid crybwyll eu bod ar lawer o wahanol destunau, wedi eu hysgrifenu ar wahanol amserau, ac yn feddiannol ar wahanol raddau o deilyngdod prydyddol. Hwyrach y dylid, yn fwy priodol, gyfenwi rhai o honynt yn Rhigymau yr Aelwyd, neu yn Rhimpynau y Feithrinfa, fel y geilw y Seison hwynt; ond gan nad oes genym un casgliad o'r cyfryw febinaidd rigymau, a bod cymmysgedd yn un o nodweddau arbenicaf *Ystên Sioned*, gosodir hwynt yma yn y wedd y daethant i law y cynnullwr, heb amcanu, mewn un modd, wneuthur trefn a dosparth arnynt. Dilynwyd yr arwyddair yn fanwl i'r llythyren: "Pob sorod i'r god ag ef."

1.

Mae'r merched yn llawenu
Wrth wel'd y caeau'n glasu;

O! gan wedyd, "Fe ddaw'r haf,
Ac amser braf i garu."

2.

Mi af i'r afon las i ymlosgi,
Mi af i ben y tŵr i foddi,
Mi af i'r gwely i dori'm gwddwg,
O gariad merch (mab) o Sir Forganwg.

Dull arall:

Mi af i ben y bryn i foddi,
Mi af i'r afon fawr i'm llosgi,
Mi af i'r gwely i dori'm gwddw,
Os fy nghariad i fu farw.

Modd nacaol:

Nid af i ben y bryn i foddi,
Nid af i'r afon fawr i'm llosgi,
Nid af i'm gwely i dori'm gwddw;
Nid fy nghariad i fu farw.

3.

Myn'd at y bel yn fforddrych,
A chanlyn dawns yn fynych,
A thawlu coetan, bar, a gordd,
A neidio'r ffordd y mynych.

4.

Pan ffaelio'r helwr ddala,
Bydd beion ar y bwch;

Pan ffaelio'r gwr aredig,
  Bydd beion ar y swch;
Ni ellir tori'r castell
  Gan feion sy'n y tŵr;
Pan ffaelio'r diawl ymnofio,
  Bydd beion ar y dwr.

5.

Da genyf fod yn llawen,
  Da genyf fod yn fwyn;
Da genyf, pan fo cawad,
  Gael gwysgod dan y llwyn;
Da genyf gyfaill onest
  Ar ben y mynydd pell;
Da genyf air o gynghor,
  A'i gael ef gan fy ngwell.

6.

Mae merch â dwyael feinon
Ym mro Morganwg dirion;
Swrddanllyd iawn bob awr yw'n pen
Am dani, Gwen lliw'r hinon!

7.

Pan fytho'r tifedd candryll
Yn myned ar y gridyll;
Sylwed pawb ar hyny'n syth,
Mae'r crefftwr byth yn sefyll.

8.

Bach o gydwybod a mawr o ddiwydrwydd
A gasgl i wr ddigon o bob cyfoethogrwydd:
Mawr o ddiwydrwydd a bychan o drachwant
A gasglant fendithion a digon o lwyddiant.

9.

Gwynt Ebrillaidd y gorllewin,
Tor dy frys ac aros ronyn;
Y mae arnaf eisieu danfon
Gyda thi at ddeuliw'r hinon.
Gwed wrth Wen fy mod mewn galar,
Braidd yn gallu rhodio'r ddaiar;
Gwaith ei charu, deuliw'r hiffyn,
Wy'n och'neidio'n fwy nag undyn: . . .
Gwae na chawn gan hardd angyles
Benu'n heinioes ar ei mynwes.

10.

Byw'n dlawd er marw'n wr aberthog
Yw cais y cybydd annhrugarog,
Ac ar ei ol rhaid gado'r cyfoeth
I'r un a'i gwasgar mewn modd annoeth.

11.

Hen arfer serchogion yw cilio rhag dynion
I ymyl rhyw afon neu goedfron dan gêl,
A mynych y byddant yn rhodio dirgel-bant,
Lle tywyn y tesgant ar hirnant yr hêl;

A mynych ganolnos y byddant yn aros
Lle bytho gan eos gân fwyndlos yn fêl,
Mewn maes, coed, a dyffryn, a rhodio mewn rhedyn,
Heb enaid mewn un-glyn, nac undyn a'u gwel.

12.

Dere, f'anwyl, dere i fynydd
I le tirion gleision glosydd,
Lle mae tew-goed yn eu tegwch,
A lle'n hawdd in' gael llonyddwch.
Ni gawn yno gilfach dawel
Yn y gwasgod dan y gosgel;
Cell heb neb i'm haflonyddu
Dan y drain i gywrain garu.

13.

Mae serch yn rhywbeth rhyfedd,
Yn maenu pob amynedd;
Rhyw anfad wall, rhyw ynfyd wŷn,
Yn ffwylo dyn â ffoledd.

14.

Daeth tes i'n mwyn gynhesu,
Mae'r gweunydd glwys yn glasu;
O dere draw i'r llwyni drain,
Y gatten fain lygeittu.

15.

Lle byddo Gwen lliw'r lili,
Ar ereill mae'n rhagori;

Ni phlyg y gawnen ar ei hol,
Mae'n rhodio'r ddôl mor wisgi!

16.

Mi welais ryw brydyddyn
Yn dawnsio'n dal heb delyn,
Ac heb grwth yn ddigon sal,
Yng nghanol gwâl y mochyn.

17.

Beth wneir â lloc heb ddefaid?
Beth wneir â chath heb lygaid?
Beth wneir â phladur ar y rhew?
Beth wneir â blew draenogiaid?

18.

Selgan dwr yng nghylch yr afon
A wna'n gryf holl nwydau'r galon:
Bydd calon drom a'i gwrendy'n drymach,
A'i clyw o lawen fydd lawenach.

19.

Mi ganaf, mi chwarddaf, mi drof yn y dawns,
A bod ar bob ceiniog a feddaf yn fflawns:
Mi fyddaf yn llawen, mi fyddaf yn fwyn,
A mynych â meinwen yn myned i'r llwyn.

20.

Mi wn am ferch yn Sir Forganwg,
Yn deg ei thwf, yn hardd ei golwg,

A'i gwallt modrwyog, bronau gwynion,
A düwch uffern yn ei chalon.

21.

Myfi sy ffolaf dyn dan awyr,—
Myn'd ym mhell i brynu synwyr;
Gwedi talu'n brid am dano,
Methu cario dim oddi yno.

22.

Ffol y bydd ffol er gwaethaf pob cynghor;
Ffol y bydd ffol er gweled pob goror;
Ffol y bydd ffol er eithaf pob addysg;
A ffol y bydd ffol y blaena'm mhob terfysg.

23.

Er maint sydd yn dy gwmwl tew
O wlaw a rhew a rhyndod,
Fe ddaw eto haul ar fryn,
Nid ydyw hyn ond cafod.

24.

Ffei o ddyn ni ochel unwaith
Fin y ffos lle syrthiodd ganwaith;
Ffei o'r gamp fo'n meflu'r wyneb,
Ffei lawenydd o ffolineb.

Yng Ngwynedd a Phowys fel hyn:
Ffei o ddyn na ddianc unwaith
O safn y ci a'i brathodd ganwaith;

Ffei bob peth sy'n diwyno'r wyneb,
Ffei lawenydd mewn ffolineb.

25.

Aeth Huwcyn yn benuchel
I garu ryw nos Lun;
Ond daeth yn ol yn sobrach,
Os nid yn gallach dyn:
Ni chafodd ddrws agored,
Na mynwes un ferch wen;
Mae pawb o'r merched mwynion
Yn chwerthin am ei ben.

26.

Mae'r ferch a gâr fy nghalon
Yn byw tu draw i'r afon:
Mi af i gwrdd â'r geingan gu
Tae'r môr yn rhanu rhynnon.

Llên y Milod.

DYWED y dysgedigion wrthym fod hanner yr annealltwriaeth, y camgymmeriadau, a'r croes olygiadau sydd yn dygwydd ym mhlith dynion, yn tarddu yn gyffredin o ddiffyg deall eu gilydd, neu o eisieu rhoddi yr un ystyr i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir ganddynt.

Rhag dygwyddo dim o'r fath anffawd ar yr achlysur presennol, dyweder ar unwaith mai wrth "Lên y Milod" y golygir llên y werin yng nghylch milod neu anifeiliaid; neu, mewn geiriau ereill, cred, ofergoel, a thraddodiad y cyffredin bobl mewn perthynas i amryw o'r gwahanol greaduriaid a ymlwybrant ar hyd y ddaiar. Y mae'r pwnc wedi ei drin yn bur helaeth a chyflawn mewn cyssylltiad â rhai gwledydd; ond hyd yr ydys yn gwybod, nid oes dim, neu ond y peth nesaf i ddim, wedi ei ysgrifenu yn Gymraeg yng nghylch y rhan y mae milod yn ei chwareu yn chwedloniaeth cenedl y Cymry. Nid ydys yn amcanu ond cyffwrdd tipyn bach yn arwynebol â'r pwnc; dim ond dechreu tori'r garw, fel y dywed y Cymro, neu dori'r ia, fel y dywed y Sais; dan obaith y canlynir ar hyd yr un llwybr gan ereill, ac y dilynir arno nes cyrhaedd y terfyn. Nis gwyddys fod dim wedi ei ysgrifenu ar y pwnc yn "yr iaith nesaf atom," mwy nag yn y Gymraeg. Rhaid dechreu, chwi a wyddoch, ar bob peth rywbryd, a dywedir mai "cam ar y trothwy yw hanner y daith."

Nid ydys yn awgrymu mewn un modd fod yr ychydig ofergoelion a gofnodir yma wedi dech-

reu ym mhlith y Cymry, neu eu bod mewn un wedd yn gyfyngedig i'r Dywysogaeth. Y mae llawer o honynt o leiaf cyn hyned ag amser Aristotl; ac adroddir hwynt gyda blas gan Plinius hygoel ac Elian, Solinus, Isidor, ac Alecsander; ond mwynglawdd mawr y pethau anhygoel ym mhlith anifeiliaid yw gwaith Bartholomaeus Glanvil (a gyfenwir hefyd Bartholomaeus Anglicus), a elwir *De Proprietatibus Rerum* (Am Briodoleddau Pethau), yr hwn a argraffwyd y tro cyntaf yn ninas Cwlen mor gynnar ag o ddeutu y flwyddyn 1470, pan yr oedd argraffyddiaeth yn ei mabandod; a bu llawer o argraffiadau diweddarach o hono. Yr oedd yn waith hynod o gymmeradwy yn ei ddydd, gan ei fod mor llawn o'r rhyfeddol a'r aruthrol a'r anhygoel. Cyfieithwyd ef yn fore i'r Seisoneg, y Ffrancaeg, a'r Yspaeneg, ac ond odid i ereill o ieithoedd y Cyfandir. Mynach o urdd y Sant Ffransis ydoedd Glanvil (neu Bartholomaeus, fel y gelwir ef yn fwyaf cyffredin), ac yn byw, fel yr ymddengys, yn amser y Brenin Iorwerth y Trydydd; ac oddi wrtho ef yn benaf y benthyciodd ysgrifenyddion diweddarach lawer o'r pethau dieithr a'r chwedlau rhamantus a adroddant yng nghylch teithi

y gwahanol anifeiliaid y cymmerant arnynt eu darlunio.

Ond er nad yw llawer o'r ofergoelion hyn mewn un modd yn gyfyngedig i Gymru, nac yn cael eu credu yn unig o fewn terfynau y Dywysogaeth, yr ydys yn eu hadrodd fel y cyfryw, o blegid bod yr ysgrifenydd wedi taraw wrthynt oll mewn llawysgrifau Cymraeg, neu ynte wedi eu clywed ar lafar gwerin mewn gwahanol fanau o'r wlad. Nid â gwreiddioldeb y chwedlau y mae a fynwyf. Ychydig o lên y werin sydd wreiddiol. Y mae yr un chwedlau, gydag ychydig gyfnewidiadau, i'w cael yn y rhan fwyaf o barthau y byd.

Fy mhrif awdurdod ysgriflyfrol yw traethawd a elwir "Cyfraith Arfau," sef yw hyny, defodau a rheolau perthynol i Arfau Bonedd, neu beisiau arfau gwŷr boneddigion; yr hwn, fel y gellir barnu, a ysgrifenwyd cyn pen llawer o amser ar ol ymddangosiad gwaith Glanvil drwy'r wasg i oleuni dydd. Yr wyf yn gynnefin â thair cyfysgrif o'r gwaith, y naill ar gadw yng Ngwynedd, y llall yn Neheubarth, a'r drydedd yn Llundain, y rhai a amrywiant gryn lawer oddi wrth eu gilydd o barth gair ac ymadrodd, ond a gyttunant yn gyffredin o ran sylwedd. Y

mae y drydedd gryn lawer yn fyrach na'r ddwy arall, ac ymddengys nad yw ddim amgen na thalfyriad o honynt. Cynnwysa yr ysgrifiyfrau hyn lawer o bethau heb law y cyfeiriadau sydd ynddynt at anian y creaduriaid a arferir eu dwyn mewn arfau bonedd.

Y Llew.—Rhaid dechreu, bid sicr, fel y dylid dechreu, gyda "theyrn y goedwig;" canys efe, yn ddilys ddigon, a biau y flaenoriaeth. Am y Llew dywed fy awdurdod lawysgrifol wrthym mai penaf anifail anrhesymol yw, ac urddasaf a dewraf yn mhob perygl. "Canys pan helier ef, nid ymgudd, ac ni ffy i leoedd anial, namyn eistedd ar faes goleu, fal y gweler, ac ymbaratoi i aros, ac i amddiffyn ei hun. A phan friwer, adnabod a wna yn anrhyfedd y cyntaf a gyhyrddodd ag ef; ac ym mysg pawb ei ladd, neu ynte a ladder. A phan fo yn marw, cnoi y ddaer a wna, a gollwng dagrau o'i lygaid. Yr anifail hwn sydd anifail tra charedig; canys efe a edwyn ac a gâr y neb a wnel les iddaw. Cryfder y llew y sydd yn ei ddwyfron, a'i glefyd yn ei ben. Ac y mae ef mor wresawg ag y bydd arno byth glefyd a elwir y cryd quartan; a hyny drwy natur y mae yn ei ddioddef i ddofi ei greulonder a'i lid. Pan gysgo'r llew, ei lygaid

a fyddant yn egored; a dyn nis lladd ac nis bwyta onid rhag dirfawr newyn. Ac fal y dywed Aristotiles, mae esgyrn y llew cyn galeted ag y daw tân o honynt megys o'r cyllestr, o churir hwynt yng nghyd; ac nid oes onid ychydig o fêr ynddynt. Pan lidio'r llew, curo a wna y ddaiar â'i benllinyn, a phan fwyhao ei lid, y cur ag ef ei gefn. Mewn mynyddoedd, a lleoedd uchel y trig; a phan welo ei braidd, y rhua yn uchel; a'r llef hon a ofnhâ pob anifail, ac a bar iddynt sefyll yn syth i aros gorchymmyn ac ewyllys eu brenin; a'r praidd a ddalio, cywilyddus ganto ei fwyta ei hun; ac am hyny y bydd llawer o anifeiliaid a'r y bo naturiol ganthynt ymborth ar gig, yn canlyn y llew, dan obeithio o'i haelioni ef gael cyfran o'i weddill. Pan ymlenwo y llew unwaith yn dda, y bydd heb fwyd ddeuddydd neu dri; ac o gorfydd arno ffo pan fo llawn, ef a gymhell ei fwyd i fyny o'i foly tua'i fochau, ac a'i tyn allan â'i ewinedd, fal y bo ysgafnach i redeg. Y llew sydd anifail hoedlog; a phan gychwnno, ei droed deheu a symmud yn gyntaf, fal y gwna y camel; a phan fo yn cerdded mewn lle garw carregog, ef a dyn ei ewinedd o fewn ei draed, rhag eu briwo neu eu pylu: canys o'r rhai hyny yr ymarfer ef mewn rhaid,

megys gwr o'i gleddyf. I'r llew y mae anadl brwnt, a'i frath y sydd farwol a gwenwynig; yn anwedig pan fo ef mewn cynddaredd." Er cystal hyn ni fynegwyd mo'r cyfan o deithi y llew; a gresyn fyddai colli dim. Y mae yr hyn a ganlyn cystal a dim a draethwyd eto: "Anian y llew yw, pan aner y cenaw, tair nos a thridiau y bydd farw; sef yn farw y genir; ac yna rhydd y llew ddiaspad yn ei glust, oni ddaw enaid ynddo."

Y Llewpard.—Yn ol ei ach a'i fonedd, y Llewpard yw yr anifail y dylid crybwyll nesaf am dano; canys, yn ol fy awdwr, y mae yn berthynas agos iawn i'r llew; ac fel hyn y rhed ei lên am dano:—"Lleopard y sydd anifail creulawn; ac a geir yn erbyn naturiaeth anifeiliaid y rhwng anifail a elwir Pardus a'r Llewes; ac fel y dywed Isidorus, anifail chwannog i waed yw." Nid oes dim yn rhyfedd yn y gred hon, canys ceir hi yn ysgrifeniadau awduron diweddar mewn cymhariaeth; ac ym mhlith ereill ni a gawn y dysgedig ac arabeddus Ddr. Thomas Ffwler yn ysgrifenu yn y flwyddyn 1650, fel hyn: "Yn briodol, llewpardiaid a mulod nid ynt greaduriaid yn y byd;" a hyny am yr achos tybiedig uchod. A'r un, hyd yr wyf yn deall, yw barn

gwerin Cymru, cyn belled ag y mae ganddynt un farn ar y pwnc.

Y Pardus.—Y mae yr ymdrafod â'r llewpard wedi ein dwyn eisoes i gydnabyddiaeth â'r Pardus; ac fel hyn, gyda thipyn o ddiffyg chwaeth, ond gyda gofal am y rhyfeddol, y darlunir teithi y creadur hwnw:—"Pardus sydd anifail tra buan, â manau gwynion arnaw megys panthera. Chwannog yw i waed, ac ar un naid y bydd marw. Nid oes amrafael mewn lliw y rhyngto a'r panthera, namyn bod yn wynach manau y panthera no'r eiddo ef. Chwannocach yw yr anifail hwn no dim i fwyta tom dynion; ac am hyny y bydd helwyr yn crogi tom dynion ym mrig prenau, megis pan ddringo i'r pren y gallont ei ladd." Yna sonir am ei gyfeillach â'r llewes, megys y gwelsom eisoes; a dywedir wrthym mai oddi wrth ei ddau riant anghydryw y mae yn dwyn ei enw.

Yr Arth.—Cyn gadael y creaduriaid cigysol ysglyfaethus, dyledus yw son am yr Arth; canys y mae hynodion a theithi yr anifail hwyrdrwm hwn, yn ol ein hawdurdodau, yn llawn mor rhyfeddol a'r eiddo neb o'r lleill; er, fel yr ymddengys, mai digon prin y mae yn feddiannol ar "synwyr gŵydd." Ond bid hyny fel y

byddo, yr "Arth y sydd anifail llidiog anodd-efus, ac a fyn ymddiala â phawb a gyhyrddo â hi; a phan ddyro ddetgyrch at un, os arall a gyhwrdd â hi, gado a wna y cyntaf, a chyrchu yr ail, a'r trydydd, a'r pedwerydd. Cryfder yr arth sydd yn ei breichiau; a pheth bynnag a gaffo ynddynt, hi a'i deily yn gadarn ac yn ffest. Pan fo newyn ar yr arth, hi a gais ddwyn y mêl o'r cychau; ac i lestair hyny y crogir gordd fawr drom rhyngti a'r cwch; a hithau â'i phalf a gais yru yr ordd i wrthi; a pha ffestaf y gyro, ffestaf y daw yr ordd tuag ati: ac felly yr ymgur fwyfwy â'r ordd hyd pan benfeddwo hi o fynych ddyrnodiau ar yr ordd â'i phen, a syrthio i'r llawr ar bethau llymion gosodedig yno o'r dioddef, a'i lladd ei hun o'i hynfydrwydd." A rhag i neb fod mor anystyriol ag ammheu dim o'r pethau hyn, chwanegir: "Ac â hyn y cyttunant Aristotiles, Plinius, a Bartholomaeus." Y mae'r pwnc gan hyny wedi ei benderfynu, ac aed Cuvier, Owen, a'r cyfryw, i "chwiban ysgadan," os mynant hwy.

Y mae yr arth, cystal a'r llew, wedi cael troedle ym mysg ein hymadroddion diarebol: canys ym mhlith ereill sonir, nid yn anfynych,

am "gospi (neu geryddu) yr arth yng ngŵydd y llew;" sef yw hyny, "taraw'r post i'r pared gael clywed;" neu, mewn geiriau ereill, cospi, cystwyo, neu ddwrdio un, fel y gallo'r llall glywed a chymmeryd yr awgrym; gwneuthur enghraifft o'r naill er rhybudd i'r llall.

Rhaid bellach adael y creaduriaid cigysol ysglyfaethus, a throi at un neu ddau o anifeiliaid o rywogaethau ereill, ac o deithi pur wahanol. Y nesaf a ddaw dan ein sylw yw

Y Carw.—"Aristotiles, yn yr wythfed llyfr a wnaeth o naturiaethau anifeiliaid, a ddywed, pan yw cymhenaf anifail yw'r carw ym mysg yr holl anifeiliaid gwylltion; ac nid oes dim o'r bustl ynddo. Yr anifail hwn, o'i ddoethineb a'i fwriad, a bair i'r ewig fwrw y gelain neu y llo mewn lle cadarn disathr, lle ni bo tramwy dynion nac anifeiliaid; ac wedy hyny ef a'u dwg wynt i le ni bo onid un ffordd i ddyfod i mewn, fal y gallont yno ymgadw rhag rhuthr pob anifail a geisio ddyfod atynt. A hefyd osglau ei gyrn ef a feneig ei oedran; canys pob blwyddyn y tyf osgl iddaw, hyd pan fo ym mhell mewn oedran. A phob gwanwyn y syrth ei gyrn ef, ac yna y bydd ef gwedy'r ddiarfu; ac o'i ddoethineb yna ni chwennych ymladd,

eithr ymguddio mewn lleoedd anial hyd pan dyfo ei gyrn, a dyfod arfau newydd iddo."

Y mae hyna yn weddol; ond y mae un peth o fawr bwys wedi ei adael allan, yr hwn y mae yn rhaid ei gyflenwi o ffynnonell arall. "Llyma y tri achos a bair i'r huaid ganlyn yn well y carw nog anifail arall o'r byd: nid amgen, o herwydd ei fod ef yn chwysu yn fawr pan fydder yn ei ymlid ef, oni bo y chwys yn rhedeg ar hyd ei draed a'i gymmalau i'r llawr; a phan gaffo y bytheuaid hwnw, hwynt a fyddant can llawened ag na allant ymadael ac o wir felusder gaffael y chwys hwnw. Yr ail achos yw, pan fo y carw wedi blino, fel na allo fawr gerdded, bwrw ewyn gwyn a wna efe; a phan gaffo y bytheuaid hwnw, [hwy] a fyddant lawenach, ac a'i canlynant heb aros. Y trydydd, pan fo y carw yn rhoddi y maes i fyny, ef a fwrw ewyn a gwaed yng nghymmysg; a phan fyddo efe gwedi bwrw hwnw, ef a ŵyr y bytheuaid ddarfod am dano, ac a'i canlynant hyd oni ddelont iddo."

Y Cawrfil.—Y Cawrfil neu yr Elephant nid yw byth yn gorwedd, o blegid bod ei aelodau yn rhy anystwyth; a phe gorweddai, ni allai byth gyfodi. Ond y mae yn anghenrhaid iddo yntau orphwys weithiau; a'r dull y mae yn gwneuthur hyny ydyw, nid gorwedd, fel y pedwarcarnolion

ereill, ond ymbwyso yn erbyn coeden, a honno yn goeden gref; a'i arfer yw pwyso ar yr un goeden bob amser, os na bydd ei grwydriadau ym mhell iawn oddi wrthi. Y dull y delir ef yw hyn: ceir allan, gan ystryw dyn, y goeden y mae yn arfer hepian a huno ar ei phwys; yna llifir hi yn agos drwyddi, pan fyddo yr anifail amrosgo yn ddigon pell yn ystod y dydd; ond gofelir gadael ychydig o honi heb ei lifio trwodd, er mwyn cadw'r goeden ar ei thraed ac ar ei llwrw. Pan ddêl y nos y mae y cawrfil, fel arferol, yn dyfod yno i gymmeryd seibiant ac i huno ei hun: ond cyn gynted ag y pwyso ef ar y goeden, y mae'r darn a'i daliai yng nghyd yn tori gan ei bwys ef; cwymp y goeden yn lloro, a chwymp y cawrfil gyda hi yn bendramwnwgl; a chan nas gall godi, unwaith y gorweddo neu y syrthio, dyna ddiwedd am dano; y mae, er ei holl nerth, yn llaw dyn, a thrinia hwnw ef wrth ei ewyllys. Dyna'r modd y gorphwys cawrfilod; a dyna'r dull y delir hwynt, a hyny yn rhwydd ddigon, gan werinos Ceredigion.

Yr Eryr.—Deuwn weithian at yr adeiniogion filod; ac ym mhlith y rhai hyny yr Eryr, megys o anghenrheidrwydd, a ddaw yn gyntaf dan

ystyriaeth; canys yr hyn ydyw y llew ym mhlith anifeiliaid y tir, hyny yw yr Eryr ym mysg ednogion yr awyr; a gwelir fod boneddigrwydd a hunanwadiad a mawrfrydedd yn perthyn i'r ddau. "Eryr y sydd edn megys brenines ym mysg adar ereill; a haelaf ederyn o'r byd yw: canys ni fwyty ei hun y praidd a ddalio, oni bydd dirfawr newyn a'r paro iddi: namyn pan ddarffo iddi gym'ryd ei chyfran, ei fwrw ym mysg adar a fônt yn ei chanlyn a wna. Ac oni bydd digon iddi yr edn cyntaf a ddaliodd, yna megys brenines a fo ei bywyd ar gyffredin, hi a ddeily yr edn nesaf atei, ac a'i rhydd yn eu mysg; ac o'r achos hwn y bydd adar a fônt yn ymborth ar gig yn canlyn yr eryr i geisio rhan o'i gweddill. Solinus a ddywed, "pan yw o fraidd y preiddia yr hebogiaid, gweilch, banred, a'r fath adar hyny, rhag ofn y dydd y clywont lais yr eryr." Y mae hynyna yn ddigon; ond nid yw y chwedl yn gwaethygu wrth fyned rhagddi. "I'r eryr y mae un troed cyfan megys i ŵydd, fal y gallo nofio pan ddamchweinio iddi ddisgynu mewn dwr yn ol ei phraidd, a'r llall y sydd egored fal troed gwalch, ac ewinedd tra llymion iddo. Nid oes edn gryfach no'r eryr, noc a eheto yn gyfuwch â hi; ac

er uched ydd eheto, hi a wŷl y pysgod bychain yn nyfnder y môr. Ac ar hyd y dydd y ganed Alecsander Fawr y bu dwy eryr yn sefyll ar ben tŷ Philip, brenin Macedonia, ei dad tybiol ef; a hyny a oedd yn arwyddocäu gwr o ddau-ddyblyg ymherodraeth." Canfyddir yma yr arferir eryr ym mhob man yn fenywaidd, yr hyn sy braidd yn wahanol i'r arfer gyffredin; ond nid yw ein hawdwr mewn un modd heb reswm dros ei ymddygiad. "Na fid rhyfedd gan neb fy mod i yn galw yr eryr yn edn ben-yw: canys o bob edn boneddig, mwyaf, cryfaf, ac urddasaf yw'r benyw."

Yr Hebog.—Y peth mwyaf nodwiw mewn perthynas i'r Hebog, "yr hwn y sydd wedi ei arfogi yn fwy o galon nag o gorff a nerth," ydyw hyn:—"Alecsander . . . a ddywed y deily yr Hebog, pan fo noswaith oer y gauaf, ederyn, ac a'i cynnail yn fyw dan ei thraed hyd trannoeth, i'w chadw rhag annwyd; ac yna hi a'i gellwng ymaith yn rhydd: ac er cyfarfod o'r ederyn hwn â hi y dydd hwnw, ni wna hi ddim argywedd iddaw, achos yr esmwythder a gafas i wrthaw; a thrwy'r natur foneddigaidd hon y mae'r Hebog yn gorfod ar arglwyddi a gwŷr beilch, fal y dywed yr un Alecsander."

Y Dylluan, neu *Y Ddylluan*.—Y nesaf a ddaw dan ein sylw yw ein hen gydnabod y dylluan. Y darluniad a rydd ein hawdurdod o honi, a'r teithi a briodolir iddi, sydd i'r perwyl canlynol:—"Tylluan y sydd edn mewydus, a llwyth mawr o blu erni. Y dydd y trig mewn gogofau, ceubreni, a lleoedd tywyll, a'r nos yn ehedeg; a phob edn y sydd ddygasog iddi. Mynychu a wna liw nos i'r temlau a'r eglwysi i ymlenwi ar yr oel o'r lampau. Hely ystlumod a llygod a wna, a'u bwyta."

Druan o'n hawdwr! ni wyddai ef ond a wyddai. Ni freuddwydiodd, mae yn amlwg, am wir achos ammhoblogeiddrwydd y dylluan. Y mae yspeilio yr olew o lusernau y cyssegr yn waith anfad a dyhir ddigon, nid oes neb yn ammheu; ond nid o herwydd hyny y mae yn berygl iddi hi ddangos ei phig liw dydd. Fel hyn y bu. Ar ryw fore teg o haf penderfynodd yr adar yn unfryd unllais ddewis brenin; a'r teithi a'r cymhwysder anhebgor yn y brenin oedd i deyrnasu ar yr adar ydoedd, gallu o hono hedfan yn uwch na neb o'i ddeiliaid. Hyn, yn ol barn y gynnadledd, oedd yn rhoddi hawl i'r orsedd, y goron, a'r deyrnwialen. Ymgynnullodd nifer afrifed o adar o bob llwyth a lliw yn

rhywle yn entrych awyr; a gwedi prawf teg cafwyd mai yr eryr oedd yr aderyn a ehedasai uwchaf oll; ac felly iddo ef, wrth iawn ac ammod, y disgynai teyrnas y pluf; ond, os ych chwi yn y fan yna, yr oedd y dryw bach wedi llechu ac ymguddio yn rhywle ym mhluf yr eryr; a phan oedd yr eryr wedi cyrhaedd ei eithafnod pellaf yn yr uchelderau, ymsaethodd y dryw allan o'i loches, ac ehedodd gryn lawer yn uwch nag ef! Parodd y fath ymddygiad y cyffro a'r cymmraw mwyaf ym mhlith yr holl dorf asgellog; ac am yr eryr ei hun, edrychai yn ddiflas guchiog. Nid oedd modd gwadu nad y dryw oedd wedi ehedeg yn uwchaf o neb. Ond y dryw yn frenin yr adar! Yr oedd y fath syniad yn rhy wrthun i ymresymu yn ei gylch; a phenderfynwyd ar unwaith, heb neb yn tynu yn groes, fod y dryw i gael ei sym-mud o'r ffordd, a'i ddienyddu am ei dwyll a'i ddichell a'i ryfyg anoddef. Ym mhlith yr adar y gosp benigol yw, nid crogi, na saethu, na thor-benu, na llabyddiaw, ond *boddi*. Cafwyd llestr, ac nid oes eisieu llestr mawr i foddi dryw. Daeth yr adar yng nghyd, bob un i gyfranu ei ddyferyn at yr amcan pwysig mewn golwg; ac yn olaf oll daeth y dylluan yno i gyfranu ei

dyferyn hithau; ond wrth wneuthur hyny, sathrodd yn drwsgl ar ymyl y llestr, a diwelodd ef yn gawdel! Collwyd pob defnyn o'r gwlybwr gwerthfawr; diangodd y dryw rhyfygus â'i fywyd ganddo; ac nid oes hanes iddo dderbyn na chosp na cherydd am ei wrhydri; canys ymddengys ei fod yn eithaf parchus ym mhlith ei gydrywiaid, fel pe na buasai dim wedi dygwydd. A phan oeddynt yng nghanol y benbleth a'r cythrudd a'r dyfysgi yma, yn lle ymddiheuro gyda'r dwysaf ostyngeiddrwydd am ei hymddygiad hongleraidd anesgusodol, dywedir fod

"Y dylluan â'r big gam
Yn chwerthin am eu penau."

Ond costiodd y trwstanwch hwn yn ddrud i'r dylluan, druan; canys o'r pryd hwnw hyd y pryd hwn caseir hi â chasineb llidiog gan bob perchen aden, a churant hi yn ddidrugaredd pan gaffont afael arni. Dyna pa ham y mae hi yn gorfod ymguddio mewn dirgel fanau anhygyrch y dydd; a phan y gyrer hi gan newyn i chwilio am ei thamaid, gorfydd arni wneuthur hyny yn oriau'r nos, pan fyddo yr adar ereill yn tawel glwydo, yn esmwyth huno, ac yn breuddwydio wrth fodd eu calon. Gŵyr pawb am ei harfer

yn cwan ac yn oernadu yn y nos, yn enwedig ar nosweithiau llwydrewog yn misoedd y gauaf :—

> " Cw hw ! drwy'r nos yn cwan,
> A cherth i'm dwy-glust ei chân ;"

ond nid yw pawb, ond odid, yn gwybod geiriau cân ei chwynfan, a'r achos neillduol ei bod yn wban mor irad yn "llwyn iorwg pen y tŵr." Dyma'r oerlef a glywir ganddi yn ei chân a'i chwyn :—

> "Y mae annwyd ar fy nhraed,
> Mae'm cig a'm gwaed yn rhewi,
> A dyferyn wrth fy nhrwyn ;
> O ! dowch yn fwyn i'r gwely."

Tuedd ymarferol y pennill tylluanaidd hŵn yw annog a darbwyllo plantos i fyned i'w gwely yn gynnar ddechreunos, yr hyn nid yw mewn modd yn y byd yn cytuno â'u syniadau hwynt am briodoldeb a chysur.

Ond er mor ddibarch ac ammhoblogaidd yw y dylluan anffodus ym mhlith perchenogion aden, eto cofier,

> " Mae brân i frân, a gwalch i walches,
> A dylluan i'w chymhares."

Chwedl arall o gryn hynafiaeth am y dylluan

yw hon :—"Gwydion, mab Dôn, a wnaeth Gaer Gwydion; ac efe a gerddwys y bydoedd i ymofyn am Flodeuwedd, gwraig Huon, yr hon a dwyllasai ei gwr; a phan y cafas Gwydion hi, efe a'i troes yn dylluan am ei thwyll, a hithau yn caru'r tywyll, ac nis carai oleuni."

Adroddir yr un chwedl yn llawer helaethach ym Mabinogi Math fab Mathonwy; ond y rhan ganlynol o hon sydd yn dwyn cyssylltiad pennodol â'r dylluan.

"Yna dygyforiaw Gwynedd a wnaethant, a chyrchu Ardudwy. Gwydion a gerddwys yn y blaen, a chyrchu castell a orug. Sef a wnaeth Blodeuwedd, clybod eu bod yn dyfod; cym'ryd y morwynion y gyda hi, a chyrchu y mynydd; a thrwy afon Gynfael, cyrchu llys a oedd ar y mynydd; ac ni wyddynt gerdded rhag ofn, namyn ag eu hwyneb drach cefn; ac yna ni wybuant yni syrthasant yn y llyn; ac y boddysant oll eithr hi ei hunan. Ac yna y gorddiweddawdd Gwydion hithau, ac y dywawd wrthi, 'Ni laddaf di; mi a wnaf y sydd waeth i ti: sef yw hyny, dy ellwng yn rhith ederyn; ac o achaws y cywilydd a wnaethost ti i Lew Llaw Gyffes, ni beiddych dithau ddangos dy wyneb wrth liw dydd fyth: a hyny rhag ofn yr holl

adar, a bod yn anian iddynt dy faeddu a'th ammherchi y lle y'th gaffont; ac na chollych dy enw, namyn dy alw fyth Blodeuwedd.' Sef yw Blodeuwedd, tylluan o'r iaith yr awr hon; ac o achaws hyny y mae dygasawg yr adar i'r tylluan; ac ef a elwir etwa y tylluan yn Flodeuwedd."

Nid yw y beirdd wedi anghofio Blodeuwedd, a'i dullnewidiad yn dylluan Cyfeirir at y chwedl mewn un o'r cerddi a briodolir i Daliesin; a thraethir hi yn gyflawnach fyth gan Ddafydd ab Gwilym yn un o'i gywyddau dychan i'r "Wyll fiadr a gân i'r lladron."

Os clywch y tylluan yn ysgrechain ac yn oernadu yn agos i'r tŷ, arwydd ydyw o farwolaeth rhywun o'r teulu.

Y Dryw.—Cyn ymadael â'r Dryw, rhaid gwedyd gair ym mhellach am dano. Er mor fychan, eiddil, a distadl ednog ydyw, ac er mor ddireidus a chyfrwys y bu yn ei orymgais am freniniaeth yr adar, nis gellir tori ei nyth dlos ef yn ddiberygl; canys,

"Y neb a doro nyth y dryw,
Ni chaiff iechyd yn ei fyw:
A'r neb a doro nyth y wennol
Ni chaiff fywyd (iechyd) yn dragwyddol!"

Neu fel hyn, ychydig yn esmwythach:

"Y neb a doro nyth y dryw,
Ni wel fwyniant yn ei fyw;
Y neb a doro nyth y wennol,
Ni wel fwyniant yn dragwyddol."

Y Wennol.—Son am y Wennol, y mae llawer mwy o lên gwerin yn perthyn iddi nag a fedraf fi ei adrodd.

Credid gynt fod y wennol, yn gystal a'r gog, yn un o'r "saith gysgadur:" canys coeliai ein hynafiaid fod saith o'r creaduriaid perthynol i'r wlad hon yn cysgu yn y gauaf, ac yn deffro pan ddelai y gwanwyn â chynhesrwydd i'w dadebru. Bernid fod y wennol yn bwrw tymmor yr oerfel mewn ceudyllau, holltau yn y graig, ïe, ac weithiau yn llechu yng ngwaelod llynoedd ac afonydd: ond y mae yr anianyddion wedi bod yn ymyryd â'r gred hon hefyd, ac wedi ei halltudio i "garchar Oeth ac Anoeth," fel y rhan fwyaf o'r hen gredoau cysurus ereill.

Ymddengys y wennol yn y Dywysogaeth tua chanol mis Ebrill; ac os dygwydd i ambell un ymddangos dipyn yn gynt, cofier,

"Un wennol ni wna wanwyn."

Pan ddychwel atom o'r hinsoddau clauarach, y

mae yn gweled cryn gyfnewidiad wedi dygwydd, a chwyna o'r herwydd fel hyn:

"Gwyl Fair ddiwedda',
Pan eis oddi yma,
  Mi adewais lawer o yd;
Gwŷr â ffustau,
Gwragedd a gwagrau,
  Aethant ag e ymaith i gyd, i gyd!"

Gwyl Fair ddiweddaf y sonir am dani yma yw cofwyl Genedigaeth Mair Forwyn, ar yr 8fed o fis Medi;* ac o ddeutu yr amser hwnw, neu ychydig yn gynt, y mae y wennol yn cefnu arnom ac yn ymfudo tua pharthau cynhesach y deheu, nes byddo'r gauaf oer ei naws wedi peidio â thraws-reoli. Yna y dychwel atom drachefn, a llon fydd pawb o'i gweled.

Os nytha y wennol o dan fargod eich tŷ, neu

---

* Y mae chwech Gwyl Fair yn dygwydd yng nghorff y flwyddyn. Y gyntaf yw Ymddwyn Mair Forwyn, Rhagfyr 8fed; yr ail, Gwyl Fair y Canwyllau, neu Buredigaeth Mair, Chwefror 2fed; y drydedd, Gwyl Fair y Cyhydedd, neu Gyfarchiad Mair, Mawrth 25med; y bedwaredd, Ymweliad neu Ofwy Mair, Gorphenaf 2fed; y bummed, Dyrchafiad Mair, Awst 15fed; a'r chweched, Genedigaeth Mair, Medi 8fed. Nid yw y bummed wyl yn y Llyfr Gweddi Gyffredin; ond ceir hi, mewn llythyren goch, yn y Calaniadur Pabaidd. Sylwer fod y flwyddyn eglwysig yn dechreu gyda'r Dawodiad neu Adfent, ac nid gyda'r Calan. Geilw rhai o'r hen amseroniau Cymraeg Wyl Dyrchafiad Mair ym mis Awst yn Wyl Fair gyntaf, yr hyn sydd amryfus, canys y bummed, a'r olaf ond un, ydyw.

o fewn corn y simnai, peidiwch, os ydych gall, â chynnyg ei haflonyddu; canys nid yn unig y mae y perygl dychrynllyd a grybwyllir yn y pennill a ddyfynwyd mewn cyssylltiad â'r dryw, yn sicr o'ch gorddiwes, ond ni ddaw i chwi ddim llwyddiant yn y byd presennol: ac yn y gwrthwyneb, os dygwydda iddi nythu yn rhywle o gylch eich annedd, arwydd dilys ydyw bod Rhagluniaeth wedi cymmeryd sylw o honoch, ac yn dechreu gwenu ar eich gwaith, ac y daw daioni a llwyddiant i chwi

> "O foroedd, ac o fynydd,
> Ac o eigion afonydd,"

ac o bob man arall; byddwch mor ddedwydd a hirddydd haf; a bydd pawb a phob peth o'ch amgylch

> "Mor siriol a gwennol y gwanwyn."

Y mae hyn o goel cyn hyned, o leiaf, ag amser y Rhufeiniaid, canys credid hi yn ddilys ddiammheu yn eu plith hwynt. Dywedir wrthym gan un o'u hawduron, yr hwn a ysgrifenai yn y drydedd ganrif o gyfrif Cred, fod yr adar hyn yn gyssegredig i'r ty-dduwiau, neu dduwiau'r tŷ a'r teulu, a than eu neillduol nodded; ac os niweidiai neb hwynt, y tynai hyny soriant y cyfryw ddwyfolion ar ben y troseddwr.

Y Gog.—Credai yr hen bobl, a chred llawer hyd y dydd heddyw, fod y gog, yr un fath â'r wennol, yn cysgu mewn twll, hacoll, neu agen mewn rhywle cysgodol clyd, i fwrw misoedd y gauaf; ac adroddir am enghreifftiau o'i gwaith yn dadebru yn anamserol pan ddygwyddai iddi fod wedi ymguddio mewn hen foncyff neu geubren, yr hwn a roddid ar y tân ar nos Nadolig, a'i bod yn y cyfryw amgylchiad wedi dechreu ambell waith ar ei chân, gan dybied mai gwres yr haf ydoedd cynhesrwydd y boncyff y llechai ynddo. Y mae hyd yn oed yr adar, sy'n gwybod cymmaint, yn camsynied weithiau.

Y mae amryw bethau pwysig yn dwyn cyssylltiad â dyfodiad a chaniad y gog. Y mae amser nodedig iddi ddechreu ar ei chân; a blwyddyn aflwyddiannus iawn a fydd y flwyddyn, os clyw y gwcw ar ei chalon ganu yn rhy gynnar; canys,

> "Os cân y gog ar ddraenllwyn llwm,
> Gwerth dy geffyl, a phryn dy bwn."

A dylid cofio mai

> "Gwaethaf cynnar, cynnar cog."

Ni ddylai hi gan hyny agoryd ei min nes y bo dail a glesni yn cuddio'r coedydd.

"Mis cyn Calanmai
Y cân y cogau;
Mis cyn hyny
Tyf briallu."

"Amser y gwcw yw Ebrill a Mai,
A hanner Mehefin, chwi wyddoch bob rhai."

Ymddengys felly mai rhyw fis cyn Calanmai (yn ol yr Hen Gyfrif) y dylai cogau iawngred ddechreu ar eu cân; ac ni ddylent ei gadael i fyned yn llawer diweddarach; o herwydd,

"Cwcw Galanmai,
Cosyn dimai;"

sef yw hyny, tebygol, bychan fydd y caws a'r ymenyn y flwyddyn honno, gan nas gellir gwneuthur fawr o honynt. Ond os erys hi ryw dipyn yn hwy heb ddechreu ar ei chyfunllef, bydd llawer gwell llwyddiant ar gynnyrch y llaethdy; canys,

"Cwcw Gwyl y Grog, cosyn ceiniog."

Ond y mae yr amser iddi dewi â'i chân yn fwy pennodol o gryn lawer na'r adeg y mae iddi ddechreu; canys, medd yr hen bobl,

"Wythnos gyfan
Cyn Gwyl Iwan,*

* Felly, ar lafar Dyfed, y seinir enw y Bedyddiwr yn ei gyssylltiad â gwyliau, ffeiriau, ac ag enwau eglwysi. "Gwyl Iwan," neu

Y cwyd y gwcw
Ei chân i gadw."

Y mae o bwys nid bychan pa le y bydder yn sefyll arno pan glywer gyntaf gân y gog. Os ar dir glas porfaog y bydder, yna caiff y dyn hwnw gyflawnder o flith, a phob peth y mae a fyno blith ag ef, trwy gorff y flwyddyn honno: eithr os ar y ffordd fawr, neu ryw sychdir coch, y dygwydd ei fod yn sefyll, prinder a llymder o ddanteithion y maes a'r fuches a fydd ei gyfran. Ac od oes modd, pwysicach fyth fod gan ddyn arian yn ei logell ar y cyfryw adeg; canys fel y byddo pan y clywo'r gog, dyna fel y bydd, o barth arian, trwy gydol yr holl flwyddyn. Y mae llawer, er mwyn rhagflaenu y fath anffawd ddybryd, yn gofalu am gadw rhyw gymmaint o arian yn wastadol yn eu llogellau yn ystod yr amser y disgwylir y gwcw i wneuthur ei hymddangosiad yn y parthau hyny, a dechreu ar ei chyfacen gân. Peth annymunol yw clywed y gog y waith gyntaf pan fyddo dyn yn gorwedd ar ei wely; canys, yn ol yr egwyddor flaenorol, mae yn debyg ddigon mai ar

---

"Wyl Iwan yr Haf," yw dydd Gwyl Sant Ioan Fedyddiwr, y 24ydd o Fehefin. Nid yw *Iwan*, *Ifan*, *Iefan*, *Ieuan*, *Ioan*, *Ion*, *Sion*, ond gwahanol ddulliau o'r enw *Ioannes* neu *Iohannes* (o'r Hebraeg *Iehanan* neu *Iehohanan*).

ei wely y bydd ef y rhan fwyaf o'r flwyddyn; a gall y claf wely droi yn wely angeu iddo ef, neu i ryw aelod o'i deulu, neu i rywun o'i berthynasau.

Yr Alarch.—Gan mai anfynych y daw yr alarch i dir, dywedir mai cywilydd sydd arno weled ei draed, y rhai sy dduon. Nid wyf yn deall fod llawer o chwedlau ar lafar y werin yn ei gylch; a hyny, mae yn debygol, o herwydd mai ychydig o'r adar prydferth hyn a welir yng Nghymru; ond dylid cofio fod eleirch yn llawer amlach yn y wlad gynt nag y maent yn bresennol, fel y mae yn amlwg wrth y mynych gyfeiriadau atynt yng ngwaith y prydyddion. Nid oes gan ein hawdurdod lawysgrifol lawer i'w ddywedyd am yr alarch. "Dwyn alarch mewn arfau, fal y dywed gwŷr dysgedig, yw arwydd bod y cymmerwr cyntaf yn gantor da; canys yn Lladin tebyg yw y ddau henw, ac o hono y daw. Eisioes mae llawer yn dwyn alarchod a'r nid ynt gantorion; a phan ofynwyd pa ham y rhoes yr herod neu'r arwyddfardd iddynt y cyfryw arwydd, ef a ddywad mai achos eu bod yn wŷr gwynion teg â gyddfau hirion iddynt." Nid ymddengys fod ein cydwladwyr yn gydnabyddus iawn â chân flasber yr alarch wrth farw; at

yr hyn y cyfeirir braidd yn amwys yn y dyfyniad rhagflaenorol. Dywed Huw Roberts Lên (neu Rolant Fychan, yn ol ereill) yn ei gân gyfieithedig ar "Gyffelybiaeth Dyn," fod yr einioes ddynol, ym mhlith pethau diflannol ereill, yn

"Ail i dôn yr alarch gwyn,
Pan gano cyn ei ddiwedd."

Y Bioden.—Aderyn cas yw y bioden fraith, ac ysgrêch gas yw ei hysgrêch hi. Os dygwydd i bioden groesi eich llwybr, cyn wired a bod bara mewn torth, nid yw aflwydd a dryglam neppell oddi wrthych.

"Clyw grechwen nerth pen, iaith pi,—yn addaw
Newyddion drwg ini;
Daroganwr drygioni
O'i fin oer yw ef i ni."

Dywedir fod un ffaith yn werth certaid o resymau. Purion; dyma un ffaith o leiaf. Un pen bore troais allan o'm tŷ mewn cerbydan dwy-olwynog; a chyda fy mod ryw hanner milltir o ffordd, dyna bioden yn croesi'r ffordd fawr o'm blaen, bron wrth drwyn y ceffyl, ac yn ysgermain yn adgas. Dywedais wrth yr hon a eisteddai wrth fy ystlys fod anffawd yn sicr o'n goddiweddyd cyn y dychwelem, gan fod pioden

wedi ein croesi; a braidd nad awgrymais yng nghylch y doethineb o droi yn ol, wedi cael y fath rybudd diamwys o'n perygl. Ond ym mlaen yr aethom; a chyn pen deg mynyd, a ni yn myned trwy un o'r afonydd mwyaf yng Ngogledd Cymru, torodd yr echel yn ddau ddarn pan oeddym yng nghanol y llif,ac ymaith ag un o'r olwynion! Ond yn rhyw fodd, megys o fic i ddryganian yr aderyn, daethpwyd i dir,nid yn unig yn ddiangol, ond yn droedsych, ac heb wlychu cymmaint ag un cyrbibyn.

Ond nid drwg i gyd yw gwaith y bioden chwaith. Y mae hi yn medru deall arwyddion y tymmorau i drwch y blewyn, ac y mae ganddi ddull i fynegu hyny i anwybodusion y ddaiar. Y mae hi yn ddigon o athronyddes i wybod fod "dwy gafod dan gysgod;" canys os adeilada hi ei nyth (a nyth gywrain iawn sy ganddi) ym mrig uchaf y goeden, haf gwlyb, oerllyd, fydd yr haf hwnw: ond os isel ym mysg y cangenau y gosodir y nyth, haf sych a fydd y cyfryw dymmor. Os bydd y nyth yn isel y mae dyferion y brigau a'r dail yn disgyn arni, ac, fel yr awgrymwyd, "y mae dau ddyferyn dan lwyn;" ond os uchel y bydd, ni chwymp arni ddim ond defnynau naturiol y gwlaw. Dyna ei hathron-

iaeth hi o barthed gwneuthur ei nyth; ac wrth sylwi ar ei hadeiladaeth y gwyddys pa un ai haf gwlyb ai haf sych sydd i'w ddisgwyl y flwyddyn honno.

Y Frân.—Y mae yr awdurdodau yn amrywio parth teithi y frân; ond bernir fod y credo canlynol yn pwyso ar y gwirionedd chwedlonawl, os cyfarfyddir â chwi gan neb o'r teulu hwn: Un frân, braw, neu anffawd; dwy frân, ffawd, neu ffyniant; tair brân, cariad; pedair brân, priodas. Un frân ddu ar ei phen ei hun sy, gan hyny, i'w drygdybio; eithr nid ymddengys fod brain pob cymmydogaeth yn feddiannol yn gwbl ar yr un cynneddfau. Mewn rhai manau arferir yr ymswyn hwn pan weler brân yn croesi'r llwybr:

"Hen frân ddu,
Gras Duw i mi!"

Mewn parthau ereill priodolir yr hyn a ddywedir yma gyda golwg ar y frân i'r bioden; ond nis gwyddys ar ba sail.

Mewn herodraeth, chwaith, nid oes i'r frân fawr o gymmeriad; canys, "dwyn cogfran, neu frân arall, mewn arfau, a arwyddocâ siaradwr mawr twyllodrus, drwg wrth ei gymmodogion, ac a chwennychai ymddrychafael yn rhy uchel, ac yn ymryson â phawb: canys yr edn hwn

y sydd dra siaradus, a drwg wrth y llafurwyr a pherchen tai; a hefyd cyd bai petrus ganto gyhwrdd â'r eryr, eto er hyny oll, hi a'i dylud dan ehedeg a chrëu, hyd pan ddigio'r eryr wrthi, gwedi dioddef yn hir, a throi ati a'i lladd ne'u briwo."

Y Peleu a'r Giach.—Bu rhyw gymmaint o anghydweled unwaith rhwng y peleu a'r giach, a dechreuasant ymddifenwi ac ymedliw fel hyn:

"'Giach y garrau,'
Myntai'r peleu:
'Peleu du bach,'
Myntai'r giach.'"

Ac ar hyn ymddengys iddynt ymdawelu; canys nid oes hanes iddynt fyned "o ymdaeru i ymdaro."

Y Cornicyll.—Cornicyll yw yr enw a roddir yn Neheubarth i'r aderyn a elwir *cornchwigl* neu *gornchwiglen* yng Ngwynedd, a *chorn y wich* mewn rhai parthau o Bowys. Ei hoff gynniweirfa yw rhosdir uchel, oerllyd, digoed, digysgod, lle nid oes llawer o bobl yn tramwy ac yn ei aflonyddu. Y mae yr aderyn yn ddigon adnabyddus, ond nid pawb sydd yn gwybod ei gân, yr hon sydd yn amrywio yn ol y tymmor o'r flwyddyn. Dyma hi:

Yn y *gauaf:*

"Os byddaf byw un haf ond hyn,
Mi godaf dŷ o do gwyn gwyn."

Yn yr *haf:*

"Pwy godai dŷ o do gwyn gwyn,
A bod yr haf mor deg a hyn?"

Ac felly mae yr aderyn heb ddiddos uwch ei ben trwy holl ystod ei oes. *Capan cornicyll* y gelwir cap a wneir gan blant ym misoedd yr haf o frwyn gleision ar lun diffoddyr canwyll, neu dorth suwgr; a derbyn ei enw oddi wrth ei debygrwydd i gopa'r cornicyll, yr hon a godir ac a ostyngir ganddo wrth ei ewyllys. Geilw'r Seison gapan o'r dull hwn ar enw llai destlus, yr hwn a ellir ei gyfieithu yn gapan ffwl, neu gap ynfytyn.

Y Crëyr Glas.—Y mae'r crëyr glas, a elwir hefyd y *crechydd* neu'r *crychydd* (o blegid ei ysgrêch anhylon), yn ehedeg i fyny yng ngwrthwyneb y llif, o flaen gwlaw. Pan weler ef yn ehedeg felly, dywedir ei fod yn myned i fyny i ymofyn am wlaw. O'r tu arall, os ehedeg i lawr gyda'r llif neu yr afon a wna, yna arwydd dilys o degwch hin ydyw. Y mae'r crechydd yn deneu fel yspyttrych ar wendid y lleuad, ond

yn dew ei wala pan fyddo hi ar gynnydd. Y mae yn gorwedd yn ei nyth â'i draed yn ymestyn tuag yn ol allan drwyddi.

Y Golomen.—Od oes un aderyn diddrwg, diadwyth, i'w gael ym mhlith holl lwythau adeiniog yr awyr, gallesid, ar dir teg, ddisgwyl taw y golomen wirion a fuasai yr aderyn hwnw: ond, ysywaeth, nid felly y mae. Ym mhlith y pethau argoeliog ereill y mae a fyno'r golomen â hwynt, dylid crybwyll mai cig colomen yw y peth olaf oll y mae y claf yn gofyn am dano pan y byddo ar fin trancedigaeth. Os clywch y claf yn ceisio tamaid o gig colomen, gellwch fod yn sicr mai hwnw yw y tameidyn diweddaf a gais efe ei fwyta, ac na ofyn am un tamaid byth ar ei ol. Rhagflaenor uniongyrchol angeu yw y dymuniad hwnw; a phan ei gwneler, gellir parotoi yr arch, a gorchymmyn yr amdo. Y mae awydd am gig colomen, mor sicr a "gwanc y pridd," yn dangos fod angeu wrth y drws, os nad yw eisoes wedi camu dros y trothwy.

Ac nid hyn mo'r cwbl. Prin y gall dyn gael marw os bydd pluf y golomen yn y gwely y gorwedd arno, neu yn y gobenydd a fyddo dan ei ben; a llawer un, wrth ymrwyfo ac "ymdrechu â galluoedd angeu mawr," a lusgwyd o'i wely

i'r llofft neu i'r llawr, o herwydd ei fod yn "methu â marw," neu yn "marw yn galed," o blegid ei fod, neu y tybid ei fod, yn gorwedd ar bluf colomen! Ac o herwydd yr adwyth cydfynedol â phresennoldeb y pluf hyn, arfer rhai yw eu dyfetha cyn gynted ag y tyner hwynt oddi ar yr aderyn, rhag iddynt, o ddamwain, fyned yn gymmysg â rhyw bluf ereill, ac felly myned i wely, neu obenydd, neu glustog. Nid oes dim sicrwydd chwaith nad yw wyau colomen, os cedwir hwynt yn y tŷ, yn tueddu i ddwyn rhyw aflwydd ac anffawd iddo; ac o herwydd pa ham dymunolach gan lawer eu lle na'u cymdeithas.

Ond y mae un peth nodedig i'w ddywedyd o blaid y golomen, ac ni ddylid mewn un modd ei adael heb ei grybwyll. Nis gall yr Un drwg o'r fallgyrch eirias gymmeryd arno rith colomen. Colomen a dafad yw yr unig greaduriaid nas geill ef gymmeryd eu llun arno. Gall, fel y gwyddys, ymrithio fel angel goleuni, ac fel mil a mwy o bethau ereill; ond nis geill ymrithio ar wedd colomen, nac ar lun llwdn dafad.

Mewn arfau bonedd ymddrycha'r golomen yn y wedd hon: "Colomen y sydd edn hynaws, difalais, ac a gâr gydymddeithas dynion, a lle bônt

yn tramwy; ac edn dryg-gofus ofnog yw: canys anfynych y bydd diogel . . . onid tra fo yn ei thwll. Ac am hyny dwyn colomen mewn arfau a arwyddocâ wr diddrwg hynaws, a bod yn fwy ei amddiried yn ei gydymddeithion nog yn ei nerth a'i wrolder ei hun. A'r rhyw arfau â hyn a wedda i herod eu dwyn a'r a adawai ei gelfyddyd, ac a gymmerai arfau iddo ac i'w etifeddion. Ierom, yn ei bedwerydd llyfr, a ddywed y dysgir colomenod yn yr Aipht a Siria i ddwyn llythyrau o'r naill wlad i'r llall; ac â hyn y mae Bartholimæus yn cyttuno."

Y Ceiliog.—Aderyn hirben iawn yw y ceiliog, ac y mae y dyfodiant, i raddau pell, wedi ei ddadguddio iddo. Os cân ef ar y gwlaw, ceir ei gweled yn dechreu hinddanu yn ebrwydd; a gellwch fod yn sicr y ceir hinon am weddill y dydd. Ond peth difrifol yw ei glywed yn canu ar y glwyd cyn hanner nos; canys, os gwna felly, mae angeu yn yr amgylchoedd: ac os at eich tŷ annedd chwi y bydd ei ben pan y cano, yn eich tŷ chwi y dygwydd y farwolaeth; a gellir bod yn sicr nad yw yr amgylchiad athrist neppell oddi wrthych. Nid oes dim niwed, na thebyg i niwed, yn ei gân blygeiniol, ac nid gwaeth pa ffordd y bydd ei ben y pryd hwnw.

Y mae *lliw* y ceiliog, yn gystal a lliw cath, o bwys mawr; o leiaf y mae ceiliog gwyn yn ddilys ddigon o ddwyn drygfyd a thrychineb gydag ef; a'r 'cam cyntaf yw'r cam goreu i gael gwared o hono, er croewed ei gân, ac er coched ei grib. Y lliw adwythig ar geiliog yw *gwyn*, a'r lliw anffodiog ar gath yw *du;* a phrin y gwyddys pa un y gwaethaf o honynt; o herwydd pa ham cynghor yr hen bobl ragorol gynt ydoedd,

> "Na chadw byth yng nghylch dy dŷ
> Na cheiliog gwyn na chath ddu."

Un tro, tua deng mlynedd yn ol, yr oedd boneddiges yn dygwydd bod yn ymddiddan â gwraig amaethwr cyfagos, yn y cae tŷ, mewn plwyf ym Meirion, pryd y brasgamodd clamp o geiliog gwyn golygus heibio iddynt, yn ei ddull hoewych arferol. Ebai hi yn ysmala wrth y wraig, "Yr ydych yn cadw ceiliog gwyn, Gwen; ai ni chlywsoch chwi erioed mo'r hen ddywediad fod cadw ceiliog gwyn yn beth anffodus," gan adrodd, er prawf, y ddwy linell uchod? "Dal y ceiliog yna, Modlen," ebai y wraig wrth lafnes o ferch iddi a ddygwyddai fod yn ei hymyl ar y pryd; "dal y ceiliog yna." Daliodd Modlen y ceiliog yn y fan, gan ei ddwyn at ei mam; a

chyn i'r foneddiges gael hamdden i droi ei thafod yn ei phen, na chael amser i rifo dimai, na dychymmygu beth oedd i ddygwydd, chweithach i eiriol ar ran y ceiliog, yr oedd y ceiliog yn fyr o'i ben! "Dyna," ebai'r wraig, "ni bu yma fawr o lwyddiant, na llun ar ddim er ys rhai blynyddoedd; yr oedd hi yn hywyr lladd yr hen chwiwgi!" A dilys ganddi mai y ceiliog gwyn oedd wrth wreiddyn yr holl ddrwg.

Yng nghysswllt â'r ceiliog, dylid crybwyll mai peth drwg ei argoel yw i'r iâr ganu fel ceiliog; canys os cynnygia hi hyny, y mae yn ddiammheu fod rhyw anffawd yn y gwynt. Mewn gair, y mae clywed iâr yn ceisio canu fel ceiliog, yn arwydd mor ddrwg ag yw clywed benyw yn ceisio chwibanu. Un i'w gochel ar bob cyfrif yw y fenyw chwibanllyd; canys ei hamcan yn ddiau yw "codi cythreuliaid."

O ddiffyg lle ac amser, rhaid "gadael allan lawer o bethau buddiol," ys dywedai Rhys y Goes Bren am ei gawdel; a gobeithir cael adeg arall i "fanylu" ar y ci, yr ysgyfarnog, y wenci, aderyn y corff, ac ereill amryw, y rhai sydd oll yn fwy neu lai hyddysg yn nirgelion yr amser a ddaw; canys,

"Digon sy ddigon, gormodedd sy flin."

Bwci Bryn Rhosog.

BRYN RHOSOG sy gefn noethlwm anffrwythlawn ym mhlwyf Llanilar, yn Sir Aberteifi. Amgylchynir ef gan rai ffermau rhagorol. Bu llawer cynnyg ar ei amaethu, ond tebygol yw ei fod yn ddaiar wael; ond mwy na'r cwbl, mae y lle "wedi ei reibio." Beth bynnag yw y rheswm, diffrwyth y myn fod, a digon digynnyrch. Hen ros arw ydyw, fel y mae yr enw yn dangos, lle na fyn yr un creadur defnyddiol fywiolaethu arno; ond gellir ei alw yn baradwys brogaod, cornicyll y waen, y crychydd, ac yn benaf o'r cwbl, y *bwci*, neu *fwgan*, neu *fwbach*. Ond y blaenaf o'r enwau hyn ydyw enw priodol y bod lledrithiol ag y sydd yn cyfanneddu y rhosydd hyn, er ys rhai oesoedd, gellid tybio.

Bydd y bwci yn ymddangos weithiau yn debyg i ddyn; bryd arall fel rhyw fwystfil cymmysgryw; ond y rhan amlaf yn belen fawr o dân yn treiglo dros y lle gyda chyflymder. Canfu yr ysgrifenydd y tân er ys llawer blwyddyn yn ol; ond ni fu yn agos ato; barnai ar y pryd, er hyny, ei fod yn llawn digon agos. Yr oedd anghredwyr yn y byd y dyddiau hyny,

ond ychydig nifer oeddynt; ond yr oedd corff y boblogaeth yn uniawngred ar y pwnc. Barnent taw ymwelydd diammheuol o fyd arall ydoedd, ond nis gallent ddychymmygu yr achos o'r ymweliad. Bu llawer un yn *bwriadu* crynoi digon o wroldeb i fyned yno i'w holi beth oedd ei neges, ond yr oeddynt yn rhy ddigalon i gario eu penderfyniad allan; ac nis gwyddom ond am un erioed yn ystod yr holl amser a fu yn ddigon gwrol i wneyd y cynnyg. Hwn oedd ddyn a adwaenid wrth yr enw Siacci Lletty Sinsir. Haerai rhywrai nad oedd Siacci yn " llawn llathen " o fesur, fel y dywedir; ac eto, ym mha beth yr oedd y diffyg, yr oedd yn anhawdd gwybod. Cymmerai arno ei fod yn feddiannol ar y dawn barddonol, a byddai yn adrodd ambell rigwm o'i gynnyrchion ei hun yn fynych wrth y cymmydogion; a chan fod y bwci yn destun siarad bob amser ym mron, a phawb yn teimlo ei bod yn drueni na byddai rhywrai yn anturio ato er mwyn i'r yspryd gael llonyddwch, yn gystal a'r cymmydogion dychrynedig ar ol hyn. Teimlodd Siacci mai efe oedd yr unig un teilwng at y gorchwyl, a chyfansoddodd ddwy linell farddonol mewn ffordd o ofyniad iddo.

Rhyw noson dywell aeth wrtho ei hun (nid

yw ysprydion byth yn dewis cwrdd â dau) tua'r Rhos; arosodd yno hyd hanner nos i'w ddisgwyl; a thoc dyma y bwci yn dyfod ar lun "rhywbeth tebyg iawn i ddyn," ac yn sefyll ar gyfer Siacci, yr hwn a'i cyfarchodd fel hyn:

"Bwci Bryn Rhosog,
Ar bwy'r wyt ti'n gosod?"

Ond druan o Siacci! yr oedd y bwci yn gystal bardd ag yntau, a gwell hefyd, o herwydd fe'i hatebodd mewn mynyd â'r ddwy linell a ganlyn:

"Arnat ti, Siacci,
Os dali di ati."

A chyda hyn gwelai dân yn saethu allan o eneu y bwci, a hefyd o'i ddau lygad, y rhai oeddynt (fel y dywedai ein harwr) gymmaint o faint a'r ddwy lamp a welsai yn yr eglwys fore'r plygain.

Methodd Siacci, druan, "ddal ati," a ffwrdd yr aeth nerth ei bedion, nas gwyddai yn y byd i ba le. Cafwyd ef bore drannoeth tua chwe milltir oddi yno, heb wybod dim wrtho ei hun. Cludwyd ef adref mewn trol, a bu yn sal iawn mewn twymyn am bum wythnos; gwellaodd yn raddol, ond ni ddaeth "byth yr un dyn" ar ol y tro hwn.

Terfynwn hyn o hanes (fel y dywed y "gen-

euau cyhoeddus") gydag ychydig o gasgliadau oddi wrth yr hyn a adroddwyd. Gwelwn, yn gyntaf, ei bod yn rhy beryglus i neb, pwy bynnag a fyddo, fyned i geisio gwybod dim o'r dirgelion sydd yn guddiedig gan fodau tanllyd o fyd arall; ac yn ail, taw ffolineb yw i'r beirdd ymgystadlu â bwcïod, o herwydd maent yn deall yr odlau yn llawer gwell na beirdd daiarol, fel y gwelir uchod; a'n bod ninnau, fel beirniaid cydwybodol, yn rhoddi y wobr i'r bwci am y cyfansoddiad goreu a fu yn y gystadleuaeth nosawl a gynnaliwyd ar y Bryn Rhosog.

Ysgolheigion Ystrad Meurig.

CYFRIFID yr hyglod Edward Rhisiart, sefydlydd ac Athraw cyntaf Ysgol Ystrad Meurig, gan ei gymmydogion a'i gydwladwyr, yn hynod o ddysgedig. Bernid ef ganddynt hwy y mwyaf dysgedig yn Ewrop, ac yn sicr, y penaf yn yr holl fyd am addysgu ereill. Credent hefyd, am ei fod yn ddysgedig, â chanddo gymmaint o lyfrau, ei fod yn medru consurio, ond nid agos cystal a'i olynydd, sef y Parchedig John Williams (tad yr enwog Archiagon Williams), yr hwn a adnabyddid drwy yr

holl wlad wrth yr enw *Yr Hen Syr*. Yr oedd hwnw yn gallu gwneyd beth bynnag a ddymunai. Yr oedd y fantais ganddo yn hyny yn fawr ar Edward Rhisiart, o herwydd ei fod yn offeiriad hefyd. Yr oedd pob offeiriad yn medru gwneyd rhyw gymmaint ar hyny; ond po mwyaf dysgedig a fyddai hyd yn oed offeiriad, mwyaf yn y byd o allu a fyddai ganddo i "godi ac i ddarostwng cythreuliaid."

Rhyw ddeugain mlynedd yn ol, clywais y chwedl a ganlyn gan hen lanc, yr hwn oedd y pryd hwnw yn tynu ar ei bedwar ugain, yr hwn a dystiai fod yr hanesyn "mor wir a'r pader." Rhaid i'r darllenydd farnu yn hyn drosto ei hun, fel y gorfu arnaf finnau wneuthur.

Mewn ymddiddan ryw bryd rhwng Edward Rhisiart, Penaeth Ysgol Ystrad Meurig, a gwr dysgedig arall, Penaeth Coleg Rhydychain (o blegid, gallwn feddwl, nad oedd ond *un* Coleg yn Rhydychain), yng nghylch eu hysgolheigion, nid oedd dim diwedd ar ganmoliaeth y gwr hwnw i ysgolheigion Rhydychain. "Wel," ebai Edward Rhisiart, "nid yw eich ysgolheigion goreu chwi yno ddim ar y blaen ar fy mechgyn innau." "O'r anwyl, ydynt!" ebai hwnw; "nid oes dim cymhariaeth rhyngddynt." "O, wel,"

ebai Edward Rhisiart, "y ffordd oreu yw eu treio, ac," ebai, "fe ddaliaf fi gan gini ar fy mechgyn i ym mhen eich cant chwithau ar eich bechgyn." "Purion," meddai hwnw, "dyna ben." Ac felly y gwnaed y cyttundeb; ymrwymodd Penaeth Rhydychain ddyfod â deuddeg o'r bechgyn goreu oedd ganddo ar ddiwrnod pennodol i lawr yr holl ffordd oddi yno i Ystrad Meurig, ac yntau gyda hwy; ac wedi gosod holl reolau y cyttundeb "ar ddu a gwyn," fel y dywedir, ymadawyd.

Dydd yr ymdrech fawr a ddaeth, a chymmerodd Edward Rhisiart ddeuddeg o'r bechgyn goreu yn yr ysgol, a pharodd iddynt roddi am danynt hen ddillad cloddwyr, a chymmeryd pawb ei gaib a'i raw, a myned ym mlaen rhwng Ystrad Meurig a Phontbren Meurig, a dechreu ar gloddio, gan roddi iddynt bob hyfforddiad pa fodd i ymddwyn pan y deuai y Rhydycheiniaid atynt: a thra yr oeddynt yn ddiwyd wrth y gwaith o gloddio, beth a welent ond y Rhydycheiniaid yn dyfod i lawr dros gefn Ffair Rhos yn fintai ar eu ceffylau. Pan ddaethant ym mlaen drwy yr afon Meurig, ebai y cyntaf o honynt wrth y cloddiwr nesaf ato, "*What is the distance to Ystrad Meurig?*" Atebodd hwnw

ef mewn Lladin o'r fath berffeithiaf. Gofynwyd i'r ail; atebodd hwnw ef yn y Groeg mwyaf pur; ac at y nesaf, atebwyd ef gan hwnw mewn Hebraeg diledryw; ac felly nes myned dros y rhan fwyaf o honynt. Yr oeddynt wedi synu; ac wedi myned heibio i'r cloddwyr, cadwasant bwyllgor i ystyried pa beth oedd oreu i'w wneyd. Yr oeddynt yn hollol ddigalon, "canys," meddent, "gan fod y cloddwyr tlodaidd cyffredin yn ein hateb mor ddysgedig, beth a all fod yr ysgolheigion goreu yn yr ysgol?" Mynai rhai o honynt droi yn eu hol cyn myned ym mhellach; a bu agos i'r fantol droi i'r cyfeiriad hwnw. Barnai ereill taw gwell iddynt fyned yn eu blaen, gan eu bod wedi dyfod mor agos; ac ym mlaen yr aethant i'r pentref; ac wedi "tynu i lawr," a rhoi eu ceffylau yn yr ystablau, cawsant bob amgeledd gan Edward Rhisiart a Gwenllian ei fam, y rhai oedd yn byw mewn tafarndy bychan to gwellt. Siomwyd hwy yn ddirfawr wrth weled y pentref â golwg mor dlodaidd arno, ac yn enwedig y Coleg; disgwylient hwy weled adeilad eang hardd, a'i dyrau yn esgyn i'r cymylau; ond yn lle hyny arweiniwyd hwynt i mewn i hen fwthyn isel hirgul, wedi ei adeiladu â cherryg geirwon a morter pridd, a tho brwyn arno,

a simddai yn un pen, a thanllwyth o dân ar lawr o fawn "Cors Lan Teifi;" a'r myfyrwyr yn eu llodrau *rib* a huganau o frethyn cartref o wlan du'r ddafad, yn rhaffo yr ieithoedd dysgedig, nes yr oedd myfyrwyr boneddigaidd Rhydychain wedi eu taro â syndod. Yr oedd Edward Rhisiart, dealler, wedi rhoddi gorchymmyn i'r bechgyn newid eu dillad, ac ymolchi, a myned at eu gwersi.

"Wel," ebai Edward Rhisiart, "a gawn ni ddechreu?" "Na, yn wir," ebai Penaeth Coleg Rhydychain, "yr wyf yn rhoddi i fyny; cawsom ein digaloni, a dweyd y gwir, ychydig cyn dyfod yma;" ac adroddodd pa fodd y bu gyda'r cloddwyr; a'i fod yn gweled nad oedd ganddo yr un siawns gyda'r fath ysgolheigion ag oedd yno. "Wel," ebai Edward Rhisiart, "nid yw y cloddwyr hyny yn eithriad i holl gloddwyr ac amaethwyr y gymmydogaeth hon o amgylch." Synai hwnw yn fawr, gan ddywedyd fod gwahaniaeth dirfawr rhwng trigolion Cymru a thrigolion Lloegr. "Dyma y *can gini*," ebai efe; "chwi a'i piau hi o ddigon." Ymadawyd ar y telerau goreu. Aeth Penathraw Rhydychain a'i fechgyn yn eu hol, ond nid heb gael tâl da am y siwrnai, drwy sylwi ar y dull a'r de-

heurwydd anghymharol oedd gan Edward Rhisiart i gyfranu addysg; a bu addysg Coleg Rhydychain yn llawer amgenach ar ol y tro bythgofiadwy hwn: *ond dim byd i'w gymharu ag addysg Ystrad Meurig.*

Y Llaw Oer.

Y MAE tri pheth neillduol yn nodweddu pob bwgan, os bydd o'r iawn ryw, ac yn uniawn ei gred; sef, nas gall, neu nas myn, siarad ond â rhyw un pennodol o holl ddynion y byd; nas gall, neu nas myn, siarad â'r un hwnw, ond pan fyddo ar ei ben ei hun; ac nas gall, neu nas myn, ddechreu yr ymddiddan. O fewn holl gylch llenoriaeth bwcïod nid oes hanes fod neb o honynt erioed wedi agoryd ei ben wrth neb, os byddai rhywun arall yn wyddfodol. Nid gwaeth i chwi geisio cael bwch i'r odyn na cheisio gan fwgan ddechreu siarad cyn y siaredir ag ef; rhaid i'r dyn y byddo ef wedi penderfynu siarad ag ef, neu wedi cael ei orfodi i wneuthur hyny, ei gyfarch ef yn gyntaf; os amgen, ni fynega yr ellyll mo'i neges; a hyd oni chaffo arllwys ei gwd a thraethu y chwedl sy ganddo i'w hadrodd, ni chaiff y dyn hwnw byth lonydd ganddo.

Un tro yr oedd bwgan wedi gosod ei nod ar forwyn weini mewn amaethdy, ac â hi, ac nid â neb arall, y mynai ymddiddan. Deallwyd hyn wrth ei fod yn ei dilyn braidd i bob man, ac yn ymddangos iddi ym mhob rhith ac ystum ar bob achos a chyfle, a thawelwch nid oedd iddi. Ond yr oedd arni hi ddychryn wrth feddwl am gynnal y fath gynnadledd â'r bwci bal; a gwarchodid hi yn ofalus rhag dygwydd iddo gael cyfle arni wrthi ei hunan. Yn y dydd edrychid ar fod rhyw un neu chwaneg gyda hi pa le bynnag yr elai; ac yn y nos cysgai rhwng dwy o'i chyd-forwynion; felly nid hawdd oedd i'r bwci gael cyfle arni; ac oferedd oedd iddo feddwl cael ymgomio â hi. Ond ar ryw fore yn yr haf, damweiniodd iddi aros yn y gwely ychydig ar ol ei chyd-forwynion, a syrthiodd i gysgu. Aeth y morwynion ereill allan o'r ystafell, ac ni feddyliodd neb y gallasai, a hi yn ddydd goleu, ddyfod o ddim yno i'w haflonyddu. Eithr pan yr oedd hi fel hyn yn cysgu, ag un fraich iddi yn hytrach dros erchwyn y gwely, dyna rywbeth oer arswydus, saith oerach na thalp o ia mis Ionawr, yn ymaflyd yn ei llaw; a chan yr ias aethus a dreiddiodd drwy bob cymmal iddi, hi a ddeffrôdd yn drachwyllt; a phwy

oedd yno yn sefyll yn ei hymyl ac yn ymaflyd yn ei llaw ond y bwgan! Nid oedd modd ei ysgoi; ymwrolodd hithau gan hyny i agor yr ymddiddan ag ef yn y dull uniongred arferol; canys rhaid cyfarch ysprydion yn yr Enw Dwyfol, os byddir am gael ganddynt ddadgan eu cennadwri. Traethodd yntau ei neges wrthi, gan fynegi yr achos ei fod yn ei haflonyddu, a'r boen a barai hi iddo wrth ymgadw rhag siarad ag ef. Dywedodd wrthi fod hen bedol, neu ryw ddarn o haiarn, neu ryw faint o arian, neu ryw gêr o'r fath, yng nghudd yn rhywle, a'i bod hithau i fyned yno a chyrchu y cyfryw, a gwneuthur y peth a'r peth â hwynt. Ac wedi traethu o hono ei lên wrthi, diflannodd, a hyny gyda llai o dwrf nag y bydd arferol gan fwganod ei wneuthur wrth ymadael. Gwnaeth yr eneth yn ol ei gyfarwyddyd, a chafodd lonydd byth o'r dydd hwnw allan.

Pa ham y mae dwylaw bwganod mor ddychrynllyd o oer? Ai rhy wylaidd ydynt i nesu at dân ac ymdwymo? Ond bid yr achos y peth y byddo, dwylaw oerion ofnadwy sy ganddynt; ac os ydynt felly yn yr haf, fel y tro hwn, rhaid bod yr ewinrew wyllt ar bob cymmal iddynt yn y gauaf; gan fod eu hoerni ar bob amgylchiad

y cafwyd prawf arno, yn ddigon i dreiddio trwy fêr esgyrn y neb y gorfydd arno eu teimlo.

Cwpan Nant Eos.

YCHYDIG iawn sydd yn ein gwlad, yn enwedig yn y rhan uchaf o Sir Aberteifi, heb weled Cwpan Nant Eos, neu glywed am dano. Cwpan pren lled fychan ydyw, yr hwn a ddeil yn agos i beint; a'i rinweddau meddyginiaethol sydd anghredadwy, o herwydd wedi i bob peth arall fethu, defnyddio hwn a rydd wellâd anffaeledig. Dealler ei fod wedi cael ei lunio allan o'r pren croes ar yr hwn y croeshoeliwyd ein Hiachawdwr, ac felly mae wedi bod drwy yr oesau o fendith ammhrisiadwy i rai oedd yn dioddef oddi wrth y gwaedlif.

Pwy a'i gwnaeth, a pha fodd y daeth i feddiant teulu Nant Eos, sy guddiedig oddi wrthym ni; digon i ni ac i'n holafiaid yw bod ei rinwedd yn parhau er gwellâd, fel ag y bu i'n teidiau a'u teidiau hwythau yn ol am ddeunaw cant o flynyddoedd. Drwy hynawsedd y teulu rhoddir ei fenthyg i bawb "yn rhad ac am ddim;" ond er mwyn sicrhau ei ddychweliad, rhaid i'r benthyciwr adael rhyw beth yn wystl am dano. Yr

arferiad, y rhan amlaf, yw gadael oriawr yno wrth ei gael. Mae golwg henafol dros ben arno. Bu iddo gracio ryw bryd, a darfu i'r perchenog ei anfon i Lundain, a rhoddwyd cylch aur am dano; ond camgymmeriad dybryd oedd hyny; darfu ei rinwedd feddyginaethol yn y fan, ac yr oedd yn rhywyr tynu y cylch aur ymaith; ac felly y gwnaed, ac y mae ol y cylch ar ei ymyl hyd y dydd heddyw. Y mae darn bychan o'i ochr wedi cwympo ymaith a'i golli; ond nid yw hyny wedi dinystrio dim ar ei allu iachaol, pan y byddo rhyw un yn cael ei flino gan yr anhwyldeb a enwyd. Cyrchir y cwpan o Nant Eos, a cheir cyfarwyddiadau wrth ei gael pa fodd i'w ddefnyddio, yr hyn sydd yn ddigon syml,—sef, bod i'r dioddefydd gymmeryd ei holl ymborth, beth bynnag a fyddo, gwlyb neu sych, am ychydig ddyddiau o'r cwpan dywededig, ac yna nid oes dim perygl am dano; aiff yn holliach. Y mae dim ond yfed y dwfr o hono yn unig wedi profi yr un mor effeithiol.

Mae yn awr ar fin hanner can mlynedd er pan y bu ysgrifenydd y llinellau hyn gydag ewythr iddo yn ei hol o Nant Eos at wellâu gwraig yn Sir Fynwy ag oedd yn dioddef oddi wrth yr anhwyldeb a grybwyllasom. Yr oedd yn anhawdd

ganddynt ei roddi i fyned mor bell; ond drwy daerineb fy ewythr yn dadleu fod y clefyd bron â therfynu yn angeuol, a hynawsedd hen geidwades y tŷ, ac iddo yntau adael ei oriawr, gwerth saith punt, yn wystl, llwyddwyd i'w gael; ac aethom adref yn ysgafndroed dros ben; a byddai fy ewythr yn teimlo ei logell yn aml, rhag ofn ei fod wedi ei golli. Gwelsom y cwpan ar ei ddychweliad yn ol o Sir Fynwy, gyda thystiolaeth ei fod wedi cwbl iachäu y wraig o'r clefyd peryglus y dioddefai oddi wrtho. Nid ydym yn gwybod a ydyw y genedl anffyddiol sydd yn byw yn awr yn gwneyd defnydd o'r cwpan; ofnwn eu bod yn rhoddi gormod o grediniaeth i'r lluaws meddygon sydd yn ein plith, y rhai, er mwyn gwthio eu sothach eu hunain, sydd yn ysgwyd pen, ac yn condemnio hen feddyginaethau sydd wedi bod o gymmaint bendith i genedlaethau a fuant, ac yn esgeuluso gwneyd defnydd o'r hen gwpan syml o Nant Eos.

Bwci Melyn Bach y Cwm.

NID yn gyffredin y mae bwcïod neu ysprydion plant i'w gweled neu i'w clywed, ac nid yn fynych y cofnodir eu bod yn arfer ym-

rithio ar lun plentyn; ond y mae hyny yn dygwydd ambell waith; a hyny, mae yn debyg, pan y byddo plentyn diniwed wedi cael cam gan rywrai, neu, ef allai, wedi cael ei lofruddio gan ryw anghenfil neu anghenfiles yn dwyn delw dyn. Eithr y mae yspryd plant weithiau yn ymlwybran ar hyd y ddaiar, ac yn aflonyddu tawelwch marwolion. Un o'r cyfryw ydoedd "Bwci Melyn Bach y Cwm." Y lle yr arferid ei weled a'i glywed, a'r lle hefyd y derbyniodd ei enw oddi wrtho, ydoedd amaethdy o'r enw Cwm Coednerth, yn nyffryn Tredrëyr, ym mharth isaf Ceredigion. Gelwid ef yn "fwci *melyn bach*," o blegid mai ar wedd plentyn bychan wedi ymwisgo mewn dillad melynion yr ymddangosai bob amser; a llef alaethus plentyn diamgeledd ydoedd ei lef. Nid oes disgwyl i fwci plentyn gyflawnu rhyw lawer o orchestion; ac yn unol â hyn, nid rhyw lawer o rymusderau a wnaeth y bwci plentynaidd hwn; ond eto yr oedd yn fwci o gryn bwys yn ei ddydd, ac yn fynych yn destun siarad yr holl gymmydogaeth.

Un tro yr oedd rhyw un yn dyfod at y tŷ, heb wybod dim fod Cwm Coednerth yn arfer cadw a chynnal bwci, a gwelodd blentyn, mewn

gwisg felen oll, yn gorwedd yn ymyl ei lwybr, ac yn wylo yn irad. Amcanodd y dyn ei godi yn ei freichiau; ond noethodd y bwci ei ddannedd yn ysgyrnyglyd arno, a chiliodd y dyn yn ei wrthol mewn dychryn; ac nid rhyfedd, canys yn y fath amgylchiad,

> "Pa enaid ni naid yn ol
> O sydyn fraw arswydol?"

Ar ryw dro arall gwelodd dyn dieithr ef yn rhywle o gwmpas y tŷ, a phlygodd i'w godi a'i amgeleddu; ond aeth y plentyn melyn wylofus yn llynwyn o waed rhwng ei ddwylaw!

Rhyw fân gastiau plentynaidd o'r natur yma, a'u cyffelyb, a chwareuid gan "Fwci Melyn Bach y Cwm."

Yn ol braint a defod bwcïod yn gyffredin, nid oes dim sicrwydd beth oedd achos y bwci bychanig hwn; ond barnai y dysgedigion, a sisialai y werin, fod plentyn diniwed wedi cael ei lofruddio ryw bryd gan rai o hen breswylwyr y Cwm.

Pennillion.

27.

MAE plas ym Mhant Ysgawen,
Am dano mawr yw'r son;
Mi welais Wâl y Filast,
A rhedyn am ei fon;
Mae carreg ar ben Rhiwtin,
Ac wrth y cornel dŷ:—
Mae gofid ar fy nghalon
Wrth wel'd y byd y sy.

28.

Brysia'n ol, a dywed imi
Pa fodd y mae'r cyfolwg arni;
A dwg y serch o wreiddiau'm calon,
A'i ganu ganwaith i liw'r hinon.

29.

Bydd drugarog, wenddyn fwyn,
A gwrando'm cwyn alaethus;
Mi sy fab, wen fawr ei bri,
Am danat ti'n alarus:
Ac os byddi wraig, liw'r haf,
I'th garwr claf wylofus,
Tra fo ynof anal chwyth
Mi fyddaf byth yn hapus.

30.

Amser fu, ac amser fydd,
  Ag amser sydd i bob rhyw hân:
Am hyny, medd yr henwr doeth,
  Y rhai ni ddoeth, nhw ddeuan'.

31.

Gwed yn ddifrad gyda'r gennad
  Pam y cedwi ddau mewn tel?
Peth afresymol, feinir fanol,
  Yw gwneuthur ffol o fachgen ffel.

32.

Hawdd rhifo'r ser, os gwr a ddyd
Ar hyny'n llwyr ei serch a'i fryd;
A rhagoroldeb o bob rhyw
Nid anhawdd yw cyrhaeddyd.

33.

Mae'r gwyntoedd yn gostegu,
Mae pawb yn myn'd i gysgu;
Mae mab yn d'aros yn y llwyn,
Y gatten fwyn lygeittu!

34.

  Mi welais ferch benchwiban
  Yn ochr llwyn o raban,
  Ac yn llefain, och! yn drwm,
"Mi gollais glwm o ruban."

35.

Taen dy wely cyn y nos;
Edrych cyn rhoi naid i'r ffos:
Os cynddeiriog fydd y ci
Na cherdda di yn agos.

36.

Cais chwilio perfedd pob dygwyddiad,
Achos, ymmod, a dechreuad,
Ag eithaf pwyll dynoldeb hywall;
Cyn barnu ar ddim cais gyfiawn ddeall.

37.

Ti'r cantor du pigfelyn,
Hed drosof at f'anwylddyn;
A gwed nad oes un gair o'm pen,
Ond enwi gwen lliw'r hiffyn.

38.

Merch ifanc wy'n ei hoffi,
Dyn wasg-fain, ysgawn, wisgi;
A'r man lle sango'r deg ei dawn,
Ni phlyg y cawn ddim dani.

39.

Tebyg ydwyf i ddylluan;
O bren i bren bydd honno'i hunan;
A phob 'deryn yn ei churo:
Tebyg iawn wyf finnau i honno.

Neu fel hyn:

Tebyg iawn wyt i'r ddylluan;
O bren i bren bydd honno ei hunan;
A phob 'deryn yn ei churo:
Tebyg iawn wyt ti i honno.

40.

Tref y Ddôl a Thal y Bont,
A chwrw stont Siân Morgan,
A'r gwaith yn brin ym mwyn y plwm,
A'm gwnaeth yn llwm o arian.

41.

Tri pheth nis gallaf aros:
Ci reto heb ei annos;
Byw heb fara yn fy nghell;
A chrefydd bell Rhys Tomos.

42.

Mae chwil y bwm yn canu,
Cawn dywydd teg efory:
Nid oes fawr goel ar chwil y baw;
Gall fod yn wlaw serch hyny.

43.

Os ei di i garu rhyw lodes wen lân,
Cei ddillad, cei ddodrefn, cei wely plu mân;
Ond os ei di i garu rhyw goegen ry wen,
Cei wellt yn dy wely, a phlu yn dy ben.

44.

Synnais lawer wrthyf f'hun,
  Pan nad oedd un yn gweled,
Am fod gwen â'i phen mor ffol
  A myn'd, ar ol hir wylied,
I'w phriodi â'r fath gnaf,
  A hithau'r lanaf lunied.

45.

Mi rois fy ngiâr i ori
  Ar ben y Frenni Fawr,
A deg o wyau dani,
  A deg a ddaeth i lawr;
Dydd Sul mi eis i'r Eglwys,
  A'r barcud aeth â nhwy:
Tra'n berchen giâr a chywion
  Nid af i'r Eglwys mwy.

Dull Gwynedd:

Mae genyf iâr a eistedd
  Ar ben y Penmaen Mawr;
Me eis at droed y Wyddfa
  I alw honno i lawr:
Me hedodd ac me hedodd,
  A'i chywion gyda hi,
I eithaf tir Iwerddon—
  "Good morrow, John, how d'ye?"

46.

Hiraeth, hiraeth! cilia, cilia,
Paid â phwyso'n rhy drwm arna';
Nesa dipyn at yr erchwyn,
Gad i mi gael cysgu gronyn.

47.

Rhodio'r oeddwn fynwent Eglwys
I ymofyn am le teg i orphwys,
Taräwn fy nhroed wrth fedd f'anwylyd,
Clywn fy nghalon drom yn symmud.
Gofyn wnawn i'r gynnulleidfa,
"Pwy yw'r un a gladdwyd yma?"
Ac atebai rhyw ddyn ynfyd,
"Dyna'r fan lle mae d'anwylyd."

48.

Acw draw mae fy nau lygad,
Acw draw mae f'anwyl gariad;
Acw draw dymunwn innau
Gysgu'r nos a chodi'r boreu.

49.

Mae genyf ebol melyn
Yn codi'n bedair oed;
A phedair pedol arian
O dan ei bedair troed;

Fe neidia ac fe brancia
O dan y feinir wen;
Fe redodd ugain milltir
Cyn tynnu'r ffrwyn o'i ben.

50.

Bûm yn byw yn gynnil gynnil
Aeth un ddafad imi'n ddwy-fil;
Trois i fyw yn afrad afrad,
Aeth y ddwy-fil yn un ddafad.

51.

Mae digon o wroldeb, oes,
Gan bawb, os arall fydd dan groes;
Ond nid mor hawdd y ceir y dyn
A gynnal bwys ei faich ei hun.

Y Plentyn a'r Neidr.

YR oedd unwaith fachgen bychan yn byw yn rhywle draw, yr hwn a gollid o'r tŷ bob dydd ar amser boreufwyd. Cynted ag y caffai ei fwyd, sef yn benaf llaeth llefrith, sopen llithrig, ac wyneb maidd, ai y bychan yn wastad allan â'i gwpan a'i fara yn ei law. Gwnaeth felly am gryn amser heb neb yn meddwl dim am y peth, ond bod y plentyn yn dewis myned

i fol clawdd teg, neu i wyneb yr haul, i gymmeryd ei bryd. Ond o'r diwedd, wrth weled ei fod yn myned allan felly yn rheolaidd bob bore, fel yr oedd y bore yn dyfod, gwyliwyd ef, ac edrychwyd, heb wybod iddo, i ba le yr elai; a chafwyd ef mewn cornelyn lled ddirgel heb fod yn neppell o'r tŷ, a phwy oedd yno yn cydyfed ac yn cydfwyta âg ef o'i gwpan ond llafnes o neidr fraith! Daliwyd i sylwi arnynt wrth eu boreufwyd; cydymborthent yn hynod gyfeillgar; ond os byddai y neidr ambell waith yn dyfod braidd yn rhy fynych i'r cwpan, rhoddai y plentyn gnipws tirion iddi â'i lwy, a dywedai wrthi am beidio â myned â mwy na'i chyfran. Cymmerai hithau yr awgrym gyda phob addfwynder, a deuai drachefn toc i ymofyn am ei llymaid. Dyna'r tro diweddaf iddynt gydfwyta; ni chyfarfuant mwy; canys pan ddeallwyd arfer y plentyn, gwyliwyd y neidr; a phan ddaeth i'r fan yr amser arferol, lladdwyd hi; ond o'r dydd hwnw allan dihoenodd yntau beunydd a pheunos o alar am ei hen gyfeilles dorchog, a bu farw o'r herwydd.

Os da yr wyf yn cofio, y mae chwedlig debyg i hon ym mhlith Chwedlau y Tylwyth Teg gan y Brodyr Grimm; ond geneth fechan sydd yno,

nid bachgen, a llyffant (yn ol ystyr Deheu yn gystal a Gogledd) yn lle neidr; ond clywais y ffregel fechan yma yng Ngheredigion flynyddoedd cyn cyhoeddi gwaith y brodyr hyglod hyny; ac yr oedd yr un a'i hadroddes i mi wedi ei chlywed cyn eu geni hwynt. Mewn gair, y mae hi yn gyffredin ym mhlith gwerin Deheubarth. Y mae y chwedl gan hyny yn chwedl Geltig yn gystal a Thewtonig; a hyny a barodd iddi gael ei chyfrannu i *Ystên Sioned.*

Hen Bedolau.

YCHYDIG iawn o drigolion Cymru yn yr oes hon sydd yn gwybod dim am rinwedd ac effeithioldeb hen bedolau ceffylau i gadw draw bob swynion a rheibiaeth a rheibwyr, y rhai, oni bai hen bedolau, a fuasent yn gwneyd rhyw wmbredd o ddifrod ac anfadrwydd mewn tai annedd yn gystal a thai anifeiliaid, drwy eu "llygad drwg."

Pa amser ar oes y byd y daethpwyd o hyd i'r feddyginiaeth, neu yn hytrach y ddarbodaeth, anffaeledig yma, sydd hollol anhyspys i ni; rhaid ei fod ym mhell iawn yn ol; ac fel y mae mwyaf y golled i'n gwlad, mae defnyddio y

gyfaredd syml yma yn myned allan o arfer, fel mae lle i ofni fod y gwylliaid maleisus llygad-ddrwg, rheibionawl hyny yn cael eu ffordd eu hunain, ac yn anafu ac yn dinystrio iechyd ac eiddo pobl ddiniwaid.

Tua deugain mlynedd yn ol, pan oeddym mewn cyflawn oed, a synwyr hefyd fel y cyff-redin, yr oedd gwraig gall gyfrifol, wedi cael dygiad da i fyny, ac yn barchus yn y dref, yn byw y drws nesaf i ni. Aethom ar neges ryw ddiwrnod i'r tŷ, ac wrth fyned allan, a hithau yn dyfod i agor y drws i ni, canfyddem, am y tro cyntaf erioed, hen bedol ceffyl wedi ei hoelio ar y drws o'r tu fewn yn lled uchel i fyny. "Yn enw pob peth, Mrs. D——," meddem ni, "beth y mae honna yn dda yn y fan yna?" "O'r anwyl! Mr. T—— bach," ebai hithau, "yr ydym yn gorfod ei chadw yna bob amser; ac ni fu ein tŷ ni erioed, er amser fy nhad a'm mam, heb y bedol yn ei lle priodol yn y fan yna; a diolch i'r anwyl, mae hi wedi cadw pob aflwydd i ffwrdd er pan wyf yn cofio; 'waeth, chwi a wyddoch,' ebai hi, 'fod cymmaint o hen fenywaid yn myned o gwmpas â 'llygad drwg' ganddynt, ac yn gwneyd hafog ar feddiannau pobl." Dyna y wers gyntaf erioed a gefais ar effeithioldeb hen bedolau i gau allan bob math o swynion.

Ym mhen llawer o flynyddoedd ar ol y wers gyntaf, wele yr ail. Yr oedd genyf yn gweithio yn yr ardd ddyn call, synwyrol i'r pen, ac wedi cael cryn dipyn o fanteision addysg. Ar ryw ddiwrnod pan aethym i'r ardd, canfyddwn ar y llidiart bump o hen bedolau wedi eu sicrhau arno, hen bedolau rhydlyd, tair o honynt yn rhai mawrion, a'r ddwy arall yn rhai bychain, wedi bod dan draed un o ferlynod y mynydd-oedd. "Beth yw y rhai hyn?" ebai fi. "Beth! a ydych chwi ddim yn gwybod?" meddai yntau. Cymmerais arnaf nad oeddwn yn deall beth oedd eu diben. "Wel," meddai yntau, "dyna yr unig beth a geidw bob 'llygad drwg' o'r ardd; nid oes dim rhaid i chwi ofni yr un hen ddewines, tra byddo y pedolau o wahanol faint-ioli wedi eu rhoi ar y llidiart." Ac yno cawsant fod am flynyddoedd, gan eu bod yn ei foddloni ef, a heb fy niweidio innau; ac ni fu unrhyw anhap mewn cyssylltiad â'r ardd yn ystod llawer o flynyddoedd, am a wn i; ond cefais hyn allan, nad oedd digon o rinwedd ynddynt i gadw yr adar duon na phlantos drygionus rhag lladrata y ffrwythau.

Hefyd, nid oes neb yn gwybod pa faint o gymhorth ydyw yr hen bedolau i'r morwyr.

Gwyddom am Gymry yn llongwyr yn eu sicrhau mewn amryw fanau ar eu llongau, o herwydd mae y gwr drwg, drwy offerynoliaeth ei blant, yn ddigon hyf i reibio a drygu llwyddiant y morwyr, yn gystal a phobl y tir.

Y mae yn beth hynod fod ein brodyr, y Llydawiaid, yn credu yn fwy dilys, hyd yn oed na'r Cymry, yn effeithioldeb y bedol. Yng nghylch pum mlynedd ar hugain yn ol, dygwyddodd i ni fod ar fwrdd llong o Lydaw yn un o borthladdoedd Cymru, ac yr oedd pedolau yn dryfrith ar hyd y llong; gallasem gyfrif rhai dwseni, wedi eu dosparthu a'u hoelio ar wahanol bethau ar y bwrdd. Gwnaethom ymholiad â'r cadben, yr hwn yn ddifrifol a'n hyspysai fod eu gwerth yn annhraethol iddynt ar y môr ac yn y porthladdoedd, rhag ystryw maleisus y gêr felldigedig ag sydd yn myned o gwmpas i reibio pobl a'u meddiannau. Maent hwy yn credu yn helaethach na'r Cymry, sef bod yr hen bedolau yn cadw draw y diafol ei hunan—tad pob llygad drwg; ac felly maent yn cael llai o drafferth gyda'i blant. Credant hwy, pan genfydd ef bedol, ei fod yn dianc nerth ei garnau, mewn cymmaint dychryn, fel na ddychwel yn ol am faith flynyddoedd.

Dydd Sul y Gwrychon.

CYFRIFIR Suliau y Deugain Nydd Garawys weithiau yn y wedd a ganlyn:

1. "Dydd Sul Ynyd;
2. Dydd Sul hefyd;
3. Dydd Sul a ddaw;
4. Dydd Sul ger llaw;
5. Dydd Sul y Meibion;
6. Dydd Sul y Gwrychon;
7. Dydd Sul y Blodau;
8. Pasc a'i ddyddiau."

Mewn rhai parthau, "Dydd Sul a ddaw," "Dydd Sul rhag llaw," y gelwir y trydydd a'r pedwerydd; ac enwir yr wythfed yn "Basc y Wyau" mewn ambell ardal; sef yn y manau lle yr arferir hel "wyau Pasc." Llygrir y chweched weithiau i "Sul y *Gwreichion*," ac eglurir ef fel yn dynodi Sul y *Goruchafion*, gyda rhyw gyfeiriad tybiol, dichon, at yr hanes ym Matthew xxi. 9; ond nid oes dim a fyno yr enw â gwreichion tân, nac â goruchafion nac iseifion chwaith. Hyn ydyw y gwir ystyr, os cywir nodyn i'r perwyl canlynol, yr hwn a ddarllenais (nid mewn "llyfr preint Cymraeg," fel y dywedwyd am

hanes yr "Hen Wr o'r Coed,") ond mewn dogfen a ysgrifenwyd pan nad oedd "Sul y Gwrychon" eto wedi disgyn i blith y pethau a aethant heibio: "Gwrychon yw pys a fwyder mewn dwr, llaeth, gwin, osai, a'r cyffelyb, dros noswaith, yna gadael iddynt sefyll oni bônt led sych; wedi hyny eu dodi mewn crochan ar dân araf, a'u trafod yn ddibaid, oni bônt yn *gwrychynu*, sef y plisgyn yn tori ac yn agor; yna eu cwnnu a'u bwyta. Os yfer cwrw, osai, medd, neu win, gyda nhwy, yn ol eu mwydo eu dodi mewn gogr i ddyferu yn lled sych o'r tu faes." Hyn yna, meddir i mi, yw ystyr "Sul y Gwrychon."

Ymddengys yr arferai y bobl dda yn yr amser gynt ymborthi ar "wrychon" ar y Sul nesaf o flaen Sul y Blodau, ac ar ryw bethau cyffelyb trwy holl gorff y tymmor ymarbedol; o blegid, mae yn ddilys na fwytäent *gig* yn y Garawys, ar ddydd Sul nac ar ddydd gwaith; canys un o'u dywediadau, ac yn ddiau un o'u harferion hefyd, ydoedd

"Dydd Mercher y Lludw
Codi'r cig i gadw."

Ar Sul Canol y Garawys yr oedd yn arferiad gan y bobl fucheddol gynt fyned i ymweled â'r

fam-eglwys, i dalu eu defodol offrymau Pasc, ac o ba herwydd y gelwid ef yn fynych yn "Sul y *Mama*." Oddi wrth y ddefod o ymweled â'r fam-eglwys, tyfodd arferiad arall, a elwid "*Mama*" hefyd, sef gwaith plant yn myned i ymweled â'u *mamau*, ne'u rhieni, ar y cyfryw Sul, pryd y byddid yn bwyta teisenau a elwid "teisenau mama;" ac ef allai fod rhyw adgof o'r arfer hon ar gadw yn "Sul y Meibion."

Enw arall a roddid ar yr un Sul, sef y pedwerydd yn y Garawys, ydoedd *Dominica refectionis*, sef Sul y Porthiant, yr hwn a gyfenwid felly mewn cyfeiriad at y llith gyntaf am y dydd, yr hon a grybwyll am waith Ioseph yn gwledda ei frodyr (*Gen.* xliii. yn ol yr hen lithiadur); a'r efengyl am yr unrhyw, yr hon a gofnoda wyrth porthi y pum mil mewn lle anghyfannedd (*Ioan* vi. 1—15). Y cyttarawiad hwn a fu yn achos o'r enw. Dichon fod rhyw gymmaint o frith adlewyrch y naill neu'r llall o'r arferion hyn ar gof yn "Sul y Gwrychon." Nid wyf sicr eu bod yn ffynu ym mhlith ein hynafiaid; ond nid oes un rheswm i gredu fod y Dywysogaeth yn y pethau yma yn wahanol i ranau ereill y deyrnas. Un o'r enwau Seisoneg ar ddydd Sul canol y Garawys yw *Mothering*

Sunday, yr hwn a drowyd uchod yn "Sul y Mama;" sef yw hyny, Sul ymweled â'r fam.

"Dydd Sul y Pys" yw Sul na ddaw byth; gan nad oes Sul o'r enw yn holl gorff y flwyddyn. Golygir yr un peth, sef byth ni bydd, pan ddywedir y dygwydd rhywbeth "yng nghyfarfod deu-Sul;" neu, yn ol "yr iaith nesaf atom," *at the Greek Calends.* Nid oedd y Groegiaid yn rhannu eu misoedd yn *galanau:* arfer y Rhufeiniaid ydoedd hyny.

Cwrt y Felin Wynt.

DYMA hen le sydd yn ddigon adnabyddus i drigolion Aberystwyth; ac os bydd awydd ar ddieithriaid weled y fan, ni a gyfarfyddwn â hwynt wrth "Dŵr y Cloc Mawr," ac yna awn i lawr ar hyd Heol y Wig, a thrown i "Heol y Porth Tywyll Bychan," ac ar y llaw chwith cawn weled y fynedfa, ac uwch ei phen "*Windmill Court.*" Dyna yr unig fan y gellir myned iddo ac o hono. Mae yno gryn lawer o dai, ac yn y pen pellaf mae y Felin Wynt. Ond dan gofio, mae yr hen adeilad hwnw wedi cael ei dynu i lawr er ys amryw flynyddoedd.

Dywedir fod saith ugain mlynedd er pan y

bu malu yno, a chludwyd y peiriannau i *Felin y Môr*, fel ei gelwir, a dyna y pryd yr adeiladwyd honno. Byth ar ol rhoddi heibio falu, defnyddiwyd yr hen adeilad yn dai, neu yn hytrach yn ystafelloedd, lle yr anneddai hen gymmeriadau tra hynod; a chan mai hwn yw yr unig gofiant a ysgrifenir byth am danynt, amcanwn, os yn fyr, fod yn gywir a gonest yn ein hadroddiad.

Yr ydym yn gorfod myned yn ol o leiaf hanner can mlynedd, o blegid gwirionedd profedig yw, nad oes rhyw lawer o gymmeriadau hynod a gwreiddiol wedi eu geni byth ar ol hyny.

Yr oedd yr hen Felin yn bedair llofft, a grisiau cerryg troellog yn esgyn i fyny o'r tu allan; gan hyny nid oedd dim cyssylltiad rhwng y naill gymmydog a'r llall, ond a fyddai ar y grisiau, a byddai hyny yn ddigon ar rai achlysuron. Hefyd, nid yr un faint a fyddai ardreth pob ystafell; yr oedd yr isaf yn helaethach nag un o'r lleill, ac felly elent yn lleilai ym mhob ystyr nes cyrhaedd yr uchaf. A chan ein bod ar yr uchaf yn awr, ni a ddechreuwn gyda'r preswylydd, *Siarlo Bach*. Gelwid ef felly, nid yn gymmaint am fychander corfforol, nac ychwaith o herwydd bychander ei dalent; os dim,

yr oedd ganddo fwy o dalent na nemawr un o'r teulu lluosog yr hanai o hono; ond am y rheswm ei fod yr un enw â'i dad, a diau ei fod ryw bryd yn llai o faintioli na'i dad.

Nid ydym yn cofio neb yn feddiannol ar fwy o *humour* ddigrifol. Yr oedd rhywbeth digrif yn ei wynebpryd, a cheid ef bob amser ym mhob man yn "ddigon o grwth a thelyn;" a chan ei fod yn annhraethol hoff o'r ddiod, gall y darllenydd benderfynu fod galw mawr am y cyfryw ddyn yn fynych mewn tafarnau, er nad oedd ganddo ond ychydig ei hunan i wario, ond ei fod yn cadw ereill yn ddifyr yno hefyd. Dylasem ddywedyd mai crydd oedd Siarls wrth ei alwedigaeth; felly hefyd yr oedd ei holl frodyr; a buasai yn filwr yn ei ddyddiau goreu, neu yn hytrach yn dabyrddwr yn y fyddin; a phan oedd yn hen ddyn gallasech benderfynu ei fod wedi bod yn *sowldiwr*, gan ei fod hyd ei fedd "cyn unioned a saeth."

Collodd ei wraig, mam i dwr o blant, pan yr oeddynt yn fanaidd iawn, a chafodd y rhai hyny eu dwyn i fyny ar y peth nesaf i ddim o anghenrheidiau bywyd.

Rhyw nos Sadwrn, pan oedd eu tad wedi bod yn treulio ei wythnos yn eithaf didoraeth, daeth

adref tua hanner nos, ac heb un tamaid o fwyd iddo ei hun nac i'r plant o fath yn y byd ar gyfer y Sabbath, nac un ddimai tuag at ei gael. Beth oedd i'w wneyd? Daeth i'w ben roddi cauad ar y ffenestr, a chuddio pob rhigol i fyny â chadachau, i gadw y goleuni allan; a phenderfynodd aros yn y gwely dros drannoeth i ymladd â'r newyn goreu y gallai.

Bore Sul, gwaeddai y plant, "Dada, a gawn ni godi? mae arnom eisieu bwyd." "Byddwch ddistaw, blant," ebai yntau; "beth yw cadw swn sydd arnoch fel hyn ganol nos?" Cafodd ganddynt lonyddu, a chysgasant eto dan y prydnawn. "Dada, a gawn ni godi? mae arnom eisieu bwyd." "Hawyr bach," ebai Siarlo, "beth sydd ar y plant yma heno? pam na fyddech ddistaw, yn lle bod fel hyn yn aflonyddu pawb yng nghanol nos?" Cafodd ddistawrwydd eto am dipyn; ond methai y plant, druain, berswadio eu cylla i fod heb fwyd; gwaeddasant drachefn ryw bryd; a thrwy fygwth ac addaw, buont heb yr un briwsionyn dan fore Llun, pan y gorfu arno godi yn fore, a gollwng y dydd i mewn, a chwilio am grystyn iddo ei hun ac i'r trueiniaid bychain oedd bron llewygu.

Yn nesaf o breswylyddion y Felin Wynt a gawn ei goffäu yw *Tomas Robert*, a *Nans* ei wraig. Yr oeddynt yn hen bobl pan yr adwaenem hwy gyntaf, yn rhywle uwch law tri ugain a deg. Dan gofio, crydd oedd Tomas hefyd, ac ni welsom ef erioed (ond y Sul) heb hen ffedog ledr o'i flaen, gwaith neu beidio. Pysgodyn digon "sychedig," a'i syched yn parhau yn ddidor drwy ei oes, ydoedd. Yr oedd yn rhagori ar lawer o'i gymmydogion, drwy ei fod yn ddarllenwr mawr, a chryn syniad ganddo ar lywod-ddysg, yn gallu gwneyd defnydd o'r newyddiadur Seisoneg yr amser hwnw ar fyd; yr oedd hyny yn rhoddi safle uchel i Tom ym mhlith ei gymmydogion. Hefyd darllenai lawer ar lyfrau duwinyddol, ac yn enwedig y mân lyfrynau dadleuol oedd yn llanw y wlad y cyfnod hwnw, yn cynnwys y ddadl ddiddiwedd a fu rhwng yr Arminiaid a'r Calfiniaid. "Uchel Galfin" o ran ei farn oedd Tom; ond y drwg oedd fod y gweithredoedd dipyn ar ol; bratiog iawn oedd y rhai hyny, a chai y gair ei fod yn "*Antinomiad.*" Beth bynnag, yr oedd y "llymaid diod" yn brofedigaeth dost iddo. Byddai "Modryb Nans," fel y byddem ni yn ei galw, yn hen wreigan lanwaith, gall, a rhesymol, ac ni fu

raid i neb roddi y priodoleddau hyny mewn gweithrediad fel y gorfu arni hi gannoedd o weithiau mewn cyssylltiad â'r "hen wr," fel ei galwai. Hen wraig ddiwyd a hynod o "dda at ei chetyn" ydoedd, ac yr oedd gyda hi lawer o getynau i ofalu am danynt. Byddai yn cadw bob amser ryw fath o fasnachaeth fechan, megys gwneyd a gwerthu *pop* a *diod sinsir;* gwneyd hefyd a gwerthu *India rock* a *chisis*, yng nghyd â mân gacenau; ac felly yn cael elw y gwneuthurwr a'r gwerthwr, a hyny, gallwn feddwl, oedd tuag at "gadw tŷ," am y rheswm fod Tom yn rhoddi ei holl lafur i ennill arian i gael cwrw. Lle tlawd oedd y Cwrt i gario unrhyw fasnach ym mlaen, drwy ei fod allan o olwg; ond byddai Modryb Nans yn eistedd wrth fwrdd bychan yn llawn o'r nwyddau a enwyd bob amser bron wrth y "fynedfa" i'r Cwrt y soniasom o'r blaen am dano. Ni fyddai Tom yn arfer cyssondeb dyddiol i ddilyn y ddiod; ond gweithio â'i holl egni, fe allai, am wythnos o'r bron, ac yna dechreuai ar "ddyddiau yr wyl;" ac wedi bod felly yn gwneyd dim ond yfed am ddau neu dri diwrnod, byddai yn sâl ofnadwy, ac arosai yn y gwely i "dreio gwella." Byddai Modryb Nans yn deall ei glefyd yn lled dda.

Rhyw dro wedi bod ar ei "derm," ac yn sal-aidd dros ben, aeth Modryb Nans tua chanol dydd at ochr y gwely, a gofynodd yn ddifrifol iawn, mewn tôn yn llawn o gydymdeimlad, "Beth yw'r mater, Tom, a wyt ti ddim yn iach?" "O! 'r wy'n sâl iawn, Nans, 'r wyf bron â marw." "Yr wyt ti'n wir, Tom bach!" "O! ydwyf, yn sâl iawn, bron â marw; 'r wy'n credu y byddaf farw yn union deg." "Felly 'n wir," ebai Nans, "a wyt ti yn meddwl, Tom bach, y byddi di farw 'n *fuan?*" "O! ydwyf, bron—bron â myn'd." "Wel, Tom bach," ebai hithau, "gan dy fod yn myn'd i'n gadael, fe fydd yn chwith iawn ar dy ol; ond gan dy fod yn ein gadael, pwy wyt ti yn enwi i fod yn ail wr i mi?" "Beth?" ebai Tom. "Pwy wyt ti'n ddangos i mi briodi yn ail wr?" Cyff-rôdd Tom, ac mewn llais cynhyrfus, gwaeddai, "Prioda'r diawl, os leici di." "O, Tom!" ebai yr hen wraig yn bwyllog, "yr wyt ti yn gwy-bod gwell pethau, ac yn fwy o ysgolhaig, ac yn deall y gyfraith yn well na hyna; ti wyddost o'r goreu nad yw y gyfraith yn caniatäu i neb briodi *dau frawd;*" a ffwrdd â hi cyn gynted byth ag y gallai rhag ofn i Tom ddial arni am ei ffug-gydymdeimlad.

Yr oedd ganddynt blant, ond yr oedd y rhai hyny wedi "gadael y nyth" cyn yr amser hwnw. Adwaenem un mab iddynt, ond nid oes neb byw a all ysgrifenu hanes ei fywyd; a phe gwneid hyny, credem nad oes neb o ddarllenwyr yr *Ystên* yn alluog i gredu dim o hono, gan mor anesponiadwy o ryfedd a fyddai.

Breuddwyd Gwraig y Calchwr.

DYWEDER a fyner, y mae rhyw beth rhyfedd, a rhyfedd iawn, weithiau mewn breuddwydion; ac o bob peth a berthyn i'r bywyd presennol, nid oes, ond odid, ddim anhawddach rhoddi rheswm am dano a'i egluro yn foddhaol na gweledigaethau cwsg. Llawer y sydd wedi eu hysgrifenu ar y pwnc; ond hyd yn hyn y mae yn gorwedd mor dawel ag erioed o dan orchudd anhydraidd tywyllwch; ac yno y rhaid ei adael.

"Mae mwy o bethau yn y nef a'r llawr
Nag a ddychymmyg eich athroniaeth chwi."

Nid yw yr hanesan ganlynol, yr hon a adroddir gan yr un yr achubwyd ei fywyd, ond un o blith llawer a ellid eu cofnodi, neu y sydd wedi eu cofnodi eisoes; ac nid yw yn tueddu yn

y mesur lleiaf i chwalu dim ar y dyryswch, ond yn hytrach chwanegu ato. Y mae ei dyddordeb yn gynnwysedig yn fwy yn y gwr y breuddwydiwyd o'i achos, nag yn arbenigrwydd y breuddwyd ei hun.

Iolo Morganwg, wedi dyfod o Lanrwst drwy Benmachno a Ffestiniog, Maentwrog a Thrawsfynydd, i Lanelltyd wrth Ddolgellau, yr oedd yr hwyr wedi myned cyn belled i'r nos fal nad oedd gobaith cael tŷ yn agored, na neb a godai yn Nolgellau, yn gyfun â llawer prawf a gafas ef yng Ngwynedd. Gweled odyn galch yn Llanelltyd, efe a ddodes ei faich llyfrau a phapyrau i lawr, ac a eisteddodd ar arffed yr odyn; ac o'r diwedd daeth trymgwsg arno, a gorwedd a wnaeth ar ystyllen yn lled agos i'r odyn, er mwyn cynhesrwydd. Ychydig wedi tori gwawr, dyma hen wraig brydferth yr olwg arni yn taro ei dwylaw arno, ac yn ei ddihuno o'i ddargwsg trwm mogedig, ac efe braidd yn gallu anadlu gan fogiant, a chaethiwed mynwes. A'r hen wraig a lefarodd fal hyn: "Pwy ydwyt ti, druan? Duw a'th fendithio, pwy bynnag ydwyt. Oni buasai i mi ddyfod yma, ti a fuasit farw; mi a wn yr awran yr achos nas gallaswn gysgu na gorphwys yn fy ngwely; clod i Dduw am hyny, ac imi ddwad yma i sefyll dy fywyd."

Gwraig y calchwr ydoedd hi; a hi a wiriodd yn ddwys ddifrifol ei bod dros ddwy-awr, neu fwy, yn ffaelu bod ennyd fechan yn esmwyth, gorff na meddwl, yn ei gwely, gan megys rhyw beth yn dywedyd wrthi fod rhyw wall neu arall ar yr odyn, neu o'i chylch, yn gofyn dyn yno i'w ddiwallu. Hi a ddihunodd ei gwr, ac a ddywedodd ei meddwl; ond megys chwerthin am ei phen a wnaeth ef, a cheisio ganddi orwedd yn llonydd yn ei gwely; eithr cyn gynted ag y gwelodd hi wawr, codi a wnaeth, a dyfod at yr odyn. Hi a ddywedodd i amryw o fewn i'w chof hi golli eu bywydau wrth orwedd a chysgu ar arffed yr odyn; tach yr odyn yn eu dianadlu yn hollol.

Mehefin y 19dd, 1799, y bu hyn.

Pennillion.

52.

Yr eneth deg benfelen
  Sy'n byw ym Mhen y Graig,
Dymunwn yn fy nghalon
  Gael honno imi'n wraig:
Hi fedra bobi a golchi,
  A thrin y tamaid bwyd,
Ac ennill llawer ceiniog
  Er lles y bwthyn llwyd.

53.

Dymunol iawn a braf dros ben
  Yw brigyn pren afalau:
Mae arno olwg hawddgar iawn
  Pan fyddo'n llawn o flodau.

54.

Yr oedd bwch yn nhroed y Wyddfa
  Yn rhwym wrth aerwy pren,
A bwch yn Ynys Enlli,
  Yn ymryson taro pen:
Wrth swn y rhai'n yn taro,
  Mae hyn yn chwedl chwith,
Fe syrthiodd clochdy'r Bermo
  Na chodwyd mo'no byth.

55.

Mae brân i frân y dyffryn,
Mae Siân ar gyfer Sionyn;
Ac os yw pawb i gael rhyw garp,
Mae Huwcyn larp i rywun.

56.

Mi af i Lundain Galanmai,
  Os byddaf byw ac iach;
Ni arosaf ddim yng Nghymru
  I dori'm calon fach:
Nid ar y flwyddyn fach mae'r bai,
Ond dynion drwg sy o beutu'r tai.

57.

Mae'n gofyn gwr synwyrol,
Mwyn, araf, call ragorol,
O ddeugain oed i hanner cant,
I ddysgu plant mewn ysgol.*

Modd arall arno:—

Mae'n gofyn gwr synwyrol,
Gwr gwraig, tad plant cynneddfol,
O ddeugain oed i hanner cant,
I ddysgu plant mewn ysgol.*

58.

Hed drosof, aderyn pigfelyn, at ferch,
Dwg gân i fy ngwen o ias awen fy serch,
Ac arch iddi ddyfod i'r gwaelod, lle y gŵyr,
I gyffwrdd â'r bardd, y wawr hardd, yn yr hwyr.

59.

Tra bo rhew yn dew ar dwyn,
Ia'n y cwm, a llwm y llwyn,
Ydd wy'n ddi fraw'n cyweiriaw cân,
Yn fardd hy mewn tŷ, min tân:
Byw fal hyn mewn bwthyn bach,
Brenin wyf, a'm bron yn iach,

60.

Ni welodd neb o fewn fy safn
Erioed un dafn o gwrw;

* Yng Ngheredigion priodolir y pennill hwn i Edward Richard, o Ystrad Meurig; ond ym Morganwg, i William Ifan, o Lanelltud Nedd.

A thra bo'r frân yn gwneyd ei nyth
  Ni'm gwelir byth yn feddw.

61.

Mae llefain mawr a gwaeddi
Yn Ystrad Ffin eleni,
A'r cerryg mân yn toddi'n blwm,
Rhag ofn Twm Sion Cati.

62.

Ofer ydyw saethu'r seren,
Ofer golchi traed hwyaden;
Ofer ydyw, cofia'r ddammeg,
Iro tor yr hwch â bloneg:
Ofer ceisio grawnwin deall
Ar fwyeri, drain, ac ysgall;
Ofer disgwyl y felgafod
Yn ddefnynau ar y wermod:
Ofer, ffol yw'r dyn sy'n tybied
Ei fod heb farn yn medru cerdded:
Ni chariodd ci erioed ei gynffon
Wrth fodd pawb, mae'n hyspys ddigon.

63.

Mae'm calon i mor drymed
  A'r march sy'n dringo'r rhiw;
Wrth geisio bod yn llawen,
  Nis medraf yn fy·myw:

Mae'm hesgid fach yn gwasgu
  Mewn man na wyddoch chwi;
A llawer gofid meddwl
  Sy'n tori'm calon i.

64.

Ofer yw, er maint fo rhinwedd,
Dysg a dawn, a hir amynedd,
Geisio byth, gwrandëwch y testun,
Ddala tafod merch ysgymmun.

65.

Anhyfryd beth yw methu;
A ffwyl ar ddyn yw ffaelu;
Ni wel fwynder glwysber glân,
Nac un awr gân a gwenu.

66.

Dyn cwynfanllyd ynfyd wyf,
Gwr yn wyllt i'w gur a'i nwyf,
Yn dwyn nod gresyndod serch,
Gwewyr mawr o garu merch;
Tost yw'r fron a'r galon gaeth,
Lle rhy serch yn llwyr ei saeth;
Ond gresynach, tostach twyll,
Yw ias pen heb naws y pwyll.

67.

Pe tybiwn i y gwyddai'm crys
  Yn yspys fy nghyfrinach,

Ni ddeuai, dros ei daflu i'r fflam,
I'm canlyn gam ym mhellach.

68.

Pe caem ni fwyd y bore,
A bregwest gyda'r dydd,
A bolaid fawr o fwdran,
A chinio hanner dydd,
A bara a chaws bryd godro,
A bwyd wrth fyn'd i'r glwyd,
A swper yn ddigonol,
Ni ynganem ni am fwyd.*

69.

Cân di bennill fwyn i'th nain,
Fe gân dy nain i tithau;
Nid yw hyny ddim i neb,
Ond talu'r echwyn adre'.

---

* Y mae'r pennill hwn yn gofyn am eglurnod. Cyffes credo nyddwragedd yr amser gynt ydyw. Codent at eu gwaith ym mhell cyn y dydd; a dalient ato nes y byddai'r nos wedi cerdded yn lled bell. Y "bwyd y bore" oedd y pryd cyntaf, yr hwn a fwytëid wrth oleu canwyll; y "folaid fawr o fwdran" oedd y trydydd pryd, yn rhywle o naw i ddeg, rhwng boreufwyd a chiniaw am ddeuddeg; "pryd godro" ydoedd o ddeutu canol y prydnawn, a'r "bwyd wrth fyn'd i'r glwyd" oedd y pryd a gymmerid pan fo'r ieir yn myned i glwydo neu gysgu yn min yr hwyr, i wella pwyll nes dyfod swper. Gwelir fod y gwragedd da hyn mor ymwadol ag ymfoddloni ar ddim ond saith bryd y dydd. Pan fyddai dim ond un yn canu'r pennill, dywedai: "Pe cawn i . . . Ni ynganwn i;" er mwyn iddo fod yn gymhwysach. Gwelir nad oes son am "ddysglaid" neu "gwpanaid o *de*" yn y pennill.

70.

I'm cinio cael bresygen
Cawn yn fy nwrn erfinen,
Bara barlys coch i'm 'sgâr :—
Tewheais fel iar i'w thalcen.
Lle bai rhyw lewndid lawer,
Càwn fwdran sur i'm swper,
A chydag ef, drwy ffillach ffraeth,
Cawn faidd a llaeth dau hanner.

71.

Er gweled y llysiau yn wyrdd ac yn hardd,
Mae'n enbyd bod neidr dan gel yn yr ardd·
A chwithau, wŷr trechol, 'dd wy'n ofni'n rhy dost,
Mai cariad morforwyn yw'ch crefydd a'ch bost.

72.

O,rhyfedd yw'r ffoledd a'r màledd mewn merch!
Er hacred y mab, lle bo'n gadarn ei serch,
A'i fod yn flin elyn i'w thad ac i'w mam,
Hi a'i dilyn hyd angeu, bid cymhwys bid cam.

73.

Caru'm mhell a charu'n agos,
Newid cariad bob bythefnos ;
Er hyn i gyd ni all fy nghalon
Lai na charu'r hen gariadon.

74.

Ydd wyt ti'n hardd tu hwnt i neb,
A theg yw'th wyneb serchus;
Ail i ti, 'r ysgeiddig fun,
Ni welais un o'r ynys.

75.

Ffol wyf fi, a ffol yw bagad,
Ffol yw'r mab ni charo'i gariad;
A ffol iawn yw'r mab a garo
Lle na bo dim cariad iddo.

76.

Os bûm ffol, mi fyddaf ffelach;
Mwy nid af i ymgais ffrilach,
I gael gair fy mod yn chwannog
I garu'r merched saith am geiniog.

77.

Dyn a garo lwyddiant mawr,
Cwnned beunydd gyda'r wawr:
Dyn a lwyddwys yn ei waith,
Cysged beunydd hyd awr saith.

78.

Er nad wyf ond dierth yma,
Fel rhyw 'dderyn ar ddisgynfa,
Nid wy'n prisio am wŷr trawsion,
Mwy na'r gath sy'n siglo'i chynffon

79.

Gwell bara haidd a heddwch
Na bara can a garrwch;
Gwell na llys brenin, Duw a'i gŵyr,
Cwr perth mewn llwyr lonyddwch.

80.

Mi wrthodais, ffol yr oeddwn,
Ferch a garai'r tir a gerddwn;
Ac a gerais, do, 'n garedig,
Ferch a'm gwerthai am ychydig.

81.

Yr hwn sy'n teithio môr a thir,
  Er caffael gwir gyfeillion,
Gwilied ei fod yn rhy chwit-chwat
  Rhag taro at elynion;
Gan fod bleiddiaid lawer haid,
  Yn awr fal defaid dofion.

82.

Do, mi welais heddyw'r boreu
Ferch a gawn pan fynwn innau;
Ac a welais, do, brydnawn,
Ferch a garwn, ac nis cawn.

Profiad Ceispwl.

RHIF 2.

DYGWYDDODD tro lled drwstan arnaf er ys amryw flynyddoedd yn ol, ac effeithiodd ar fy nghymmeriad yn fwy na dim a gyfarfum yn ystod fy holl oes, o herwydd i mi fod mor ysgyfala yn cyflawni fy swydd. Cefais fy anfon ym mhell oddi cartref gan fy meistriaid, sef y cyfreithwyr, at dyddynwr ag oedd "wedi myned yn ol," fel y dywedir, "yn ei amgylchiadau." Yr oedd arno i'w feistr tir amryw ardrethoedd heb eu talu. Cefais bob awdurdod angenrheidiol i gymmeryd meddiant o'r cwbl o'r anifeiliaid oedd ar y fferm. Aethym â dyn ieuanc dibrofiad fel cynnorthwywr; cyrhaeddasom yno yn bur fore, a chasglasom y ceffylau, y gwartheg, ac ychydig ddefaid oedd yno, a chawsom gynnorthwy y ddau fab cyn diwedd i'w cael yn ddiogel i'r "cae tŷ." Ar hyn daeth yr hen wr, sef y perchenog, allan i'n cyfarfod. "Bore da," meddwn i wrtho; "bore da, gyfaill bach," ebai yntau; "gobeitho na chawsoch lawer o drafferth gyda'r creaduriaid." "O na," meddwn innau, "dyna yw ein

gwaith, ond gwaith digon diflas i ni, ac yn enwedig i chwi, yr hen wr." "O, wel," atebai yntau, "nid oes genyf le i achwyn am ddim oll; mae yn deilwng i'r meistr tir gael yr hyn sy ddyledus iddo; ac am danoch chwi, gyfaill, nid oes dim bai yn y byd; rhaid i chwi gyflawni eich dyledswydd. Yr oeddym yn myned at ein boreufwyd yn awr, ac y mae cyflawn roesaw i chwithau eich dau ddyfod i gydgyfranogi â ni; rhaid eich bod mewn anghen am rywbeth i'w fwyta eich dau erbyn hyn." Gwir oedd hyny; ac aethom i mewn, eisteddwyd wrth y bwrdd, yna gofynodd yr hen frawd fendith ar y trugareddau, a dechreuai siarad yn grefyddol iawn, ei fod yn teimlo ei hun yn ymostwng yn hollol i drefn y Rhagluniaeth fawr oedd yn trefnu pob peth; nad oedd yn disgwyl dim yn wahanol, gan mai felly y rhyngai bodd y Penllywodraethwr. Buom gryn amser (o herwydd yr holl siarad) wrth y boreufwyd, a theimlwn yn wirioneddol ddrwg dros yr hen frawd a'i deulu, yn enwedig dros y plant ag oedd yno. Pan oeddym ar gychwyn allan, "O," meddai yr hen wr, "ein harferiad ni bob amser yw cynnal tipyn o wasanaeth crefyddol bob bore ar ol boreufwyd, sef darllen pennod a myned dipyn i weddi; ac

os aroswch chwithau eich dau i gyduno â ni, byddai yn dda iawn genyf. Teimlais ar unwaith, gan ein bod wedi cael ein porthi mor gysurus ganddo, mai gwell a gweddusach i ni aros iddo fyned drwy hyny o wasanaeth. Rhaid cyfaddef mai o barch i'r hen gyfaill, ac nid o herwydd bod genym ryw lawer o archwaeth at y gwaith, yr arosasom. Galwyd pawb yng nghyd, ymaflodd yntau yn y Beibl mawr, a darllenodd y bennod fwyaf y clywais son am dani erioed, gan wneyd sylwadau arni wrth fyned ym mlaen; aeth hyny i'r pen rywbryd, ac yna aethom ar ein gliniau; a dyna lle y bu yr hen greadur "yn amgylchynu môr a thir," ac yn son am Iuddewon a Chenhedloedd; daeth cyn y diwedd i erfyn am fendith "ar y ddau gyfaill ag oedd Rhagluniaeth wedi eu dwyn o dan ein cronglwyd;" a dyna y weddi wedi cyrhaedd yr Amen.

Gwnaethom bob brys i fyned allan, a'r hen frawd gyda ni; ond, Ow! nid oedd yr un creadur byw i'w weled yn un man, ond rhyw chwech neu saith o wyddau ar y "grein"—yr oll wedi eu hysgubo ymaith. Canfuais ar unwaith ein bod "*wedi ein gwerthu*" yn deg; collais bob rheolaeth ar fy nhymmerau, a byg-

ythiais y rhoddwn y ffon oedd yn fy llaw ar gefn yr hen bryfyn. Chwarddai yntau yn iachus, yr hyn a'm cynhyrfai innau yn fwy o lawer; dywedais wrth y bachgen oedd gyda mi: "Dos â'r gwyddau yna at eu gilydd, fel y byddo genym rywbeth i ddangos ein bod wedi bod yma." "*Hysh, hwy lac,*" gwaeddai yr hen ddyn; a dyma y rhai hyny yn rhoi ysgrêch, ac yn cyd-godi ar eu hadenydd, a ffwrdd â hwy dros ben y tai a'r gwrychoedd na wyddai neb i ba le. Triniais yr hen ffermwr yn dda, a dannodais iddo ei ffug-grefyddolder a'i ystryw drygionus; ond atebai fi gyda phob hynawsedd, gan fy nghynghori "i gadw ac i lywodraethu fy nhymmerau yn well yn wyneb profedigaethau o'r fath," yr hyn a'm gyrai innau yn saith gwaeth. Aethym oddi yno, fel y mae gwaethaf adrodd dan dyngu a rhegu. Aeth yr ystori ar led, a chefais "hi yn fy nannedd," fel y dywedir, tra y bûm yn y swydd.

Lliwiau'r Gwallt.

YMAE o bwys i ddyn, ac i ddynion ereill hefyd, pa beth yw lliw ei wallt; canys,

Gwallt du, gofidus;
Gwallt gwineu, dawnus;

Gwallt melyn, lleuog;
Gwallt coch, cynddeiriog.

Ymddengys gan hyny mai'r gwallt mwyaf dymunol ei liw ydyw y gwineu. Yn amser y Mabinogion, gwallt melyn a gyfrifid yr harddwch mwyaf ar rianedd; a mynych y dywedir am danynt fod eu gwallt "cyn felyned a blodau'r banadl;" a soniwn ninnau, ddiweddariaid dirywiedig, weithiau am wallt plentyn tlws, ei fod "cyn felyned a'r olden."

Oriau'r Flwyddyn.

Y MAE rhai o'n rhigymau poblogaidd yn anghywir o barth ffaith, lle mae'r ffaith yn ddigon amlwg, ac o fewn cyrhaedd pob dyn a fyddo yn berchen ar synwyr cyffredin. Un o'r cyfeiliornadau gwerinaidd hyn sydd yng nghylch nifer yr oriau mewn blwyddyn, yr hwn sydd wedi myned dan ystrydeb yn y pennill canlynol:

"*Deunaw mil* o oriau hirion
Sydd ym mlwyddyn drom y galon,
A *saith gant*, a *thrigain* hefyd,
A *thair* awr a phedair mynyd."

Sef yw hyny, mewn rhifnodau, 18763 o oriau, a 4 o fynydau: ac nid gwaeth i chwi geisio llusgo yr afanc allan o Lyn Llion na cheisio darbwyllo ambell ddyn nad oes cynnifer a hyn o oriau yng nghorff y flwyddyn; pryd nad oes, mewn gwirionedd, mo hanner hyny ynddi, yr hyn sydd ddigon hawdd i bawb ei ddarganfod. Gwyddys mai 365 o ddiwrnodau sydd mewn blwyddyn, a 24 awr mewn diwrnod; lluosoger y rhai hyn â'u gilydd (365 × 24), a cheir y daill yn 8760; ychwaneger at hyn y 6 awr dros ben y 365 o ddyddiau cyfain yn y flwyddyn, a cheir yr holl gyfanswm yn 8766, sef llai o gryn lawer na hanner y nifer a grybwyllir yn yr hen rigwm. Nid pell iawn o'r nod a fuasai dywedyd:

> Y mae wyth fil o oriau hirion
> O fewn blwyddyn drom y galon,
> A saith gant, a thrigain hefyd,
> A chwech awr a phedair mynyd.

Yn rhyw fodd neu gilydd, ymddengys i mi fod y Cymry i raddau yn gyffelyb i bobl y Dwyrain, yn analluog i amgyffred *nifer* pethau, os bydd y nifer hwnw yn nifer mawr. Y mae mil, a myrdd, a miliwn, gellid meddwl, i ambell un braidd yn eiriau cyfystyr; ac o herwydd pa

ham anfynych iawn y gellir ymddibynu yn gwbl ar gywirdeb rhifedi y cyfarfyddom â hwynt yn y cylchgronau a'r newyddiaduron Cymreig. Rhaid cyfaddef fod y dull Cymreig, neu yn hytrach y dull Celtig, o gyfrif yn un lled drwstan; ond nid yw mewn un modd mor drwstan ag i gyfreithloni un o bob cant o'r camsyniadau dybryd a welir yn britho ein cyfnodolion.

Camsynied bychan mewn cymhariaeth, a wnaeth awdwr canu "Morgan Jones o'r Dolau," pan y dywedodd,

"Mae saith milltir a saith ugain
O Bont Llanbedr i Bont Llundain;
Cerddwn rhai'n ar ben fy ngliniau
Er mwyn Morgan Jones o'r Dolau;

er bod yma ryw hanner can milltir o amryfusedd; yr hyn sy gryn lawer mewn nifer mor fychan a dau gant; canys nid oes llai na dau gan milltir faith "o Bont Llanbedr i Bont Llundain."

DIWEDD.

GWRECSAM: ARGRAFFWYD GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE ST.

Tair Ffug-chwedl Boblogaidd,

[illegible]

DANIEL OWEN, Y Wyddgrug

[illegible]

Rhys Lewis [illegible]
Enoc Huws
Gwen Tomos [illegible]

[illegible]

Pris, mewn Llian Hardd, 3/6

[illegible]

Rhys Lewis. [illegible]
[illegible] **3/6**,

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

Gwilym a Benni Bach [illegible]

[illegible]

[illegible]